| Person Perthnasol | Ymchwiliad | Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu | Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd |
|---|---|---|---|
| Gweinidogion Cymru | **CS1178** Mae tair elfen i'r gŵyn hon. Yn gyntaf, creodd profiadau'r achwynydd ar drenau ac mewn gorsaf drên amheuaeth nad oedd y sefydliad wedi darparu cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff Trafnidiaeth Cymru. Yn ail, fe dderbyniodd yr achwynydd e-bost awtomatig gyda'r Saesneg yn gyntaf ac, yn drydydd, roedd cyfarwyddiadau yn Saesneg yn unig ar beiriant hunanwasanaeth mewn gorsaf drên. | 28/03/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw Safonau 6, 60 a 132. Yn yr achos yma, cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn e-bost awtomatig, a hynny'n groes i ofynion safon 6 gan nad oedd modd gweld bod yr e-bost yn Gymraeg hefyd. Ni wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 60 gan bod neges Saesneg yn unig wedi ei osod ar beiriannau hunanwasanaeth Trafnidiaeth Cymru. Ni wnaeth y sefydliad gydymffurfio gyda safon 132 gan nad oedd modd i'r sefydliad gadarnhau bod pob aelod o staff Trafnidiaeth Cymru wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth iaith.<br><br>Safon 6 – Methiant<br>Safon 60 – Methiant<br>Safon 132 – Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i wirio bod holl atebion awtomataidd a anfonir gan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio gyda safon 6 a darparu tystiolaeth o'r camau gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth.<br>2. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu eu trefniadau gosod negeseuon ar beiriannau hunanwasanaeth Trafnidiaeth Cymru er mwyn sicrhau nad oes modd gosod negeseuon dros dro yn Saesneg heb osod neges Gymraeg cyfatebol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 3. Rhaid i Weinidogion Cymru gadw cofnod o'r nifer a'r canran o holl gyflogeion Trafnidiaeth Cymru sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 132.<br>4. Os nad yw cyflogai Trafnidiaeth Cymru eisoes wedi bod ar gwrs hyfforddi yn unol â safon 132, rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i adnabod y cyflogai a sicrhau eu bod yn mynychu'r hyfforddiant. |
| Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys | **CS1186** Honnai'r achwynydd iddo dderbyn cyfres o e-byst gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys (Heddlu Dyfed Powys) rhwng 15 Gorffennaf 2023 a 7 Awst 2023 yn uniaith Saesneg mewn ymateb i negeseuon a anfonwyd yn Gymraeg. | 26/03/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 1 a 154, a cham gorfodi o ymchwiliad CSG812. Yn yr achos yma, mae'r ohebiaeth dan sylw yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a hynny'n groes i ofynion safon 1. Mae Heddlu Dyfed Powys hefyd wedi methu cyflawni gofynion cam gorfodi CSG812 drwy fethu sicrhau bod pob gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg.<br><br>Safon 1 – Methiant<br>Safon 154 - Methiant<br>Gofyniad i gymryd cam gorfodi – Methiant<br><br>Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid Heddlu Dyfed Powys roi camau mewn lle i atal methiant i gydymffurfio â safon 1 rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Dylai'r camau hynny gynnwys:<br>- Cynnal adolygiad llawn o'i drefniadau ar gyfer derbyn ac ymateb i ohebiaeth Gymraeg er mwyn adnabod bylchau neu wendidau yn y trefniadau |

- Rhoi camau mewn lle i unioni'r bylchau neu wendidau yn y trefniadau
- Darparu hyfforddiant i staff ynglŷn â'r trefniadau diwygiedig a'u hatgoffa o ofynion safonau'r Gymraeg yn ymwneud â gohebu â'r cyhoedd.

Amserlen: O fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 154: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Heddlu Dyfed Powys lunio dogfen sydd yn cofnodi'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Gweler dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg Goruchwylio Cydymffurfiaeth am gyngor ac arweiniad.

3. Rhaid i Heddlu Dyfed Powys gyhoeddi'r ddogfen ar ei wefan, a sicrhau bod copi ar gael ym mhob swyddfa.

Amserlen: O fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Cam gorfodi ymchwiliad CSG812: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Heddlu Dyfed Powys roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 1 a 154 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan gyhoeddus, a darparu dolen i'r Comisiynydd fel tystiolaeth.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

5. Rhaid i Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 4.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1185** Mae'r achwynydd yn honni bod rhannau sylweddol o hysbysiad treth annomestig 2023-24 y Cyngor yn Saesneg yn unig, a bod unrhyw destun Cymraeg wedi ei leoli o dan neu i'r dde o'r testun Saesneg. | 11/03/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 6, a cham gorfodi o ymchwiliad CSG537. Yn yr achos yma, mae'r ohebiaeth dan sylw yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol am y rhesymau nododd yr achwynydd yn y gŵyn, a hynny'n groes i ofynion safon 6. Mae'r Cyngor hefyd wedi methu cyflawni gofynion cam gorfodi CSG537 drwy fethu sicrhau bod pob gohebiaeth sy'n ymwneud â hysbysiadau treth yn cydymffurfio'n llawn gyda'r safonau.<br><br>Safon 6 + Cam Gorfodi CSG537 – Methiant<br><br>Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor addasu ei dempledi ar gyfer gohebiaeth sy'n ymwneud â hysbysiad treth annomestig er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn gyda'r safonau.<br>2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y trefniadau gyda'r cwmni meddalwedd sy'n gyfrifol am y biliau treth yn ddigonol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau o hyn ymlaen.<br>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol | **CS1180** Mae'r achwynydd yn honni i ddigwyddiad seremoni gwobrwyo | 11/03/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | y Cyngor gynnwys llawer o gyflwyniadau llafar Saesneg yn unig, heb gyfieithu ar y pryd; nad oedd ffurflen ganiatâd ar gael yn Gymraeg yn syth; a bod sleidiau Power Point yn cynnwys testun Saesneg yn unig, neu Gymraeg gwallus. | | Y gofyniad perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 36. Yn yr achos yma, mae'r Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol yn y digwyddiad cyhoeddus am y rhesymau nododd yr achwynydd yn y gŵyn, a hynny'n groes i ofynion safon 36.<br><br>Safon 36 – Methiant<br><br>Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor atgoffa staff yr adran berthnasol o'r rhestr wirio sydd mewn lle ar gyfer cydymffurfio gyda'r safon. Rhaid i'r Cyngor hefyd gylchredeg y rhestr wirio i'r holl adrannau sy'n trefnu digwyddiadau cyhoeddus fel eu bod yn cael eu hatgoffa o ofynion y safon.<br>2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd |
| Gweinidogion Cymru | **CS1177** Ar 20/07/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mynychodd yr achwynydd gynhadledd ar y terfyn cyflymder 20mya drefnwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Roedd y cyflwyniadau a'r sgyrsiau yn Saesneg yn unig ac nid oedd cyfieithu ar y pryd ar gael. Fe anfonodd yr achwynydd e-bost yn | 11/03/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 156: Rhaid i Weinidogion Cymru gael gweithdrefn gwyno sy'n mynd i'r afael â sut y mae'n bwriadu delio â chwynion am ei gydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, ymysg materion eraill. Yn yr achos yma fe gyflwynodd yr achwynydd gŵyn am ddiffygion o ran gwasanaethau Cymraeg mewn cynhadledd drefnwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Derbyniodd yr achwynydd ymateb yn Saesneg yn unig ac nid oedd yr ymateb wedi ei baratoi yn unol â gofynion gweithdrefn gwynion y sefydliad fel sy'n ofynnol o dan safon 156. Fodd bynnag, gan bod gan y sefydliad weithdrefn gwyno sy'n |

Gymraeg i gwyno am y diffygion yma ar ôl y gynhadledd ac fe dderbyniodd ymateb Saesneg yn unig.

esbonio sut mae mynd i'r afael gyda chwynion am ei gydymffurfiaeth gyda safonau'r Gymraeg, rwyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio gyda safon 156.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 156.

**Datganiad gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu rhoi argymhellion i Weinidogion Cymru.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 156: Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

1. Dylai Gweinidogion Cymru atgoffa eu holl staff o'r angen i weithredu yn unol â'r Weithdrefn Gwynion pan dderbynnir cwyn am safonau'r Gymraeg.
2. Dylai Gweinidogion Cymru dynnu sylw eu holl staff at y canllaw i staff ynglŷn â delio gyda chwynion am safonau'r Gymraeg.
3. Dylai Gweinidogion Cymru ystyried y wybodaeth ym mharagraffau 8.1.10 a 8.1.11 o God Ymarfer Rheoliadau Rhif 1 Comisiynydd y Gymraeg er mwyn gweld a oes lle i gryfhau'r weithdrefn gwyno mewn perthynas gyda delio â chwynion am safonau'r Gymraeg.
4. Dylai Gweinidogion Cymru ystyried eu trefniadau ar gyfer cynnal hyfforddiant er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa yn rheolaidd ac amserol o'r trefniadau a disgwyliadau wrth ddelio gyda chwynion am y Gymraeg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 11/03/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | **CS1212** Fis Gorffennaf 2023, gwiriodd fy swyddogion bymtheg tudalen ar wefannau www.felindre.gig.cymru a www.gwaedcymru.org.uk. Yn groes i ofynion safon 39, nid oedd pob tudalen Gymraeg a wiriwyd yn gweithredu'n llawn. Hefyd, gwelwyd sawl achos o'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y gwefannau hyn. Ymhellach, nid oedd pob tudalen Saesneg a wiriwyd yn cynnwys dolen uniongyrchol oedd yn arwain at y dudalen Gymraeg gyfatebol. Roedd hyn yn enghraifft o fethiant gan yr Ymddiriedolaeth i gydymffurfio gyda gofynion safon 42. Ar ochr Gymraeg y wefan, nid oedd y rhyngwyneb a dewislenni ar gael (yn Gymraeg) ar rai o'r tudalennau a wiriwyd. O ganlyniad, fe fethodd yr Ymddiriedolaeth yn ogystal i gydymffurfio â safon 43. | 08/03/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 39 - Methiant<br>Safon 42 - Methiant<br>Safon 43 – Methiant<br><br>Safonau 39, 42 a 43: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gywiro pob un o'r diffygion a amlygwyd yn yr ymchwiliad hwn.<br>2. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gynnal archwiliadau rheolaidd o'i gwefannau er mwyn adnabod a chywiro unrhyw wallau ac anghysondebau rhwng y wefan Gymraeg a'r wefan Saesneg.<br>3. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gryfhau protocolau sicrhau ansawdd ar gyfer cyfieithu cynnwys i'r Gymraeg er mwyn lleihau gwallau ac anghysondebau.<br>4. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth adolygu ei phrosesau rheoli cynnwys er mwyn sicrhau bod dim modd cyhoeddi neu ddiweddaru tudalen (Saesneg) ar y wefan Saesneg heb hefyd cyhoeddi neu ddiweddaru tudalen gyfatebol (Gymraeg) ar y wefan Gymraeg ar yr un pryd.<br>5. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu (a rhannu gyda'r holl dimau perthnasol yn y sefydliad) protocolau a chanllawiau clir ar gyfer creu, cyfieithu a chyhoeddi cynnwys dwyieithog ar ei gwefannau yn unol â gofynion y safonau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 6. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei bod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 5.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1132** Ar 22/03/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) wedi cyhoeddi dyfarniad yr Arolygydd Cynllunio ynghyd â llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn uniaith Saesneg mewn perthynas â fferm solar ar Ynys Môn. Mae'r achwynydd wedi rhannu'r e-bost a yrrwyd ato yn cyflwyno'r dogfennau uchod. Roedd yr e-bost hwnnw yn uniaith Saesneg. Honnai'r achwynydd iddo ymateb (yn Gymraeg) yn gofyn am y dogfennau yn Gymraeg. Ni dderbyniodd yr achwynydd ymateb i'r e-bost hwnnw. | 23/02/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Os yw'r sefydliad yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol iddo ateb yr ohebiaeth yna yn Gymraeg, os oes angen ateb. Yn yr achos yma fe anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg at y sefydliad ar 17/05/2023. Ni dderbyniodd ymateb ac fe gysylltodd â mi i gyflwyno cwyn a darparu copi o'r e-bost dan sylw. Yn ôl Gweinidogion Cymru, nid ydynt wedi gallu adnabod yr e-bost gan yr achwynydd. Gan na dderbyniodd yr achwynydd gydnabyddiaeth nac ymateb i'w ohebiaeth Gymraeg, rwyf o'r farn na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 1 yn yr achos yma.<br><br>Safon 4: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 4 mae'n rhaid i Weinidogion Cymru anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni pan maent yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau. Rhaid gwneud hyn beth bynnag fo dewis iaith y cwsmeriaid. Yn yr achos yma fe anfonodd swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio e-bost at 86 o bobl yn Saesneg yn unig. Fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod yr ohebiaeth yma wedi cael ei anfon yn Saesneg yn unig am nad oeddynt wedi derbyn gwybodaeth am ddewis iaith y derbynwyr gan PCAC. Nid yw dewis iaith yn berthnasol mewn sefyllfaoedd fel hyn pan mae sefydliad yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bobl. Hyd |

yn oed os yw unigolyn wedi dewis Saesneg fel iaith i dderbyn gohebiaeth gan Weinidogion Cymru, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru anfon gohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn Gymraeg hefyd. Gan na wnaeth Gweinidogion Cymru anfon gohebiaeth anfonwyd at nifer o bersonau yn Gymraeg, rwy'n dyfarnu na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 4 yn yr achos yma.

Safon 5: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 5, os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, rhaid iddo ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu â'r person hwnnw.
Yn yr achos yma fe anfonwyd yr un ohebiaeth at nifer o bobl yr un pryd. Cafodd y safon yma ei chynnwys yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad cyn imi dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r nifer o bersonau a dderbyniodd yr ohebiaeth dan sylw. Gan bod nifer o bobl wedi derbyn yr un ohebiaeth ar yr un pryd, yna cydymffurfiaeth gyda safon 4 sy'n berthnasol yma ac nid safon 5. Gan mai safon 4 sy'n berthnasol yma ac nid safon 5 nid oes tystiolaeth bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5 yn yr achos yma.

Safon 40: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 40 mae angen i sefydliadau sicrhau bod unrhyw ddogfennau sy'n cael eu llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael eu llunio yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe anfonwyd adroddiad yn Saesneg yn unig mewn ymateb i Gais Datblygu Arwyddocâd Cenedlaethol at nifer fawr o aelodau o'r cyhoedd oedd wedi cymryd rhan yn y broses gynllunio. Cysylltodd aelod o'r cyhoedd gyda mi ar ôl derbyn yr adroddiad yn Saesneg.

Cafodd yr adroddiad ei llunio gan Arolygydd PCAC ar ran Gweinidogion Cymru yn Saesneg yn unig a'i rhannu gyda nifer o unigolion. Gan bod y ddogfen wedi ei llunio ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi ei rhannu gyda chyfran o'r cyhoedd, fe ddylai fod wedi ei lunio yn Gymraeg.

Safon 47: Os yw corff yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, ac os nad oes safon arall eisoes yn gosod dyletswydd i gorff lunio'r ddogfen yn Gymraeg (e.e. os nad oes rhaid i gorff lunio dogfen yn Gymraeg yn unol â safonau 40–46), rhaid iddo asesu: - a yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu - a yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'i disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. Yn yr achos yma, fe anfonodd Gweinidogion Cymru gopi o lythyr penderfyniad am gais cynllunio at gyfran o'r cyhoedd yn Saesneg yn unig, er bod y pwnc a'r gynulleidfa debygol yn awgrymu y dylai'r dogfennau fod yn Gymraeg. Cafodd llythyr penderfyniad gan un o Weinidogion Cymru ei anfon yn Saesneg yn unig at nifer o unigolion. Rwyf o'r farn bod pwnc a chynulleidfa'r ddogfen yn awgrymu y dylai fod wedi ei hanfon yn Gymraeg ac felly rwyf o'r farn na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 47 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5, ond bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4, 40 a 47.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4, 40 a 47.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ganllawiau gohebiaeth ddefnyddir gan staff y Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn cael eu haddasu i sicrhau bod gofynion safon 1 yn cael eu egluro yn glir i staff.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru wirio ac ail-ddanfon canllawiau am ddelio â gohebiaeth i staff y Gyfarwyddiaeth Gynllunio.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ganllawiau gohebiaeth ddefnyddir gan staff y Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn cael eu haddasu i sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael eu egluro yn glir i staff. Rhaid i’r canllawiau egluro’r canlynol :

a) Pa fath o ohebiaeth sy’n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy’n mynd at ‘nifer o bersonau’.

b) Na ddylid anfon gohebiaeth sy’n cael ei anfon at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig.

4. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau eu bod yn tynnu sylw staff perthnasol at y newidiadau i’r canllawiau.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 40: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
5. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'r modd maent yn llunio adroddiadau cynllunio Ceisiadau Datblygu Arwyddocâd Cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safon 40.
6. Rhaid i Weinidogion Cymru gynhyrchu cyngor ymarferol yn egluro wrth swyddogion sut i weithredu er mwyn llunio adroddiadau Ceisiadau Datblygu Arwyddocâd Cenedlaethol mewn modd sy'n cydymffurfio gyda safon 40.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 40: Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Rwy'n argymell bod Gweinidogion Cymru yn ail-edrych ar yr holl broses o lunio adroddiadau cynllunio mewn perthynas â safon 40 yn sgil canfyddiadau'r ymchwiliad yma.

Safon 47: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
7. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i asesu ei drefniadau mewnol er mwyn gweithredu yn unol â safon 47 a sicrhau bod llythyrau penderfyniad cynllunio Gweinidogion Cymru yn cael eu llunio yn Gymraeg os yw'n cyrraedd y trothwy o dan safon 47.
8. Rhaid i Weinidogion Cymru greu canllaw neu arweiniad i staff (neu addasu canllaw sy'n bodoli eisoes) sy'n egluro

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gofynion safon 47 mewn perthynas â dogfennau o fewn y broses gynllunio a thynnu sylw staff perthnasol at y ddogfen honno.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>9. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-8.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 23/02/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **CS1205** Gwnaeth canlyniadau arolygon a gynhaliwyd yn 2022-23 a 2023-24 o dudalennau ar brif wefan y bwrdd iechyd (https://biap.gig.cymru/) greu amheuaeth nad yw'r bwrdd iechyd yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. | | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 39: Mae safon 39 yn gofyn i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob un o'i dudalennau gwe ar gael yn Gymraeg. Arolygais 30 tudalen ar wefan https://biap.gig.cymru/ yn 2022-23 a 2023-24. Gwelais sawl enghraifft o dudalennau Cymraeg yn cynnwys testun Saesneg. Mae'r safon hefyd yn gofyn i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod pob tudalen we yn gweithredu yn llawn ac i sicrhau nad ydi'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd naw o'r bymtheg dudalen a arolygais yn 2022-23 yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y diffygion yn cynnwys y canlynol: |

- tudalennau ar y wefan Saesneg ddim wedi eu cyhoeddi o gwbl ar y wefan Gymraeg, gan arwain defnyddwyr y wefan Gymraeg at dudalen wall;
- cynnwys oedd wedi ei gyhoeddi ar dudalennau Saesneg ar goll neu ddim yn weledol ar y tudalennau Cymraeg cyfatebol;
- cyfieithiadau a threigladau gwallus;
- gwybodaeth oedd wedi ei diweddaru ar dudalennau Saesneg ddim wedi eu diweddaru ar y tudalennau Cymraeg cyfatebol;
- dolenni ar dudalennau Cymraeg yn arwain defnyddwyr at dudalennau Saesneg (er roedd y tudalennau ar gael yn Gymraeg).

Gwelwyd sawl achos tebyg yn fy arolygon gwirio yn 2023-24. Mewn cyfarfod gyda swyddogion y bwrdd iechyd ym mis Medi 2022, gwnaed ymholiadau am y prosesau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gwefan, yn dilyn canfod y diffygion drwy fy arolygon gwirio. Nodwyd bryd hynny mai dim ond un cyfieithydd oedd yn cael ei gyflogi gan y bwrdd iechyd, ac ei bod yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu gwaith cyfieithu er mwyn sicrhau bod gofynion y safonau yn cael eu cyrraedd. Nodwyd hefyd bod y tîm cyfathrebu yn ymwybodol y dylent aros am gyfieithiad Cymraeg o dudalen we berthnasol cyn cyhoeddi unrhyw dudalen, ac y dylent sicrhau bod tudalennau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r dudalen Saesneg gyfatebol. Serch hyn, nid yw gwiriadau diweddaraf o'r brif wefan yn fy argyhoeddi bod prosesau'r bwrdd iechyd yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau gwefannau ar hyn o bryd. Mae'n glir o'r arolygon yma bod yna broblemau parhaus gyda rheolaeth creu a chyhoeddi

cynnwys ar wefan y bwrdd iechyd i ddiffygion fel hyn allu parhau i ddigwydd.

Safon 41: Os yw'r bwrdd iechyd yn diwygio tudalen neu'n cyhoeddi tudalen 'newydd' (sef un a grëwyd ers y diwrnod gosod o 30/05/2019), mae safon 41 yn gosod dyletswydd arno i sicrhau bod testun pob tudalen we ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn ac nad ydi'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n ymddangos bod pob tudalen a arolygais un ai yn un oedd wedi ei chreu o'r newydd ers 30/05/2019 neu wedi ei diwygio ers y dyddiad hwn, ac felly, yn ddarostyngedig i ofynion y safon hon. Fel rwyf wedi nodi eisoes mewn perthynas â safon 39, gwnaeth fy arolygon gwirio o wefan y bwrdd iechyd ganfod sawl tudalen oedd un ai yn rhannol yn Saesneg neu'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn hefyd yn enghraifft o fethiant i gydymffurfio gyda safon 41.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 39 a 41.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 39 a 41.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 39 a 41: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei adnoddau cyfieithu er mwyn sicrhau bod capasiti i gyfieithu cynnwys i'r Gymraeg yn amserol a chywir.
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd gryfhau protocolau sicrhau ansawdd ar gyfer cyfieithu cynnwys i'r Gymraeg er mwyn lleihau gwallau ac anghysondebau.
3. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliadau rheolaidd o'i brif wefan er mwyn adnabod a chywiro unrhyw wallau ac anghysondebau rhwng y wefan Gymraeg a'r wefan Saesneg.
4. Rhaid i'r bwrdd iechyd datblygu (a rhannu gyda'r holl dimau perthnasol yn y sefydliad) protocolau a chanllawiau clir ar gyfer creu, cyfieithu a chyhoeddi cynnwys dwyieithog ar ei wefannau.
5. Mewn ymateb i'r angen i sicrhau na chaiff tudalen (Saesneg) ei chyhoeddi ar y wefan Saesneg heb fod tudalen gyfatebol (Gymraeg) yn cael ei chyhoeddi ar y wefan Gymraeg ar yr un pryd, rhaid i'r bwrdd iechyd alluogi a defnyddio'r ategyn newydd a ddatblygwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer System Rheoli Cynnwys Mura ('Cynnwys Cyfatebol Awtomatig').
6. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 5.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 22/02/2024.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | **CS1196** Ar 02/10/2023, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn egluro ei bod wedi derbyn llythyr gan Wasanaeth Ymwelwyr Iechyd y bwrdd iechyd ar 11/04/2023 ynglŷn â threfnu adolygiad datblygiad i'w phlentyn. Roedd yr achwynydd yn anfodlon bod y llythyr wedi'i anfon yn Saesneg yn unig. Cododd y gŵyn bryderon bod y bwrdd iechyd heb ddarparu fersiwn Gymraeg o'r llythyr i'r achwynydd. Gwnaeth y gŵyn hefyd greu amheuaeth nad yw'r llythyrau safonol a anfonir gan y Gwasanaeth yn nodi ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Yn ogystal, gwnaeth canlyniadau fy arolygon gwirio o wasanaethau'r bwrdd iechyd godi pryderon pellach nad yw e-byst sy'n cael eu hanfon gan y bwrdd iechyd bob amser yn cynnwys y datganiadau gofynnol hyn. | 22/02/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 5: Os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth ganddo yn Gymraeg, mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth i'r person hwnnw. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gorff bob amser anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at berson, nes bod y corff yn gwybod, a dim ond os yw'n gwybod, nad yw'r person yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg. Ar 11/04/2023, derbyniodd yr achwynydd lythyr gan Wasanaeth Ymwelwyr Iechyd y bwrdd iechyd ynghylch trefnu adolygiad datblygiad i'w phlentyn. Nid oedd gan y bwrdd iechyd unrhyw wybodaeth i awgrymu nad oedd yr achwynydd am dderbyn gohebiaeth Gymraeg. Oherwydd hynny, roedd dyletswydd ar y bwrdd iechyd dan safon 5 i ohebu â'r achwynydd yn yr achos hwn yn Gymraeg. Fodd bynnag, anfonodd y Gwasanaeth y llythyr dan sylw yn Saesneg yn unig. O ganlyniad, methodd y bwrdd iechyd yn ei ddyletswydd o dan safon 5 i ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at sylw'r achwynydd. Nid yw hwn yn achos ynysig, gan fod fy ymchwiliad blaenorol (CSG728) yncadarnhau bod y Gwasanaeth wedi gohebu â'r achwynydd yn uniaith Saesneg o leiaf unwaith o'r blaen. Mae'r bwrdd iechyd yn egluro mai ei weithdrefn arferol yw anfon gohebiaeth yn ddwyieithog fel mater o drefn (hyd nes bod dewis iaith y defnyddiwr yn hysbys). Mae'r weithdrefn hon yn cyd-fynd â gofynion safon 5. Fodd bynnag, fel y gwelir o'r achos hwn, nid yw'r weithdrefn hon yn cael ei gweithredu'n gyson gan staff y Gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r bwrdd iechyd yn cadarnhau bod templed Cymraeg ar |

gyfer pob llythyr safonol a anfonir gan y Gwasanaeth eisoes ar gael at ddefnydd staff. O ystyried hyn, nid yw'n glir sut yr oedd yn bosibl yn yr achos hwn i'r Gwasanaeth greu ac anfon llythyr uniaith Saesneg at yr achwynydd. Er nad yw'n sicr sut y llwyddwyd anfon llythyr uniaith Saesneg yn yr achos hwn, mae'n amlwg bod yna wendid sylfaenol ym mhroses y bwrdd iechyd o greu ac anfon llythyrau er mwyn i hyn fod wedi gallu digwydd eto. Gallai'r ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at hyn gynnwys y canlynol:

- nid yw templedi a ddefnyddir gan staff y Gwasanaeth i gynhyrchu llythyrausafonol bob amser mewn fformat dwyieithog (h.y. mae’r fersiwn Saesneg a’r fersiwn Gymraeg o rai templedi yn ddogfennau ar wahân), gan arwain at staff yn defnyddio y fersiwn Saesneg o’r templed yn unig i lunio llythyrau;
- materion sy'n ymwneud â gallu ieithyddol aelodau staff, lle nad ydynt efallai'n teimlo'n hyderus wrth ddiwygio'r templedi Cymraeg sydd ar gael;
- hyfforddiant annigonol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan ei gwneud yn anodd i staff werthfawrogi pwysigrwydd cydymffurfio â’r safonau a darparu gohebiaeth yn iaith ddewisol y defnyddiwr gwasanaeth;
- camsyniad gan aelodau staff mai dim ond os yw cofnodion y bwrdd iechyd yn cadarnhau mai Cymraeg yw dewis iaith y derbynnydd y mae angen anfon gohebiaeth Gymraeg (yn hytrach na dilyn gweithdrefn y bwrdd iechyd o anfon gohebiaeth yn ddwyieithog bob amser, hyd nes bydd dewis iaith yn hysbys).

Beth bynnag yw'r ffactorau penodol a arweiniodd at y methiant yn yr achos hwn, rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu ymhellach i sicrhau bod y Gwasanaeth yn anfon

gohebiaeth yn Gymraeg (neu'n ddwyieithog) fel mater o drefn, yn unol â'i bolisi sefydledig. Nodaf fod y bwrdd iechyd wedi atgoffa staff y Gwasanaeth eto o ofynion safon 5 ar ôl derbyn y gŵyn hon. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth eisoes wedi'i atgoffa o'r gofyniad hwn o ganlyniad i ymchwiliad CSG728. Ymddengys felly fod angen newidiadau mwy sylweddol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y safon hon ac atal yr un gwall rhag digwydd eto.

Safon 7: Er mwyn cydymffurfio â safon 7, rhaid i'r bwrdd iechyd ddatgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Nid oedd llythyr a anfonwyd at yr achwynydd ar 11/04/2023 gan y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn cynnwys y datganiad yma. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw un o'r templedi llythyrau safonol a ddefnyddir gan y Gwasanaeth er mwyn cynhyrchu gohebiaeth yn cynnwys datganiad at ddibenion cydymffurfio â gofynion safon 7. Mae'n debygol bod hyn wedi cyfrannu at y datganiad yn cael ei hepgor o'r llythyr a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth a'i anfon at yr achwynydd. Mae'r diffyg datganiad priodol yn llythyr yr achwynydd yn enghraifft bellach o batrwm ehangach o ddiffyg cydymffurfio gan y bwrdd iechyd. Gwnaeth fy ngwaith monitro o gydymffurfiaeth y bwrdd iechyd â safon 7 yn 2022-23 a 2023-24 ganfod sawl enghraifft arall o ohebiaeth nad oedd yn cydymffurfio. Anfonwyd cyfres o e-byst Cymraeg ac e-byst Saesneg i gyfeiriadau e-bost gwahanol yn ystod y cyfnodau monitro. O'r negeseuon e-bost a dderbyniodd ymateb, nid oedd yr ymateb awtomataidd na'r ymateb llawn

a gafwyd yn cynnwys y datganiad gofynnol ar gyfer cydymffurfio â'r safon. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae'n amlwg nad yw'r bwrdd iechyd yn sicrhau bod datganiadau priodol yn cael eu cynnwys yn gyson yn ei ymatebion e-bost. Mae hyn yn gyfystyr â thorri safon 7.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 5 a 7.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 5 a 7.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob templed ar gyfer llythyrau safonol a anfonir gan y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd mewn fformat dwyieithog (neu'n cael eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n dileu'r posibilrwydd o greu ac anfon fersiynau uniaith Saesneg).
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i staff y Gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd gohebu yn Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth (yn unol â safon 5).
3. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff y Gwasanaeth er mwyn gwella eu gallu i allu

cynhyrchu a diwygio llythyrau Cymraeg gan ddefnyddio'r templedi Cymraeg sydd ar gael.

4. Dros gyfnod o 3 mis, rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal hap-wiriadau o'r llythyrau a anfonir gan y Gwasanaeth i sicrhau bod staff yn anfon gohebiaeth at ddefnyddwyr gwasanaeth yn Gymraeg/dwyieithog (yn unol â gofynion safon 5).

5. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd rannu a thrafod canfyddiadau'r ymchwiliad hwn gyda rheolwyr a staff y Gwasanaeth i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r digwyddiad hwn.

6. Yn unol â dymuniadau'r achwynydd i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei systemau yn cofnodi 'Cymraeg' fel ei dewis iaith.

7. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-6.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 7: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob templed ar gyfer llythyrau safonol a anfonir gan y Gwasanaeth yn cynnwys datganiad yn nodi ei fod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebiaeth yn Gymraeg yn arwain at oedi.

2. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl negeseuon e-bost a anfonir yn allanol yn cynnwys datganiad (e.e. o fewn troedyn yr e-bost neu'r llofnod staff) sy'n nodi ei fod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebiaeth yn Gymraeg yn arwain at oedi.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 3. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 22/02/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1161** Ar 15/06/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn gan honni nad oes modd newid dewis iaith ar ap TrawsCymru i'r Gymraeg ar ei ffôn symudol. | 16/02/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 57: Mae safon 57 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar Weinidogion Cymru sicrhau fod pob ap a gyhoeddir ganddynt yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg. Mae'n ofynnol arnynt sicrhau hefyd na thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. Cysylltodd achwynydd â mi yn honni na allai gyrchu'r fersiwn Gymraeg o ap TrawsCymru ar ei ffôn symudol. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru fod yn rhaid wrth ddyfais sydd yn cefnogi'r Gymraeg er mwyn gallu cyrchu'r fersiwn Gymraeg o'r ap. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fo dyfais yn cefnogi'r Gymraeg, ni ellir cyrchu'r ap Cymraeg oni bai fod y Gymraeg yn iaith flaenoriaeth yng ngosodiadau'r ddyfais a ddefnyddir. Y mae felly yn amhosib cyrchu ap Cymraeg TrawsCymru ar nifer o ddyfeisiau a ddefnyddir yn gyffredin yn Nghymru. Yn ogystal, gan mai Saesneg yw iaith flaenoriaeth ffonau symudol yn y Deyrnas Unedig fel arfer, fe fyddai angen i ddefnyddwyr gymryd y cam ychwanegol o newid blaenoriaethau iaith eu dyfais os am gyrchu ap |

TrawsCymru yn Gymraeg. Oherwydd fod ap Cymraeg TrawsCymru yn llai hygyrch i ddefnyddwyr na'r ap Saesneg, dyfarnaf fod Gweinidogion Cymru wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu'r ap ac felly wedi methu â chydymffurfio'n llawn â safon 57.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 57.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 57.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 57: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu eu prosesau caffael a chyflenwi ar gyfer llunio apiau newydd er mwyn sicrhau bod unrhyw ap newydd sydd yn cael ei ddatblygu ganddynt ar gael yn llawn yn Gymraeg a'i fod yr un mor hygyrch i bawb, heb ddibynnu ar ddewis iaith yng ngosodiadau system dyfeisiadau unigol.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 16/02/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | **CS1175** Eglurodd aelod o’r cyhoedd (P) ei fod wedi ffonio 02921 835208 (Adran Iechyd Rhywiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro) ddwy waith a methu â chael gwasanaeth Cymraeg. Honnodd P fod y neges sydd wedi ei recordio ar y rhif ffôn yn Saesneg yn unig; nad yw staff sy’n ateb galwadau yn cyfarch yn Gymraeg a bod galwadau yn cael eu cyfeirio yn syth at staff sy’n siarad Saesneg, heb opsiwn i ddewis gwasanaeth Cymraeg. Fe wnaeth y gŵyn greu amheuaeth o fethiant gan y bwrdd iechyd i ddelio â galwadau yn Gymraeg ar y rhif ffôn (yn unol â gofynion safon 17); i gyfarch personau yn Gymraeg (yn unol â safon 18); sicrhau bod y negeseuon sydd wedi eu recordio ar gael yn Gymraeg (yn unol â safon 20) ac i godi ymwybyddiaeth bod yna wasanaeth ffôn Cymraeg ar gael (yn unol â safonau 60 a 61). | 08/02/2024 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Fis Mehefin 2023, ffoniodd fy swyddog y rhifau canlynol i asesu eu cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg:<br>o 02920 747747 (Switsfwrdd Ysbyty Athrofaol Cymru)<br>o 01446 704000 (Prif rif ffôn Ysbyty’r Barri)<br>o 02920 711711 (Prif rif ffôn Ysbyty Llandochau).<br><br>Safon 8: Os yw person yn cysylltu â chorff ar un o’i rifau ffôn perthnasol, mae safon 8 yn nodi bod rhaid i’r corff gyfarch y person hwnnw yn Gymraeg. Roedd y neges awtomataidd cychwynnol (ac felly y cyfarchiad cyntaf a wnaed) ar y rhifau a arolygwyd yn Saesneg yn unig. Dim ond ar ôl i fy swyddog orfod pwyso botwm i gael ei chyfeirio i glywed y neges awtomataidd yn Gymraeg y cafodd ei chyfarch yn Gymraeg. Mae safon 8 yn gofyn bod pob galwr yn cael eu cyfarch yn y Gymraeg, waeth beth a ydynt wedi pwyso botwm i barhau gyda gweddill yr alwad yn Gymraeg ai peidio. O ganlyniad, fe wnaeth y bwrdd iechyd fethu yn ei ddyletswydd i gyfarch fy swyddog yn Gymraeg yn unol â gofynion y safon.<br><br>Safon 10: Pan mae galwr sydd yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg yn ffonio un o rifau ffôn perthnasol y corff, mae safon 10 yn nodi bod rhaid i’r corff ddelio â’r alwad honno yn Gymraeg, hyd nes ei bod yn angenrheidiol |

Arolygon gwirio'r Comisiynydd

Fe wnaeth canfyddiadau fy arolygon gwirio ar gyfer 2023-24 greu amheuon pellach o fethiant i gydymffurfio â'r safonau ar rifau ffôn 02920 747747 (Switsfwrdd Ysbyty Athrofaol Cymru); 01446 704000 (Prif rif ffôn Ysbyty'r Barri) a 02920 711711 (Prif rif ffôn Ysbyty Llandochau). Crewyd amheuaeth o fethiant i gyfarch personau yn Gymraeg ar y rhifau ffôn hyn (yn unol â safon 8); i ddelio â galwadau yn Gymraeg (yn unol â gofynion safon 10) a sicrhau bod negeseuon wedi eu recordio ar gael yn Gymraeg (yn unol â safon 20).

Gwaith gwirio pellach

Fe wnaeth gwaith gwirio pellach gan fy swyddogion greu amheuaeth pellach nad yw'r bwrdd iechyd yn nodi (yn Gymraeg)—pan fydd yn cyhoeddi ei brif rifau ffôn ar ei wefan—ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg (yn unol â safon 13).

i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). Roedd un neges ar system awtomataidd y rhifau a arolygwyd yn Saesneg yn unig. Yn ogystal, ni welwyd un achos lle gwnaeth y triniwr galwadau lwyddo i ddelio â'r alwad yn llawn yn Gymraeg. Yn benodol, yn achos yr alwad i Ysbyty'r Barri, rhoddodd y trinwyr galwadaugyfarchiad uniaith Saesneg i fy swyddog. Yn achos yr alwad honno a'r alwad i Ysbyty Llandochau, ni wnaeth y triniwr galwadau ddelio ag unrhyw ran arall o'r alwad ynGymraeg. Yn achos yr alwad i Ysbyty Athrofaol Cymru, fe wnaeth y triniwr galwadau gyfarch fy swyddog yn rhannol yn Saesneg. I weithredu'r safon, mae hefyd angen i'r rhai sy'n delio â galwadau Cymraeg allu deall ymholiad a wneir yn Gymraeg. Nid oedd y triniwr galwadau yn gallu gwneud hynny yn yr achos hwn i gychwyn, felly methodd y bwrdd iechyd â chyflawni'r gofyniad o ddelio gyda'r alwad yn Gymraeg.

Safon 13: Pan fydd corff yn cyhoeddi un o'i rifau ffôn perthnasol, mae safon 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff nodi, yn Gymraeg, ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Fis Rhagyr 2023, fe wiriais rai o brif dudalennau gwefan www.bipcaf.gig.cymru lle mae rhifau ffôn perthnasol y bwrdd iechyd wedi eu cyhoeddi. Nid oedd datganiad perthnasol ar gyfer cydymffurfio â'r safon hon wedi ei gynnwys ar unrhyw dudalen a wiriais.

Safon 17 ac 18: Pan mae galwr sy'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg yn ffonio un o adrannau'r corff ar rif

| | |
|---|---|
| | ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rif llinell uniongyrchol aelod staff):<br>- mae safon 18 yn nodi bod rhaid i'r corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y galwr;<br>- mae safon 17 yn nodi bod rhaid i'r corff ddelio â'r alwad honno yn Gymraeg, hyd nes ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny).<br>Mae rhif ffôn 02921 835208 (Adran Iechyd Rhywiol y bwrdd iechyd) yn ddarostyngedig i ofynion y safonau hyn. Yn 2023, ffoniodd aelod o'r cyhoedd (P) y rhif yma ddwy waith a methodd â chael gwasanaeth Cymraeg. Nid oedd y negeseuon oedd wedi eu recordio ar system awtomataidd y rhif ffôn ar gael yn Gymraeg. Hefyd, fe gyfeiriwyd y galwadau yn syth at staff di-Gymraeg, heb opsiwn i P ddewis derbyn gwasanaeth Cymraeg. O ganlyniad, ni chafodd P ei gyfarch yn Gymraeg ac ni ddeliwyd ag ef yn Gymraeg, yn unol â gofynion safonau 17 ac 18. Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod nad oedd y gwasanaeth a dderbyniodd P yn cydymffurfio â'r safonau ac, ers dod yn ymwybodol o'r gŵyn, mae wedi cymryd camau i sicrhau gwasanaeth dwyieithog ar y rhif ffôn hwn o hyn ymlaen.<br>Mae'r bwrdd iechyd wedi cymryd camau sydd yn golygu ei fod nawr yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn ystod oriau swyddfa (9am – 5pm) yn ystod yr wythnos, ac yn ystod y penwythnos. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth yma, drwy roi cyfleoedd penodol i'w staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach yn y misoedd nesaf. |

Safon 20: I gydymffurfio â safon 20, rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gan gorff ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. Mae'r safon hon yn berthnasol i brif rifau ffôn, llinellau cymorth, canolfannau galwadau yn ogystal â rhifau ffôn llinell uniongyrchol y corff. Fel rwyf wedi adrodd wrth drafod cydymffurfiaeth D â safon 10, pan wiriwyd rhifau Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty'r Barri ac Ysbyty Llandochau ym mis Mehefin 2023, roedd rhan o'r system awtomataidd ar y rhifau hyn yn Saesneg yn unig. Drwy beidio â sicrhau bod y gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio ar gael yn Gymraeg, mae'r bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â gofynion y safon ar y rhifau hyn. Gan ystyried cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd gyda'r safon ar rif ffôn Adran Iechyd Rhywiol y bwrdd iechyd, roedd yr holl negeseuon a oedd wedi eu recordio ar y system awtomataidd hwn yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, nodaf fod y bwrdd iechyd yn cadarnhau bod y system awtomataidd cyfan ar gael yn Gymraeg erbyn hyn.

Safonau 60 a 61: Fe wnaeth cwyn P honni nad oedd dim ar dudalen wybodaeth yr Adran Iechyd Rhywiol (https://bipcaf.gig.cymru/ein-gwasanaethau/iechyd-rhywiol/) yn awgrymu bod yr Adran yn croesawu galwadau ffôn i rif ffôn 02921 835208 (Adran Iechyd Rhywiol y bwrdd iechyd) yn Gymraeg. Mae safonau 60 a 61 yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg y corff ac yn gofyn iddo, ymysg pethau eraill:
- sicrhau, os bydd yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth a ddarperir yn Saesneg, bod

unrhyw wefan sy’n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg yn nodi bod yna gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.
- hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y corff.
Gwiriais y dudalen we sydd dan sylw i gŵyn P, fel ag yr oedd wedi ei chyhoeddi ar adeg ymweliad P â’r wefan. Nid oedd y dudalen hon ar y pryd yn cynnwys unrhyw wybodaeth oedd yn cyfleu bod gwasanaeth ffôn Cymraeg (oedd yn gyfateb i’r gwasanaeth a nodir yn y safonau ffôn) ar gael ar y rhif ffôn dan sylw, neu yn hybu defnydd o’r gwasanaeth Cymraeg hwnnw. Erbyn hyn, mae brawddeg wedi cael ei ychwanegu i’r dudalen hon yn nodi “Rydym wrthi'n datblygu system brysbennu ffôn Gymraeg awtomataidd. Am y tro, rhowch wybod i'r derbynnydd os hoffech gyfathrebu â ni yn Gymraeg.” Nid yw’r datganiad yma yn diwallu’r angen i’r bwrdd iechyd roi gwybod am y gwasanaeth ffôn y dylid bod ar gael yn Gymraeg yn unol â’r safonau ffôn, na’r angen iddo hybu defnydd o’r gwasanaeth Cymraeg hwnnw. Mae ymateb y bwrdd iechyd i’r hysbysiad tystiolaeth yn awgrymu bod Tîm yr Adran Iechyd Rhywiol wedi cysylltu â Thîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu y bwrdd iechyd i ofyn iddynt ddiwygio’r tudalennau sy'n cynnwys rhif ffôn yr Adran, fel bod y tudalennau hyn yn nodi y croesewir galwadau yn y Gymraeg, fel roedd P yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, yn dilyn gwiriad diweddar o’r dudalen sydd dan sylw i gŵyn P, nid yw’r bwrdd iechyd hyd yma wedi diweddaru’r dudalen honno i gynnwys datganiad o’r fath. Byddai sicrhau hynny wedi mynd cam o’r ffordd i ddiwallu gofynion safonau 60 a 61 ac ymateb yn uniongyrchol i bryderon yr achwynydd.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 10, 13, 17, 18, 20, 60 a 61.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 10, 13, 17, 18, 20, 60 a 61.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 8, 10, 13, 20, 60 a 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Safon 8
1. Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod negeseuon ar systemau ffôn awtomataidd Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty’r Barri ac Ysbyty Llandochau yn cyfarch pob galwr yn Gymraeg yn unol â safon 8 (heb i’r galwr orfod pwyso botwm ar y ffôn gyntaf er mwyn derbyn cyfarchiad Cymraeg).

Safon 10
2. Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y tîm sy’n gyfrifol am ddelio â galwadau Cymraeg i Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty’r Barri ac Ysbyty Llandochau y sgiliau iaith Gymraeg i allu cyfarch a delio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 10 (e.e. drwy wella sgiliau iaith Gymraeg staff presennol i lefel sy’n sicrhau hynny).

Safon 13

3. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal gwiriad cynhwysfawr o bob tudalen ar wefan www.bipcaf.gig.cymru (sy'n cynnwys prif rifau ffôn, rhifau llinellau cymorth neu rifau canolfannau galwadau y bwrdd iechyd) er mwyn sicrhau eu bod yn nodi, yn Gymraeg, y croesawir galwadau yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y tudalennau yn adran 'Ein hysbytai' ar wefan www.bipcaf.gig.cymru yn cynnwys y datganiad perthnasol.

Safon 20
4. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system ffôn wedi ei awtomeiddio ar bob rif ffôn sy'n berthnasol i safon 20 yn darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.

Safonau 60 a 61
5. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnwys datganiad, ar bob tudalen we sy'n cynnwys rhif ffôn yr Adran Iechyd Rhywiol, sy'n:
- nodi bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn;
- annog defnydd o'r gwasanaeth Cymraeg hwnnw (e.e. drwy nodi y croesewir galwadau yn Gymraeg).

Amserlen: Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau:
- camau gorfodi 1, 3 a 5 erbyn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol;
- cam gorfodi 2 erbyn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol; a
- cam gorfodi 4 erbyn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 08/02/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | **CS1149** Yn ystod arolygon 2022 - 2023 fel rhan o gynllun monitro ac asesu Comisiynydd y Gymraeg, gwnaethpwyd pedair galwad ffôn gan fy swyddogion fel galwr dirgel i brif rif ffôn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (01495 762200) sy'n cael ei hysbysebu ar waelod pob tudalen o'u gwefan. Gwnaethpwyd dwy alwad ar 25/11/2022 a dwy alwad ar 28/11/2022. Ni dderbyniodd fy swyddogion wasanaeth Cymraeg ar unrhyw un o'r achlysuron yma. Mae'r amgylchiadau'n creu amheuaeth o fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg perthnasol a osodwyd arno. | 29/01/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 11: Rhaid i gorff sicrhau pan fo person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, fod ycorff yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.<br>Ni dderbyniodd ein galwr dirgel wasanaeth Cymraeg yn ystod ei alwad ffôn i'r Cyngor. Mae hynny yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 11.<br><br>Safon 17: Rhaid i gorff sicrhau pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, eu bod yn rhoi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Allan o'r pedair galwad wnaethpwyd gan y galwr dirgel, ni dderbyniwyd unrhyw wasanaeth Cymraeg ac ni roddwyd chwaith wybod pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â Safon 17. |

Safon 127: Rhaid i gorff sicrhau eu bod yn asesu sgiliau Cymraeg eu cyflogeion. Dywedodd y Cyngor ei fod yn asesu ac yn cofnodi sgiliau iaith Gymraeg ei weithwyr ar y system adnoddau dynol (Ifor). Yn 2022/2023, nododd bod 10.7% o’r gweithlu, sef 221 aelod o staff yn meddu ar rywfaint o wybodaeth o’r Gymraeg (1-5). Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno sy'n dangos 'sut' mae asesiad yn cael ei gynnal. Does dim wedi ei gyflwyno yn dangos sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r wybodaeth yna i benderfynu pa sgiliau iaith sydd eu hangen arnynt. Does dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn dangos sut a phryd mae'r Cyngor yn edrych ac yn ystyried y data a dim tystiolaeth yn dangos ôl-gynllunio i gynnal a chynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Safon 136 ac 136A: Mae safon 136 yn ei gwneud yn ofynnol ar gorff pan yn asesu’r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, i asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a’i chategoreiddio fel swydd sy’n gymwys i unrhyw un neu ragor o’r categorïau canlynol:
(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd
(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
(d) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.
Os bydd corff wedi categoreiddio swydd fel un sy’n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, mae safon 136A yn dweud bod yn rhaid i’r corff bennu hynny wrth hysbysebu’r swydd, a hysbysebu’r swydd yn Gymraeg. Nid oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno bod y Cyngor wedi asesu’r angen am sgiliau yn y

Gymraeg ar gyfer y dair swydd a hysbysebwyd yn y 3 blynedd diwethaf, a'ucategoreiddio fel swyddi sy'n gymwys i unrhyw un neu ragor o'r categorïau a nodir yn a-ch uchod. Nid oes tystiolaeth wedi ei dderbyn ychwaith fod y swyddi wedi eu hysbysebu yn y Gymraeg. Mae hyn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â Safonau 136 a 136A.

Safon 157: Mae'r safon yn ymwneud â sefydlu trefn o adrodd ar gydymffurfiaeth. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sicrhau bod ganddo ddogfennau penodol sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r safonau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Mae'r safon hon hefyd yn golygu darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd, pan fo'r Comisiynydd yn gofyn amdani. Yn absenoldeb tystiolaeth ddigonol, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod ymdrech wedi ei wneud i oruchwylio i) modd y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, ii) trefniadau sydd ganddo i hybu a hwyluso'r gwasanaethau hyny, iii) i gyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cyngor a iv) sicrhau bod copi ar gael ymhob swyddfa sy'n agored i'r cyhoedd. Rwy'n ystyried hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion y safon.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 11, 17, 127, 136, 136A ac 157.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 11, 17, 127, 136, 136A ac 157.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 11: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor roi canllawiau mewn lle i holl staff ar sut i ddelio gyda galwadau ffôn yn unol â Safon 11.
2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddynt adnoddau i ddelio gyda pob galwad dderbynnir yn unol â Safon 11. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod digon o siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan alwadau i ddelio gyda galwadau ffôn gan bersonau sy'n dymuno cynnal yr alwad yn Gymraeg, yn unol â safon 11.
3. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant i holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn ar sut i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â Safon 11.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3

Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 17: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Pan na fo gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael, rhaid i'r Cyngor fabwysiadu gweithdrefn sydd yn rhoi gwybod i bobol sy'n galw pryd bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn unol â Safon 17.

6. Rhaid i'r Cyngor ddarparu canllaw i'r holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn perthnasol ar y weithdrefn newydd.
7. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant i staff ar y weithdrefn newydd.
8. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5-7.
Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 127: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
9. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddynt weithdrefn er mwyn asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion.
10.Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y sgiliau hynny yn cael eu hasesu yn flynyddol.
11.Rhaid i'r Cyngor gofnodi canlyniadau yr asesiadau blynyddol hynny.
12.Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 9-11.
Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

Safon 136 a 136A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur yGymraeg
13.Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant i staff sydd yn asesu anghenion sgiliau iaith ar gyfer swydd newydd neu swydd wag ar sut i wneud asesiadau sydd yn cydymffurfio gyda gofynion Safon 136.

14.Rhaid i'r Cyngor baratoi canllaw i staff ar sut mae cynnal asesiad o anghenion sgiliau iaith swydd.
15.Wrth wneud asesiadau o dan Safon 136, rhaid i'r Cyngor, ar bob achlysur, ystyried capasiti o fewn maes gwaith y swydd i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â'r Safonau ac ystyried a dylai'r swydd gael eu hysbysebu fel swydd ble mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
16.Rhaid i'r Cyngor newid ei weithdrefnau fel pan bydd y Cyngor yn categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid i'r corff bennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg yn unol â Safon136A.
17.Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 13 - 16
Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 157: Gofyniad i gymryd camau
18.Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fabwysiadu trefniadau ar gyfer:
(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwigwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,
(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a
(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,
(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan,
ac

| | | |
|---|---|---|
| | | (c) sicrhau bod copi o’r ddogfen honno ar gael ym mhob un o’ch<br>swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd.<br><br>Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 18.<br>Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 29/01/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1167** Derbyniais gwynion gan aelod o’r cyhoedd yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2023. Roedd y cwynion yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n ddilys.<br><br>Cysylltodd yr achwynydd gyda’r Comisiynydd ar ôl gweld yr arwyddion canlynol ar drenau Trafnidiaeth Cymru.<br><br>Trên o Gaergybi i Firmingham ar 29/06/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 61: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 61 roedd rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob arwydd sy’n cael eu gosod ganddynt, gan gynnwys arwyddion dros dro ac arwyddion electronig, yn cael eu gosod yn Gymraeg. Cyflwynodd yr achwynydd gwynion am arwyddion ar ddwy siwrne gwahanol. Roedd tair elfen i’r gŵyn. Yn gyntaf, fe welodd yr achwynydd arwyddion papur dros dro gyda’r geiriau “Coach A”, “Coach B” ayyb ar drên rhwng Caergybi a Birmingham ar 29/06/2023. Yn ail, fe welodd yr achwynydd arwyddion Saesneg yn unig ar drên rhwng Amwythig a Rhiwabon ar 11/07/2023. Roedd yr arwyddion yma yn cynnwys arwyddion y toiled a’r man cadw ramp cadair olwyn. Yn drydydd, ar yr un trên, roedd arwyddion digidol diogelwch yn Saesneg yn unig. Wrth ymchwilio i’r |

1) Arwyddion dros dro Saesneg yn unig “Coach A”, “Coach B” ayyb.

Trên o Amwythig i Rhiwabon ar 11/07/2023

2) Arwyddion Saesneg yn unig gan gynnwys arwyddion y toiled a’r man cadw ramp cadair olwyn.
3) Arwydd digidol diogelwch Saesneg yn unig ynglŷn â pheidio a gadael bagiau ayyb.

elfennau gwahanol yma o’r gŵyn, fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod yr arwyddion “Coach A” ayyb wedi bod mewn defnydd ers blynyddoedd. Fodd bynnag, dyddiad gosod arwydd sydd o dan sylw safon 61, felly bob tro y byddai arwydd yn cael ei osod ar gerbyd gwahanol byddai hynny yn golygu bod yr arwydd wedi ei osod o’r newydd. Rwyf felly o’r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio gyda safon 61 mewn perthynas â’r arwyddion hyn. Roedd yr arwyddion toiled a’r man cadw ramp cadair olwyn yn arwyddion hanesyddol osodwyd cyn i Weinidogion Cymru ddod yn gyfrifol am wasanaethau Trafnidiaeth Cymru. Gan bod yr arwyddion yma wedi eu gosod cyn i Weinidogion Cymru ddod yn gyfrifol am y gwasanaeth, rwy’n dyfarnu nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61 mewn perthynas â’r elfennau yma o gŵyn yr achwynydd. Nid arwydd hanesyddol oedd yr arwydd digidol Saesneg yn unig welodd yr achwynydd ar y trên rhwng Amwythig a Rhiwabon ar 11/07/2023. Roedd Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i gydymffurfio gyda safon 61 wrth osod yr arwydd digidol yma. Oherwydd hynny, rwy’n dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

**Datganiad gweithredu pellach**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 61.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i Weinidogion Cymru dynnu'r arwyddion Saesneg yn unig sy'n dynodi enwau'r cerbydau a gosod arwyddion sy'n cydymffurfio gyda safon 61.<br>2. Rhaid i Weinidogion Cymru wirio eu canllawiau, a'u haddasu os oes angen, i sicrhau bod y canllawiau yn cynnwys yr angen i osod arwyddion dros dro mewn modd sy'n cydymffurfio gyda safon 61.<br>3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br>Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 22/01/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1152** Ar 15/05/2023, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni bod | 22/01/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 52: Mae safon 52 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau fod pob tudalen ar eu gwefannau ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. |

| | |
|---|---|
| gwallau ar wefan Gymraeg https://traffig.cymru/ a bod arwyddion ar draffordd yr M4 yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Honnir bod enw Saesneg yn cael ei arddangos ar arwydd Cymraeg a bod yr arwydd Saesneg yn ymddangos gyntaf. | Cysylltodd achwynydd â mi yn honni bod nifer o wallau ar wefan Gymraeg Traffig Cymru, gyda rhai geiriau Saesneg wedi eu rhoi yn lle'r geiriau Cymraeg cyfatebol. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru fod gwallau testun wedi bodoli ar y wefan a hefyd fod rhai o'r rhybuddion traffig ar y wefan wedi ymddangos yn Saesneg yn unig. Fe gafodd rhai o'r gwallau ar y wefan eu cywiro, ac fe dynnwyd ymaith y rhybuddion traffig Saesneg. Fodd bynnag, fe ddangosodd ymchwil gan fy swyddogion fod amryw o wallau testun yn parhau ar y wefan, gyda geiriau Saesneg yn gymysg â geiriau Cymraeg wrth ddarparu gwybodaeth draffig. Gan nad oedd gwefan Gymraeg Traffig Cymru ar gael yn llawn yn Gymraeg, rwyf yn dyfarnu i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â safon 52 yn yr achos hwn.<br><br>Safon 61: Mae safon 61 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau fod unrhyw arwyddion newydd, gan gynnwys arwyddion dros dro, yn cael eu harddangos yn Gymraeg. Nid yw testun Cymraeg yr arwyddion hyn i'w drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Dywedodd yr achwynydd iddo weld arwyddion ffordd newidiol (VMS) uniaith Saesneg ar yr M4, a hefyd iddo weld arwydd ffordd VMS Cymraeg gydag enw lle Saesneg arno yn hytrach na'r enw Cymraeg cyfatebol. Yn yr achos hwn, ni dderbyniwyd tystiolaeth o arwyddion ffordd uniaith Saesneg ond fe gafwyd tystiolaeth fod yr enw lle Saesneg 'Taff's Well' yn hytrach na 'Ffynnon Taf' wedi ymddangos ar arwydd ffordd Cymraeg. Mae safon 61 yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion ffyrdd gael ei arddangos yn llawn yn Gymraeg. Rwyf yn dyfarnu i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â safon 61 yn yr achos hwn. |

Safon 62: Mae safon 62 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau y bydd i unrhyw arwyddion newydd a gaiff eu gosod, sydd yn cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, gael eu gosod fel mai'r testun Cymraeg sydd debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Mae'r safon yn berthnasol hefyd i arwyddion dros dro. Dywedodd yr achwynydd iddo weld arwyddion ffordd newidiol (VMS) ar yr M4, lle'r oedd yr arwydd Saesneg wedi ei osod ymhell o flaen arwydd Cymraeg yn cyfleu'r un wybodaeth. Mae Gweinidogion Cymru wedi cydnabod fod arwydd Saesneg wedi ei osod o flaen yr arwydd Cymraeg cyfatebol ar y dyddiad a nododd yr achwynydd. Gan fod arwydd ffordd Saesneg wedi ei osod o flaen arwydd Cymraeg cyfatebol, rwyf yn dyfarnu i Weinidogion Cymru fethu â chydymffurfio â safon 62 yn yr achos hwn.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 52, 61 a 62.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 52, 61 a 62.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o wefan Traffig Cymru er mwyn sicrhau fod yr holl wybodaeth

ar y wefan ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys y negeseuon cwcis sydd yn ymddangos wrth i ddefnyddwyr gyrchu'r wefan am y tro cyntaf.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau fod proses mewn lle i fonitro gwefan Traffig Cymru yn gyson ac yn drwyadl, er mwyn sicrhau na fydd gwallau yn codi pan ychwanegir gwybodaeth newydd i'r wefan, neu pan fo tudalennau'r wefan yn cael eu diwygio. Rhaid i'r broses wirio hon gynnwys y wybodaeth a osodir ar fap rhyngweithiol y wefan.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 52: Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
4. Rwy'n cynghori i Weinidogion Cymru weithio gyda'i gyflenwyr i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio neu ddatblygu map rhyngweithiol Cymraeg i'w ddefnyddio ar y wefan yn y dyfodol, fel na raid i ddefnyddwyr y wefan ddibynnu ar fap Saesneg.

Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
5. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau fod testun unrhyw arwyddion ffordd newidiol (VMS) a osodir yn cael eu harddangos yn llawn yn Gymraeg.
6. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau fod yr holl staff sydd yn gyfrifol am osod arwyddion ffordd newidiol (VMS) gyda mynediad hwylus i fas data dibynadwy o enwau lleoedd Cymraeg.

7. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5 a 6.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 62: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
8. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i atgoffa staff sy'n gyfrifol am osod arwyddion ffyrdd newidiol (VMS) o'r angen i sicrhau bod yr arwydd neu'r testun Cymraeg yn cael ei osod mewn man fel mai hwnnw sydd yn cael ei ddarllen yn gyntaf.
9. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu ei ganllawiau i staff sy'n gyfrifol am osod arwyddion ffyrdd newidiol (VMS) er mwyn sicrhau y bydd i'r arwyddion hyn gael eu gosod fel mai'r testun Gymraeg sydd debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
10.Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 8 a 9.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 22/01/2024.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | **CS1145** Ar 25/04/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.<br><br>Mae dwy elfen i gŵyn yr achwynydd. Yn gyntaf, fe honnodd yr achwynydd bod dolen ar gyfrif trydar Saesneg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen oedd yn cyfeirio at gyfrif trydar Cymraeg y Cyngor ddim yn gweithio ac nad oedd y cyfrif Cymraeg hwnnw yn bodoli.<br><br>Yn ail, honnodd yr achwynydd bod arwyddion uniaith Saesneg "New traffic signals ahead", yn ogystal â arwydd "Part time signals 60 yds" ar Mount Pleasant Rd, Pontnewydd Cwmbrân. Cyflwynodd yr achwynydd hefyd honiad fod arwydd uniaith Saesneg "New traffic singals ahead" ac arwydd "Part time signals 60 yds" wedi'i osod wrth edrych fyny Commercial St, Pontnewydd, Cwmbrân. | 18/01/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 58: 7 Er mwyn cydymffurfio gyda Safon 58, roedd angen i'r Cyngor beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Yn gyntaf, nid oedd hi'n bosib mynd i gyfrif Cymraeg y Cyngor trwy'r ddolen oedd wedi ei osod ar eu cyfrif Saesneg. Nid oedd tystiolaeth i ddangos fod yr un peth yn wir tra'n ceisio cyrraedd y cyfrif Saesneg trwy dolen ar y cyfrif Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau yn eu tystiolaeth fod y ddolen i'r cyfrif Cymraeg wedi torri, ac felly wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 58. Yn ail, fe gytunodd y Cyngor fod anghysondebau rhwng cynnwys eu cyfrif Cymraeg a'u cyfrif Saesneg. Nid wyf o'r farn fod prosesau digonol wrth waith i sicrhau y fath gysondeb i osgoi anffafriaeth i ddefnyddwyr y cyfrif Cymraeg. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 58.<br><br>Safon 61: Mae Safon 61 yn creu gofyniad i'r Cyngor beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan yn gosod arwydd newydd, boed hynny yn arwydd dros dro neu beidio. Fe gyflwynodd yr achwynydd dystiolaeth a oedd yn dangos bod arwyddion uniaith Saesneg dros dro "New traffic signals ahead" ac hefyd arwyddion "Part time signals 60 yds" wedi eu codi ym Mhontnewydd, Cwmbran. Cydnabyddid gan y Cyngor fod methiant i gydymffurfio â'r safonau wedi digwydd fan yma, ac fod yr arwyddion wedi cael eu gadael yn y man am gyfnod estynedig, gan gyfeirio at straeniau adnoddau o achos Pandemig Covid-19 fel cyfrannolyn at y sefyllfa. Nid wyf o'r farn fod gweithdrefnau digonol wrth waith i sicrhau cydymffurfiaeth arwyddion ffordd dros dro gyda gofynion safonau'r Gymraeg. Mae'r |

dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr achos hon wedi dangos fod y Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth osod arwydd dros dro uniaith Saesneg. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â Safon 61.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 58 a 61.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 58 a 61.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 58: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor fonitro sampl o 20 o drydariadau ar ei gyfrif Saesneg, a'u cymharu i'w gyfrif Cymraeg i sicrhau cyfatebiaeth lawn rhwng y ddau gyfrif.
2. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw staff sydd yn gyfrifol am lunio trydariadau at ei ganllaw mewnol 'Staff User Guide', a'u hatgoffa bod angen ei ddilyn er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau.
3. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn wirio fel bod cyfrifon trydar Saesneg a Chymraeg y Cyngor yn cael eu gwirio yn fisol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn gyda Safon 58.
4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>5. Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol sy'n gyfrifol am godi a monitro arwyddion ffordd yn derbyn canllawiau ar sut i gydymffurfio gyda gofynion safonau'r Gymraeg.<br>6. Rhaid i'r Cyngor fonitro sampl o bump arwydd ffordd newydd sydd yn cael ei godi o fewn cyfnod o 3 mis i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion safon 61. Gall hyn gynnwys arwyddion dros dro neu arwyddion parhaol.<br>7. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5-6.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 18/01/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Caerdydd | **CS1127** Ar 15/03/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni nad oedd dogfen | 16/01/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 91: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib y cynnig (boed yn bositif neu'n andwyol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

| | |
|---|---|
| ymgynghori ar Gyllideb 2023-24 y Cyngor yn ystyried na cheisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg. Teitl y ddogfen yw Newidiadau i Gaerdydd: Ymgynghoriad ar Gynigion Cyllideb 2023/24 Cyngor Caerdydd. | Does dim ystyriaeth i effeithiau posib y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Does dim cwestiynau yn cael eu gofyn sy'n ceisio barn y cyhoedd ar effeithiau posib y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 91.<br><br>Safon 92: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Does dim ystyriaeth na chwestiynau yn y ddogfen ymgynghori sy'n ceisio barn y cyhoedd ar sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 92.<br><br>Safon 93: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Does dim ystyriaeth na chwestiynau yn y ddogfen ymgynghori sy'n ceisio barn y cyhoedd ar sut ellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 93.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd** |

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 91, 92 a 93.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 91, 92 a 93.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'i broses o lunio dogfennau ymgynghori ar benderfyniadau polisi (sy'n cynnwys dogfen ymgynghori ar y Gyllideb), er mwyn sicrhau bod camau mewn lle sy'n sicrhau bod y ddogfen yn ystyried a cheisio barn y cyhoedd ar effeithiau posib y penderfyniad polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw (neu ychwanegu at ganllaw sydd ganddo eisoes) sy'n egluro bod rhaid ystyried a cheisio barn ar y canlynol mewn dogfen ymgynghori ar benderfyniad polisi:
- Yr effeithiau, boed yn bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu fel y byddai'n cael

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff sy'n gyfrifol am lunio dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau Cyllidebol (sy'n benderfyniadau polisi). Rhaid codi ymwybyddiaeth y staff yma o'r canllaw uchod, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion safonau 91, 91 a 93.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 16/01/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1168** Ar 2 Gorffennaf 2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gwefan Cyngor Wrecsam. Dewisodd yr achwynydd yr opsiwn Gymraeg i dalu ei dreth Cyngor. Wedi iddo fewnbynnu ei gôd post, mae rhestr o gyfeiriadau yn ymddangos er mwyn dewis yr un cywir. Honnai'r achwynydd bod y rhestr cyfeiriadau yn defnyddio'r | 11/01/2024 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 50: Rhaid i gorff sicrhau bod pob ffurflen y mae'n ei llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys unrhyw ffurflenni ysgrifenedig, boed yn electronig neu ar ffurf papur. Wedi i'r achwynydd fewnbynnu ei gôd post mewn ffurflen ar wefan y Cyngor, ymddengys rhestr o gyfeiriadau er mwyn dewis yr un cywir. Roedd y rhestr cyfeiriadau yn defnyddio'r ffurfiau Saesneg. Mae hyn gyfystyr a methiant i gydymffurfio â gofynion y safon.<br><br>Safon 50B: Os yw corff yn llunio fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn |

ffurfiau Saesneg "Afoneitha Road" a "Wrexham", “a'r ffurf ansafonol ac anghywir” "Penycae" (ymddengys mai Pen-y-Cae yw’r ffurf gywir). Honnai bod y ffurfiau Cymraeg a chywir gan y Post Brenhinol ac ar y ffeiliau data y maent yn eu darparu i bartïon eraill, megis Cyngor Wrecsam ac unrhyw drydydd parti sy’n dewis gweithredu'r system casglu taliadau. Teimlai’r achwynydd ei fod yn cael ei orfodi i ddefnyddio’r Saesneg, a bod hynny yn groes i’w hawliau.

cael ei thrin yn llai ffafriol na’r fersiwn Saesneg. Roedd y rhestr cyfeiriadau ar wefan y cyngor yn defnyddio’r ffurfiau Saesneg, ac felly’n trin y Gymraeg y llai ffafriol. Mae hyn gyfystyr a methiant i gydymffurfio â gofynion y safon.

Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i’r Cyngor sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu’n llawn, ac nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg ar y wefan. Roedd y rhestr cyfeiriadau i dalu treth Cyngor ar wefan y Cyngor yn defnyddio'r ffurfiau Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 52 gan nad oedd testun pob tudalen ar ei wefan yn ymddangos yn Gymraeg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 50, 50B a 52.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 50, 50B a 52.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 50 a 50B: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wneud trefniadau, i sicrhau bod ffurfiau Cymraeg o gyfeiriadau yn ymddangos yn ei gyfleuster taliadau ar lein ar ei wefan,

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fel na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.<br>2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 11/01/2024.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS090** Ar 12/10/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni nad yw’n bosib gwneud cais am bàs COVID-19 arlein trwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod modd gwneud cais am bàs COVID papur yn Gymraeg mae’r broses honno yn cymryd mwy o amser i’w brosesu. Nododd yr achwynydd ei fod o’r farn fod polisi Llywodraeth Cymru yn golygu ei fod yn cael ei drin yn israddol gan y byddai’n ofynnol arno i ddefnyddio’r gwasanaeth Saesneg er mwyn cael pàs COVID- | 19/12/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 4: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 4 roedd angen i ohebiaeth sy’n cael ei anfon at nifer o bersonau gael ei anfon yn Gymraeg felly roedd angen i’r ohebiaeth anfonwyd yn dilyn cais am bàs Covid gael ei anfon yn Gymraeg. Pan wnaeth fy swyddog waith ymchwil pen desg fe dderbyniodd ddau ohebiaeth drwy e-bost oedd yn Saesneg yn unig. Roedd un darn o ohebiaeth yn nodi bod problem gyda’r lluniau anfonwyd er mwyn gwirio hunaniaeth a gohebiaeth bellach yn diolch am y lluniau anfonwyd. Ar y sail bod gwaith ymchwil pen desg fy swyddog wedi dangos bod yr ohebiaeth dderbyniwyd wrth wneud cais am bàs Covid ym mis Hydref 2021 yn Saesneg yn unig, rwyf o’r farn na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 4 yn yr achos yma. |

19 mewn amser i fynychu gêm bel-droed. O ganlyniad, nid oedd yn bosib i'r achwynydd fynychu'r digwyddiad, a arweiniodd at siom a cholled ariannol. Wrth gyflwyno sylwadau ar y cylch gorchwyl arfaethedig, ychwanegodd yr achwynydd gŵyn pellach am y broses ymgeisio. Dywed iddo geisio defnyddio'r gwasanaeth ffôn ar y rhif 0300 303 5667 am 9:45yb ar 23 Hydref 2021 er mwyn gwneud cais am bàs COVID papur. Er bod gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi bod y gwasanaeth ffôn ar gael 9yb tan 5yh, 7 diwrnod yr wythnos, honnai'r achwynydd iddo bwyso botwm 1 am wasanaeth Cymraeg ond nad oedd y gwasanaeth ar gael. Dywed bod neges ar y peiriant yn nodi bod y swyddfa ar gau gan nodi bod y gwasanaeth ar gael o Ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae canfyddiadau ymchwil pen desg swyddogion y Comisiynydd wedi codi amheuon bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar fersiwn bapur y pàs teithio COVID-19.

Safon 10: 3 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 10, roedd angen i Weinidogion Cymru ddelio gyda galwad yr achwynydd yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd. Pan alwodd yr achwynydd y linell ffon i wneud cais am bàs Covid am 9.45yb ar fore Sadwrn, 23 Hydref 2021. Pan ddewisodd yr achwynydd opsiwn 1 ar gyfer y Gymraeg fe glywodd neges peiriant yn esbonio bod y swyddfa ar gau a bod y gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener. Wrth ymateb i'r honiad yma fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod y gwasanaeth ffôn ar gyfer cael pàs Covid ar gael 7 diwrnod yr wythnos yn Gymraeg ac nad oedd y sefydliad yn ymwybodol o unrhyw broblemau ar yr amser y cyflwynodd yr achwynydd ei gŵyn. Fodd bynnag, ni ddarparodd unrhyw wybodaeth pellach am y ddarpariaeth Gymraeg ar amser yr alwad. Gan nad oes gen i wybodaeth ddigonol na recordiad o'r alwad nid oes modd i mi wybod i sicrwydd beth ddigwyddodd pan gysylltodd yr achwynydd gyda'r linell ffôn. Ar sail tebygolrwydd, rwy'n dyfarnu na wnaeth Gweinidogion Cymru lwyddo i gydymffurfio gyda safon 10 pan gysylltodd yr achwynydd gyda'r linell ffôn pàs Covid ar 23 Hydref 2021.

Safon 40: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 40, roedd angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Pan geisiodd yr achwynydd gael pàs Covid electronig yn Gymraeg ym mis Hydref 2021, nid oedd y ddogfen ar gael yn Gymraeg. Gan nad oedd y pàs Covid electronig ar gael yn Gymraeg i'r achwynydd pan yr oedd ei angen ar gyfer defnydd domestig rwyf o'r farn na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 40 yn yr achos yma.

Safon 48: Os yw Gweinidogion Cymru yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg o'r ddogfen honno. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru nad oedd y pàs Covid ar gael yn Gymraeg yn yr un fformat â'r pàs Covid yn Saesneg ar yr amser y cyflwynodd yr achwynydd ei gŵyn. Yn ogystal, fe ddangosodd ymchwil pen desg fy swyddogion bod y fersiwn Gymraeg o'r pàs Covid papur yn cynnwys adrannau uniaith Saesneg. Roedd dyddiad geni yr unigolyn a'r manylion am y brechlyn gan gynnwys dyddiad rhoi'r brechlyn yn Saesneg yn unig ar y ddogfen. Gan nad oedd y fersiwn Cymraeg o'r pàs Covid ar gael fel fersiwn electronig a chan nad oedd y fersiwn papur yn cynnwys yr holl wybodaeth oedd yn Saesneg ar y ddogfen rwy'n dyfarnu na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio â safon 48 wrth lunio'r pàs Covid papur.

Safon 52: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 52 rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Yn yr achos yma pan geisiodd yr achwynydd wneud cais am bàs Covid nid oedd y tudalennau gwe ar wefan GIG y DU ar gyfer dilysu hunaniaeth er mwyn cael pàs Covid ar gael yn Gymraeg. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y wefan ond rwy'n fodlon, wrth ddarparu'r gwasanaeth dilysu hunaniaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, bod Llywodraeth y DU yn gwneud hynny ar ran Gweinidogion Cymru. Gan nad oedd y tudalennau yma ar wefan GIG y DU ar gael yn Gymraeg rwy'n dyfarnu na wnaeth

Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 52 gan nad oedd y tudalennau ar-lein i wirio hunaniaeth er mwyn gwneud cais am bàs Covid ar gael yn Gymraeg.

Safon 88, 89 a 90: Er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau llunio polisi roedd angen i Weinidogion Cymru ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar y Gymraeg. Yn yr achos yma roedd gen i amheuaeth nad oedd Gweinidogion Cymru wedi cynnal asesiad o effaith y penderfyniad y byddai Llywodraeth y DU yn darparu gwasanaeth Covid ar ei ran a'r penderfyniad bod angen i'r cyhoedd ddangos pas Covid i gael mynediad i ddigwyddiadau cyhoeddus. Cyflwynodd Gweinidogion Cymru gopi o'r asesiad effaith cryno a wnaed gan esbonio na wnaed asesiad effaith llawn oherwydd eithriad i'r angen i wneud hynny oedd yn ymwneud â lleddfu bygythiad difrifol i iechyd pobl neu ymateb i amgylchiadau sy'n deillio o fygythiad o'r fath. Nid yw'r eithriad i gynnal asesiad effaith rheoleiddiol yn eithrio'r ddyletswydd i gynnal asesiad effaith ar y Gymraeg yn unol â safonau'r Gymraeg. Rwy'n derbyn bod Gweinidogion Cymru wedi bod yn gweithredu mewn cyfnod digynsail, ond erbyn Hydref 2021 rwyf o'r farn y dylid fod wedi rhoi sylw digonol i'r angen i ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg ac ar yr angen i gydymffurfio gyda safonau 88, 89 a 90 wrth wneud penderfyniad y byddai trydydd parti yn darparu gwasanaethau Covid ar ei ran ac wrth wneud penderfyniad bod angen dangos pas Covid i gael mynediad i ddigwyddiadau cyhoeddus. Nid wyf o'r farn bod y wybodaeth gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru yn darparu tystiolaeth ddigonol bod Gweinidogion Cymru wedi ystyried effaith y penderfyniadau y byddai trydydd parti yn darparu gwasanaethau Covid ar ei ran ac y byddai'n rhaid

i’r cyhoedd ddangos pas Covid i gael mynediad i ddigwyddiadau cyhoeddus ar y Gymraeg ac ar y defnydd o’r Gymraeg. Y methiant yma i gynnal asesiad ystyrlon, ac felly y methiant i gydymffurfio gyda’r safonau llunio polisi, sydd wrth wraidd y methiannau eraill sydd eisoes wedi eu trafod yn yr adroddiad yma. Gan na chafodd y Gymraeg ei hystyried o’r cychwyn cyntaf fe arweiniodd hynny at y methiannau sydd wedi dod i’r amlwg yn yr ymchwiliad. Rwyf o’r farn bod yr ymchwiliad yma yn enghraifft pellach lle nad oedd y Gymraeg yn ganolog wrth gynllunio’r ddarpariaeth ac mae’n destun pryder i mi nad yw’n ymddangos bod gwersi wedi eu dysgu o achosion / ymchwiliadau blaenorol.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4, 10, 40, 48, 52, 88, 90 a 90.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4, 10, 40, 48, 52, 88, 90 a 90.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 4: Cam gorfodi yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ohebiaeth fydd yn cael ei anfon at y cyhoedd yng Nghymru yn dilyn iddynt wneud cais am bas COVID ar gael yn Gymraeg.

2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ohebiaeth fydd yn cael ei gynhyrchu gan yr ap GIG Cymru newydd ynglŷn â gwirio hunaniaeth unigolion gydymffurfio gyda safon 4.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 40: Cam gorfodi yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod unrhyw ddogfen a gyhoeddir yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg yn yr un fformat ac ar yr un amser â'r fersiwn gyfatebol Saesneg.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 48: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
4. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen pàs Covid ar bapur yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd wedi ei gynnwys ar y fersiwn gyfatebol Saesneg yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio gyda safon 48.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
5. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod unrhyw wasanaeth ar-lein sy'n parhau i gael eu defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru i wneud cais am bas Covid, yn cydymffurfio gyda safon 52.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safonau 88,89 a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

6. Wrth wneud penderfyniad polisi bod trydydd parti yn darparu gwasanaeth ar ei ran, rhaid i Weinidogion Cymru gofnodi unrhyw ystyriaethau a roddir i ba effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw’r rheini’n bositif neu’n andwyol) y byddai’r penderfyniad polisi yn eu cael ar: (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

7. Wrth wneud penderfyniad polisi bod trydydd parti yn darparu gwasanaeth ar ei ran, rhaid i Weinidogion Cymru gofnodi unrhyw ystyriaethau a roddir i sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi fel y byddai’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

8. Wrth wneud penderfyniad polisi bod trydydd parti yn darparu gwasanaeth ar ei ran, rhaid i Weinidogion Cymru gofnodi unrhyw ystyriaethau a roddir i sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol, ar – (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

9. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-8.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safon 57: Argymhelliad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod bob cam o'r broses gwirio hunaniaeth fydd yn cael ei ddefnyddio drwy'r ap GIG Cymru newydd yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 19/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1136** Yn ystod 2020, bu i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad i gydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru gyda'r safonau yn ymwneud â gwasanaeth derbynfa yn safleoedd Cadw. Dyfarnwyd ym mis Tachwedd 2020 bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r safon, a nodwyd mai un o'r rhesymau am y methiant oedd am nad oedd digon o geidwaid oedd yn gweithio ar safleoedd Cadw yn medru'r Gymraeg. O ganlyniad, gwnaethpwyd yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch yn sgiliau ieithyddol ei weithlu. Mae targed wedi ei osod yn | 18/12/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 136: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 136 mae'n rhaid i sefydliadau gynnal asesiad ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, i asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd sy'n gymwys i unrhyw un neu ragor o'r categorïau canlynol: (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (d) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. Yn yr achos yma, defnyddiodd CADW asesiad gofynion ieithyddol generig a wnaed ar gyfer swydd Ceidwaid Arweiniol yn ôl yn 2019. Nid wyf o'r farn bod ailddefnyddio asesiad generig i bennu gofynion ieithyddol swydd heb ystyriaeth bellach i ffactorau cyfredol all fod yn berthnasol i'r swydd benodol honno yn ateb gofynion safon 136. Casglaf na wnaeth CADW gynnal asesiad digonol oedd yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth asesu gofynion y |

y cynllun gweithredu hwnnw y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda safon 64 ym mhob un o safleoedd Cadw erbyn diwedd 2024. Er mwyn cydymffurfio gyda safon 64, mae angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg, fod ar gael yn Gymraeg hefyd. Rhaid iddynt hefyd sicrhau na chaiff person sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.
Ym mis Mawrth ac Ebrill 2023 fe hysbysebodd Gweinidogion Cymru 5 swydd wag ar gyfer Prif Geidwaid Henebion Amrywiol Cadw, lle bo'r Gymraeg wedi ei nodi fel sgil 'ddymunol'. O ystyried yr ymrwymiad yn ei gynllun gweithredu i sicrhau bod swyddogion sydd yn medru'r Gymraeg ar gael ym mhob un o'i safleoedd erbyn diwedd 2024, mae'n creu amheuaeth nad oedd asesiad llawn ac ystyrlon wedi ei gynnal o ofynion ieithyddol y swyddi hyn cyn mynd ati i'w hysbysebu.
Mae'r amgylchiadau felly'n creu amheuaeth o fethiant gan swyddi hyn. O ganlyniad, casglaf bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 136.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 136.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 136.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 136: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i gryfhau prosesau CADW i asesu gofynion ieithyddol swyddi newydd a gwag er mwyn sicrhau bod gofynion pob swydd newydd neu swydd wag yn cael ei asesu yn unigol.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am asesu anghenion sgiliau ieithyddol swyddi newydd a gwag CADW yn ystyried capasiti ieithyddol y gweithlu fesul lleoliad ar bob achlysur.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am asesu anghenion sgiliau ieithyddol swyddi newydd a gwag CADW yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad priodol i sicrhau eu bod yn deall sut i gynnal asesiadau ystyrlon sy'n cydymffurfio gyda gofynion safon 136.
4. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu ei brosesau a pholisïau recriwtio o fewn CADW i

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Bydd yr ymchwiliad yn dyfarnu a yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r safon 136 sydd yn ymwneud â dyletswyddau i asesu gofynion ieithyddol swyddi newydd a gwag. | | sicrhau bod asesiad ystyrlon yn cael ei gynnal o anghenion ieithyddol gyfer pob swydd newydd a gwag.<br>5. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru addasu unrhyw ganllaw i staff ar asesu anghenion ieithyddol swyddi newydd a gwag i sicrhau bod y gofyniad safon 136 i gynnal asesiad ar gyfer pob swydd a hysbysebir yn glir, ac i gadarnhau nad yw ailddefnyddio asesiad generig heb ystyriaeth bellach i ffactorau cyfredol yn ddigonol i gydymffurfio â gofynion y safonau.<br>6. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi .<br>Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 18/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | **CS1173** Fe wnaeth gwybodaeth a gasglais fel rhan o fy ngwaith monitro (oedd yn cynnwys arolygon gwirio o wasanaethau ffôn D) greu amheuaeth o fethiant gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (D) i gydymffurfio â safonau 9 a 10, gan gynnwys ar y rhifau ffôn canlynol:<br>o 01633 493100 (Ysbyty'r Faenor) | 14/12/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safonau 9 a 10: Os yw person yn cysylltu â D ar un o'i brif rifau ffôn, mae safon 9 yn gosod dyletswydd ar D i roi gwybod i'r person hwnnw bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i D ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny, hyd nes ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). |

o 01633 234234 (Ysbyty Brenhinol Gwent)
o 01873 732732 (Ysbyty Nevill Hall)
o 01443 802200 (Ysbyty Ystrad Fawr)
o 01495 363 636 (Ysbyty Aneurin Bevan)
o 0300 303 1373 (Canolfan Brechu Cwmbrân).

Gwelais enghreifftiau o fethiannau posib gan D i roi gwybod i'r galwr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac i ddelio â galwadau yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau. Penderfynais felly cynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg i'r amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â'r safonau hyn.

Fe gynhaliais arolygon gwirio o wasanaethau ffôn D fel rhan o fy ngwaith monitro o gydymffurfiaeth D â safonau'r Gymraeg, drwy wneud cyfanswm o naw galwad ffôn i chwe rif ffôn gwahanol. Ac eithrio mewn un achos, fe wnaeth D fethu yn ei ddyletswydd dan safon 9 i roi gwybod i fy swyddog bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn a arolygwyd. Fe wnaeth D hefyd methu ymhob galwad ffôn a arolygwyd i ddelio gyda fy swyddog yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 10.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi methu â chydymffurfio â safon 9 a 10,

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi methu â chydymffurfio â safon 9 a 10,

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 9: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D roi trefniadau ar waith i sicrhau bod pob un o'i brif rifau ffôn yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn dan sylw.
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.
Amserlen: erbyn 1 Gorffennaf 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safon 10: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i D roi trefniadau ar waith at y diben o sicrhau bod y sawl sy’n gyfrifol am ddelio â galwadau Cymraeg i’w brif rifau ffôn yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg sy’n galluogi iddynt ddelio â galwadau yn Gymraeg yn unol â safon 10.<br>2. Rhaid i D gynllunio ei wasanaethau ffôn mewn ffordd sy’n golygu bod galwadau Cymraeg pob amser yn cael eu cyfeirio at a’u hateb gan aelod staff Cymraeg.<br>3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br>Amserlen: erbyn 1 Gorffennaf 2024<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 14/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **CS1204** Ers 30/11/2019, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (D) wedi bod dan ddyletswydd i gydymffurfio gyda’r safon isod:<br><br>Safon 110<br>Rhaid ichi gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd gan nodi – | 14/12/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 110: Mae safon 110 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gyhoeddi cynllun sy’n ymdrin â chynnig cynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, gan nodi'r graddau y gall y corff gynnig cynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eu gallu i wneud hyn, ac amserlen ar gyfer y camau hyn. Yn unol â hysbysiad cydymffurfio D, roedd yn ofynnol i D fod wedi cyhoeddi (a gweithredu) cynllun 5-mlynedd ers 30 Tachwedd 2019. Ers i safon 110 cael ei |

(a) i ba raddau yr ydych yn gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
(b) y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eich gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
(c) amserlen ar gyfer y camau yr ydych wedi rhoi manylion amdanynt yn (b)

Yn unol â fy Fframwaith Rheoleiddio, rwyf yn monitro cydymffurfiaeth sefydliadau gyda Safonau'r Gymraeg, ac yn cymryd camau pellach (os oes angen) er mwyn cymell cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofynion. Yn sgil gwaith monitro blaenorol o gydymffurfiaeth byrddau iechyd lleol gyda gofynion safon 110, mae fy swyddfa wedi bod yn ymwybodol nad yw pob un o'r byrddau iechyd lleol wedi cyhoeddi cynllun yn unol â gofynion y safon. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith i mi osod y safon gyda diwrnod gosod o 12 mis (yn lle'r 6 mis arferol) er mwyn rhoi digon o amser (cyn i'r ddyletswydd ddod yn weithredol) i'r bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi ei gynllun 5-mlynedd cyntaf. Mewn gosod ar D yn 2018, mae fy swyddfa wedi cymryd sawl cam yn unol â fy fframwaith rheoleiddio i geisio sicrhau bod D yn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd hon. Fodd bynnag, pan gysylltwyd â D ym mis Medi 2023 am ddiweddariad ynglŷn â'r sefyllfa bresennol, fe gadarnhaodd bod cynllun dal heb ei gyhoeddi, ac mai'r cynharaf y byddai'r cynllun yn cael ei gyhoeddi oedd Ionawr 2024. Gan fod D wedi methu â chyhoeddi a gweithredu cynllun erbyn y dyddiad gofynnol yn yr hysbysiad cydymffurfio (30/11/2019), na chwaith yn ystod y cyfnod estynedig ers y diwrnod gosod, nid oes cofnod na chadarnhad bod unrhyw gynnydd gwirioneddol wedi bod rhwng 2019 a heddiw yng ngallu'r sefydliad i ddarparu ymgynghoriadau clinigol i gleifion yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant gan y bwrdd iechyd, gan ystyried pwysigrwydd y Gymraeg fel elfen greiddiol o ofal cleifion yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod D bellach yn gweithredu'n bendant i sicrhau bod ganddo'r adnoddau a'r camau angenrheidiol ar waith i ddatblygu cynllun yn brydlon ar gyfer yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod 5 mlynedd cyntaf, yn ogystal â sicrhau bod paratoadau trylwyr yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau y caiff cynllun ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd dilynol ei gyhoeddi yn unol â'r amserlen gosodedig.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 110.

**Datganiad gweithredu pellach**

ymateb i hyn, ac er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth y byrddau iechyd gyda safon 110, cafodd dogfen gyngor2 ar weithredu'r safonau ymgynghoriad clinigol ei llunio a'i chyhoeddi gan fy swyddfa ar 7 Mawrth 2022, ac fe'i rhannwyd gyda phob bwrdd iechyd yn uniongyrchol. Yn dilyn hynny, penderfynodd fy swyddogion ohebu gyda'r byrddau iechyd lleol i gyd yn nechrau 2023 er mwyn derbyn sicrwydd eu bod nawr wedi llunio a chyhoeddi cynllun perthnasol. At y diben hwn, mae fy swyddfa wedi bod mewn cyswllt â swyddog iaith Gymraeg D ers Ionawr 2023 yn holi am ddiweddariad ar ddyddiad cyhoeddi arfaethedig ar gyfer y cynllun. Fis Mawrth 2023, eglurodd D fod cynllun yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac ei fod yn gobeithio y byddai'n barod i'w cyflwyno i un o bwyllgorau'r bwrdd iechyd yn ail chwarter 2023-24.

Gofynnwyd am ddiweddariad gan D erbyn mis Mai 2023. Ni dderbyniwyd diweddariad, nac ymateb i geisiadau am ddiweddariadau pellach yn ystod mis Awst a dechrau mis Medi 2023.

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu â chydymffurfio â safon 110.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 110: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D gyhoeddi cynllun yn unol â safon 110 ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r cyfnod 5-mlynedd cyntaf (23/02/2024–30/11/2024).
Amserlen: erbyn 23/02/2024.

2. Rhaid i D roi cyhoeddusrwydd bod cynllun ar gyfer y cyfnod 23/02/2024–30/11/2024 wedi ei gyhoeddi, gyda'r nod o sicrhau bod y cyhoedd yn cael
gwybodaeth am:
o allu cyfredol y bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg; ac
o y camau mae'r bwrdd iechyd yn mynd i gymryd o 23/02/2024 hyd at 30/11/2024 i gynyddu'r gallu cyfredol hwnnw.
Amserlen: erbyn 23/02/2024.

3. Rhaid i D ddatblygu cynllun prosiect gyda cherrig milltir clir mewn lle er mwyn sicrhau bydd y cynllun 5-mlynedd dilynol (ar gyfer y cyfnod 30/11/2024–30/11/2029) yn cael ei lunio a'i gyhoeddi erbyn yr amser gofynnol (30/11/2024).
Amserlen: erbyn 30/05/2024.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 14/12/2023.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cysylltwyd â D eto ym mis Medi 2023 yn gofyn am ddiweddariad, gan ohebu y tro hwn gyda rheolwyr yr adran. Cafwyd ymateb gan D i'r cais hwn ar 11 Medi 2023, gan nodi ei fod yn rhagweld mai'r cynharaf y byddai'r cynllun yn debygol o gael ei gyhoeddi oedd Ionawr 2024.<br><br>Dangosodd y wybodaeth uchod fod amserlen D ar gyfer cwblhau'r gwaith o ddrafftio a chyhoeddi cynllun dan safon 110 bellach wedi ymestyn sawl gwaith. Ar sail hynny, ac yn sgil diffyg unrhyw gadarnhad pendant gan D ynglŷn â phryd caiff cynllun ei gyhoeddi, fe benderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg i'r amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â safon 110. | | **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | **CS1203** Ers 30/11/2019, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (D) wedi bod dan ddyletswydd i gydymffurfio gyda'r safon isod:<br><br>Safon 110<br>Rhaid ichi gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd gan nodi – | 14/12/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 110: Mae safon 110 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gyhoeddi cynllun sy'n ymdrin â chynnig cynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, gan nodi'r graddau y gall y corff cynnig cynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eu gallu i wneud hyn, ac amserlen ar gyfer y camau hyn. Yn unol â hysbysiad cydymffurfio D, roedd yn ofynnol i D fod wedi cyhoeddi (a gweithredu) cynllun 5-mlynedd ers 30 Tachwedd 2019. Ers i safon 110 cael ei |

(a) i ba raddau yr ydych yn gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
(b) y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eich gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
(c) amserlen ar gyfer y camau yr ydych wedi rhoi manylion amdanynt yn (b)

Yn unol â fy Fframwaith Rheoleiddio, rwyf yn monitro cydymffurfiaeth sefydliadau gyda Safonau'r Gymraeg, ac yn cymryd camau pellach (os oes angen) er mwyn cymell cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofynion. Yn sgil gwaith monitro blaenorol o gydymffurfiaeth byrddau iechyd lleol gyda gofynion safon 110, mae fy swyddfa wedi bod yn ymwybodol nad yw pob un o'r byrddau iechyd lleol wedi cyhoeddi cynllun yn unol â gofynion y safon. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith i mi osod y safon gyda diwrnod gosod o 12 mis (yn lle'r 6 mis arferol) er mwyn caniatáu digon o amser (cyn i'r ddyletswydd ddod yn weithredol) i'r bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi ei gosod ar D yn 2018, mae fy swyddfa wedi cymryd sawl cam yn unol â fy fframwaith rheoleiddio i geisio sicrhau bod D yn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd hon. Fodd bynnag, mewn cyfarfod gyda fy swyddog cydymffurfio ar 11 Medi 2023, fe gadarnhaodd D bod cynllun dal ddim yn barod. Nododd D yn ystod y cyfarfod hwnnw fod amserlen y gwaith drafftio wedi llithro unwaith eto, ac y byddai'n debygol y byddai'r gwaith drafftio nawr yn treiddio mewn i 2024. Ni rhoddwyd sicrwydd yn y cyfarfod hwnnw pryd byddai D mewn sefyllfa i gyhoeddi cynllun. Gan fod D wedi methu â chyhoeddi a gweithredu cynllun erbyn y dyddiad gofynnol (30/11/2019), na chwaith yn ystod y cyfnod estynedig ers y diwrnod gosod, nid oes cofnod na chadarnhad bod unrhyw gynnydd gwirioneddol wedi bod rhwng 2019 a heddiw yng ngallu'r bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriadau clinigol i gleifion yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant gan y bwrdd iechyd, gan ystyried pwysigrwydd y Gymraeg fel elfen greiddiol o ofal cleifion yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod D bellach yn gweithredu'n bendant i sicrhau bod ganddo'r adnoddau a'r camau angenrheidiol ar waith i ddatblygu cynllun yn brydlon ar gyfer yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod 5 mlynedd cyntaf, yn ogystal â sicrhau bod paratoadau trylwyr yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau y caiff cynllun ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd dilynol ei gyhoeddi yn unol â'r amserlen gosodedig.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 110.

**Datganiad gweithredu pellach**

gynllun 5-mlynedd cyntaf. Mewn ymateb i hyn, ac er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth y byrddau iechyd gyda safon 110, cafodd dogfen gyngor2 ar weithredu'r safonau ymgynghoriad clinigol ei llunio a'i chyhoeddi gan fy swyddfa ar 7 Mawrth 2022, ac fe'i rhannwyd gyda phob bwrdd iechyd yn uniongyrchol. Yn dilyn hynny, penderfynodd fy swyddogion ohebu gyda'r byrddau iechyd lleol i gyd yn nechrau 2023 er mwyn derbyn sicrwydd eu bod nawr wedi llunio a chyhoeddi cynllun perthnasol. At y diben hwn, anfonwyd e-bost at D ar 12 Ionawr 2023 yn gofyn am gopi o'i gynllun, er mwyn cael tystiolaeth bod D bellach yn cyflawni'r ddyletswydd. Ni dderbyniais ymateb gan D ac atgoffwyd D eto ar 23 Ionawr 2023 i anfon copi o'r cynllun. Ymatebodd D ar 25 Ionawr 2023 yn cadarnhau nad oedd cynllun wedi'i gyhoeddi. Fodd bynnag, awgrymodd D y byddai cynllun wedi ei ddrafftio erbyn Mawrth 2023, a'i fod yn anelu at gyhoeddi cynllun erbyn Awst 2023.

Hyd at fis Mehefin 2023, ceisiodd fy swyddogion gael cadarnhad gan D

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 110.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 110: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D gyhoeddi cynllun yn unol â safon 110 ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r cyfnod 5-mlynedd cyntaf (30/01/2024–30/11/2024).
Amserlen: erbyn 30/01/2024

2. Rhaid i D roi cyhoeddusrwydd bod cynllun ar gyfer y cyfnod 30/01/2024–30/11/2024 wedi ei gyhoeddi, gyda'r nod o sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth am:
o allu cyfredol y bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg; ac
o y camau mae'r bwrdd iechyd yn mynd i gymryd o 30/01/2024 hyd at 30/11/2024 i gynyddu'r gallu cyfredol hwnnw.
Amserlen: erbyn 30/01/2024

3. Rhaid i D ddatblygu cynllun prosiect, gyda cherrig milltir clir mewn lle, er mwyn sicrhau bydd y cynllun 5-mlynedd dilynol (ar gyfer y cyfnod 30/11/2024–30/11/2029) yn cael ei lunio a'i gyhoeddi erbyn yr amser gofynnol (30/11/2024).
Amserlen: erbyn 30/05/2024

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 14/12/2023.

bod cynllun wedi cael ei ddrafftio erbyn Mawrth 2023 fel y cynlluniwyd, fel y byddai sicrwydd gen i y byddai'r bwrdd iechyd yn gallu cyrraedd ei darged o gyhoeddi cynllun erbyn mis Awst 2023. Ar 5 Mehefin 2023, nododd D mewn cyfarfod bod anawsterau wedi codi wrth geisio symud y gwaith o ddrafftio cynllun ymlaen, ac ei fod nawr yn anelu at gael cynllun drafft yn barod erbyn Hydref 2023. Mewn cyfarfod gyda fy swyddog cydymffurfio ar 11 Medi 2023, nododd D na fyddai'n debygol y byddai cynllun wedi ei gyhoeddi erbyn Hydref 2023.

Dangosodd y wybodaeth uchod fod amserlen D ar gyfer cwblhau'r gwaith o ddrafftio a chyhoeddi cynllun dan safon 110 bellach wedi ymestyn sawl gwaith. Ar sail hynny, ac yn sgil diffyg unrhyw gadarnhad pendant gan D ynglŷn â phryd caiff cynllun ei gyhoeddi, fe benderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg i'r amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â safon 110.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | **CS1108 a CS1134** Ar 24/01/2023, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (CS1108). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni i'r aelod o'r cyhoedd (P) dderbyn cyfres o negeseuon e-bost Saesneg yn unig gan dîm derbyn Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (D), yn dilyn iddo wneud cais i astudio dau gwrs gyda'r brifysgol (cwrs Celf a Dylunio Sylfaen a chwrs Cyfieithu ar y Pryd). Derbyniodd P y neges gyntaf o gyfeiriad admissions@uwtsd.ac.uk ar 15/12/2022 am 16:35. Honnir hefyd y bu P dderbyn negeseuon Saesneg yn unig o gyfeiriad RegistryAdmissions@uwtsd.ac.uk. Cyflwynodd P ei gais i D yn Saesneg drwy gyfrwng ei ffurflen ymgeisio ar-lein. Ar 5/04/2023, cyflwynodd P gŵyn arall (CS1134) am D yn gysylltiedig â'r gŵyn wreiddiol. Roedd y gŵyn yn honni nad yw'r wybodaeth am y cwrs celf a dylunio ar wefan y Brifysgol ar gael yn Gymraeg. | 14/12/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 5: Os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fydd yn gohebu â'r person hwnnw. Rhaid i gorff felly anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at berson ar bob achlysur, hyd nes ei fod yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg. Yn yr achos yma, fe wnaeth P dderbyn gohebiaeth Saesneg yn unig o gyfeiriadau e-bost admissions@uwtsd.ac.uk a RegistryAdmissions@uwtsd.ac.uk, yn dilyn iddo gyflwyno cais i astudio cwrs Tystysgrif Ôl-raddedig Cyfieithu ar y Pryd a chwrs Tystysgrif Addysg Uwch Celf. Fe gymerodd D y ffaith i P gyflwyno ei geisiadau yn y Saesneg fel cadarnhad ei fod yn gwybod nad oedd P yn dymuno derbyn gohebiaeth ddilynol gan D yn Gymraeg. O ganlyniad, fe wnaeth D anfon gohebiaeth Saesneg yn unig at P. Nid oedd yr iaith a gwblhaodd P ei geisiadau o reidrwydd yn gynrychioladol o ba iaith yr oedd P yn dymuno i D ohebu ag ef, na chwaith yn gadarnhad nad oedd P yn dymuno derbyn gohebiaeth gan D yn Gymraeg. Felly, fe wnaeth D fethu â chydymffurfio â gofynion safon 5. Gwnaed hynny drwy beidio ag anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at P, pan nad oedd D yn gwybod gyda sicrwydd nad oedd P yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg.<br><br>Safon 7: I gydymffurfio â safon 7, rhaid i gorff ddatgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddai'n ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Yn yr achos hwn, fe wnaeth D anfon gohebiaeth at P nad oedd yn |

cynnwys datganiad ar gyfer cydymffurfio â gofynion safon 7.

Safonau 53, 53A a 53B: Mae safon 53 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw ffurflen y mae'n ei rhoi ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr yn cael ei llunio yn Gymraeg. Mae'r ffurflen ar-lein y mae aelodau o'r cyhoedd yn ei defnyddio er mwyn cyflwyno cais i astudio gyda'r brifysgol yn rhannol yn Saesneg. Mae tudalennau rhagarweiniol y ffurflen ymgeisio ar-lein ynghyd â'r opsiynau o dan bob un o gwymplenni'r ffurflen yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn enghraifft o fethiant gan D i gydymffurfio â gofynion safon 53. Mae safon 53A yn gosod dyletswydd ar gorff i sicrhau bod fersiwn Saesneg o ffurflen yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae D wedi sicrhau hyn drwy gynnwys opsiwn togl iaith ym mhennyn pob tudalen o'r ffurflen ymgeisio ar-lein. Mae safon 53B yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg o ffurflen yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar y corff i beidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a Saesneg o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen. Yn dilyn gwirio'r ffurflen ar-lein, ni wnes ganfod unrhyw fethiannau gan D i weithredu gofynion y safon yma.

Safon 55: Mae safon 55 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau:
a) bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg
b) bod pob tudalen Gymraeg ar ei wefan yn gweithredu'n llawn, ac
c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan.

Pan ymwelodd P â gwefan y brifysgol, roedd y dudalen we oedd yn cyflwyno gwybodaeth am y cwrs Tystysgrif Addysg Uwch Celf ar gael yn Saesneg yn unig. Dan safon 55, roedd dyletswydd ar D i sicrhau bod testun pob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg. Drwy fethu â chyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r dudalen hon, fe fethodd D â chydymffurfio ag elfen (a) o'r safon. Oherwydd nad oedd yna dudalen Gymraeg gyfatebol ar gael, roedd rhaid i P ddefnyddio'r ddolen "Apply Direct" ar y dudalen Saesneg er mwyn dechrau ei gais. Roedd y ddolen honno yn arwain P at gynnwys Saesneg yn unig. Er mwyn sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, roedd gofyn i'r ddolen dan sylw arwain P at gynnwys Cymraeg neu ddwyieithog. Gan fod y ddolen wedi arwain at gynnwys Saesneg yn unig, fe wnaeth D fethu â chydymffurfio ag elfen (c) o'r safon. Yn dilyn gwiriadau diweddar o'r wefan, rwyf yn canfod bod y wefan yn parhau i gynnwys tudalennau Saesneg yn unig, yn groes i ofynion y safon.

Safon 165 a 167: Mae safon 165 yn gosod dyletswydd ar gorff i sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer goruchwylio'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r safonau, ynghyd â threfniadau ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r gwasanaethau a gynigir yn unol â'r safonau. Mae'r cynllun cydymffurfio sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan D yn cynnwys gwybodaeth sy'n cofnodi'r trefniadau yma. Mae safon 167 yn gosod gofyniad ar gorff i gyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n esbonio sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau. Mae'r cynllun cydymffurfio ar wefan D yn cynnwys gwybodaeth sy'n esbonio hyn.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi methu â chydymffurfio â safonau 53A, 53B, 165 ac 167, ond bod Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi methu â chydymffurfio â safonau 5, 7, 53 a 55.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi methu â chydymffurfio â safonau 5, 7, 53 a 55.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a gaiff ei anfon at bersonau yn cael ei hanfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog fel mater o drefn (oni bai bod D yn gwybod nad yw'r person dan sylw yn dymuno cael gohebiaeth gan D yn Gymraeg).

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod D (oni bai bod D yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth gan D yn Gymraeg) yn anfon fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o ohebiaeth at bersonau sydd wedi ymgeisio am gwrs, waeth beth fo'r iaith a gyflwynwyd y cais ynddi.
2. Rhaid i D sicrhau bod unrhyw ganllawiau i staff yn adlewyrchu'n glir bod safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i D anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at bersonau ar bob achlysur, hyd nes y caiff gwybod, a dim ond os y caiff gwybod, nad yw'r person dan sylw yn dymuno derbyn gohebiaeth gan D yn y Gymraeg.

3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.
Amserlen: 12 Chwefror 2024

Safon 7: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D ddiwygio ei dempledi llythyrau, llofnodion e-bost corfforaethol a’i ganllawiau i staff er mwyn sicrhau bod y datganiad y cyfarwyddir i staff ei gynnwys o fewn gohebiaeth yn diwallu pob elfen o safon 7.
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.
Amserlen: 12 Chwefror 2024

Safon 53: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D sicrhau bod y ffurflen ar-lein y mae aelodau o’r cyhoedd yn ei defnyddio er mwyn cyflwyno cais i astudio gyda’r brifysgol ar gael yn llawn yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod tudalennau rhagarweiniol y ffurflen ynghyd â thestun y cwymplenni ar gael yn Gymraeg.
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.
Amserlen: 12 Chwefror 2024

Safon 55: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 1. Rhaid i D sicrhau ar ei wefan newydd bod testun pob tudalen ar gael yn Gymraeg ac nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.<br><br>Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod:<br>o y testun ar y tudalennau we sy’n cyflwyno gwybodaeth am gyrsiau’r brifysgol ar gael yn llawn yn Gymraeg,<br>o unrhyw ddolen o dudalen Gymraeg yn arwain at gynnwys Cymraeg (os oes fersiwn Gymraeg o’r cynnwys ar gael). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dolenni o’r tudalennau Cymraeg sy’n cyflwyno gwybodaeth am gwrs yn arwain defnyddwyr at y fersiwn Gymraeg o’r ffurflen ymgeisio ar-lein.<br>2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: 12 Chwefror 2024<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar 14/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir y Fflint | **CS1129** Ar 23 Mawrth 2023 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. | 04/12/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 1: Os yw corff yn cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid i’r corff ateb yr ohebiaeth yn Gymraeg. Anfonodd yr achwynydd neges yn Gymraeg at Gyngor Sir Fflint gan dderbyn ymateb allan o’r swyddfa yn Saesneg ar ddau achlysur. Mae’r uchod gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 1. |

Roedd y gŵyn yn ymwneud â’r materion isod mewn perthynas â Chyngor Sir y Fflint:
• Bod neges ‘allan o’r swyddfa’ uniaith Saesneg wedi ei anfon gan ddau swyddog o’r Cygnor (un ar 24/03/2023 a’r llall ar 30/03/2023)
• Bod llofnod e-byst swyddog arall o’r Cyngor bron yn gywir o ran rhoi’r Gymraeg yn gyntaf, oni bai am "Tel / Ffôn" o dan yr enw a’r teitl swydd
• Bod neges ar beiriant ateb y Cyngor yn uniaith Saesneg
• Bod tudalennau ar e-ffurflen "Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth - Cysylltu â ni" yn cynnwys testun Saesneg ar y fersiwn Gymraeg.
• Bod yr achwynydd wedi derbyn neges awtomatig yn cadarnhau derbyn ei ymholiad, gyda’r Saesneg yn gyntaf.

Safonau 2 a 4: Mae safon 2 yn ymwneud â gohebiaeth sydd wedi’i chyfeirio’n benodol at unigolyn. Anfonwyd y llythyr dan sylw at nifer o bersonau ac o ganlyniad nid yw safon 2 yn berthnasol i’r ymchwiliad hwn. Mae safon 4 yn ei gwneud hi’n ofynnol i gorff os yn anfon gohebiaeth safonol at nifer o bersonau, iddo anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yr un pryd ag y mae’n anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. Derbyniodd yr achwynydd ohebiaeth safonol yn Saesneg yn unig gan Gyngor Sir y Fflint yn Ionawr 2023. Anfonwyd y llythyr at drigolion ardal Saltney i’w hysbysu bod gwaith ffordd yn digwydd yn yr ardal. Mae methu ag anfon y llythyr yn Gymraeg yr un pryd â’r fersiwn Saesneg gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 4.

Safon 7: Rhaid i gorff ddatgan mewn gohebiaeth ei fod yn:
- croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg
- y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac
- na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Darparodd y Cyngor dempled llythyr sy’n arddangos y testun yn unol â gofyniad y safon. Darparodd yr achwynydd gopi o e-bost a dderbyniodd sy’n arddangos bod y geiriad fel a nodir yn safon 7 yn bresennol. Rwyf o’r farn bod hyn yn dangos cydymffurfiaeth gyda gofynion y safon.

Safon 22: Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd ganddo yn darparu’r gwasanaeth awtomataidd cyfan yn Gymraeg. Ffoniodd yr achwynydd y rhif ffôn a roddwyd yn y llythyr a dderbyniodd gan y Cyngor. Rhif llinell uniongyrchol aelod o staff y Cyngor ydoedd. Atebwyd yr alwad gan beiriant ateb gyda

neges uniaith Saesneg. Mae hyn gyfystyr â methiant i gydymffurfio gyda gofynion safon 22.

Safon 50: 6 Rhaid i gorff sicrhau bod pob ffurflen y mae'n ei llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys unrhyw ffurflenni ysgrifenedig, boed yn electronig neu ar ffurf papur. Honnai'r achwynydd bod yr e-ffurflen "Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth - Cysylltu a ni" yn cynnwys testun Saesneg ar y fersiwn Gymraeg. Mae hyn gyfystyr a methiant i gydymffurfio â gofynion y safon.

Safon 50B: Os yw corff yn llunio fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Roedd yr e-ffurflen "Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth - Cysylltu a ni" yn cynnwys testun Saesneg ar y fersiwn Gymraeg ac o ganlyniad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 135: Rhaid i gorff ddarparu geiriad ar gyfer eu cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst. Rhaid iddo hefyd ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost. Darparodd y Cyngor eiriad yn cynnwys enw'r swyddog, pryd y bydd yn dychwelyd i ateb yr ymholiad a manylion cyswllt yn y Gymraeg. Mae'r uchod gyfystyr â chydymffurfiaeth â gofynion safon 135.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir y Fflint wedi methu â

chydymffurfio â safon 7 ac 135, ond bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4, 22, 50 a 50B.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4, 22, 50 a 50B.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint godi ymwybyddiaeth staff o'r angen i anfon gohebiaeth at fwy nag un person yn ddwyieithog ar bob achlysur.
2. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu canllaw i'w staff i'w cynorthwyo - sy'n cofnodi'r broses, a'r amser a gymerir i gyfieithu gohebiaeth er mwyn sicrhau bod fersiwn Gymraeg a Saesneg yn cael eu hanfon yr un pryd.
3. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 22: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
4. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint addasu ei ganllaw staff ar gyfer galwadau ffôn, gan nodi bod yn rhaid i bob gweithiwr adael neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Safon 22.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 5. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint sicrhau bod neges Gymraeg ar beiriant ateb pob aelod o staff fel bod modd darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.<br>6. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 4 a 5.<br>Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Safonau 50 a 50B: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>7. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint wirio ei holl e-ffurflenni i sicrhau bod pob ffurflen ar gael yn Gymraeg ac nad yw'r ffurflenni'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>8. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 7.<br>Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 04/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | **CS1061** Ar 28/09/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r | 04/12/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 61: Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun ar arwydd yn ymddangos yn Gymraeg. Gan fod yr enwau ar yr arwyddion wedi eu cofrestru yn Saesneg yn unig, does dim methiant i |

achwynydd yn honni fod y Cyngor wedi gosod nifer o arwyddion enwau stryd uniaith Saesneg yn ardal y Cyngor. Mae'r achwynydd wedi rhoi lluniau o rai enghreifftiau o'r arwyddion uniaith Saesneg hyn, yn ogystal â lluniau o rai dwyieithog er cymhariaeth. Mae'r lluniau o'r enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys arwyddion sydd â'r testun:

a. West Roedin – Leading to – Offway and East Roedin – Shop

b. Gorllewin Roedin yn arwain i Offway a Dwyrain Roedin – Siop / West Roedin Leading to Offway and East Roedin – Shop

c. Teynes – Leading to / Yn arwain i – Ladybench

ch. Teynes – Leading to – Ladybench

d. Jule Road

Mae'r lluniau yn dangos fod rhai o'r arwyddion yn arddangos enwau strydoedd yn uniaith Saesneg, a bod testun nad yw'n rhan o enw'r stryd, hefyd yn uniaith Saesneg.

gydymffurfio wedi bod. Serch hynny, mae'r testun 'leading to' yn bodoli yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda'r safon.

Safon 62: Mae safon 62 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ar arwydd sy'n cynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Yn yr achos yma, mae'r testun Saesneg 'leading to' wedi ei osod cyn y testun Cymraeg 'yn arwain i', ac felly yn debygol o gael ei ddarllen cyn y testun Cymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda'r safon.

Safon 63: Mae safon 63 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun Cymraeg ar ei arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Yn yr achos yma, mae'r testun Cymraeg sydd ar arwyddion y Cyngor yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Nid oes methiant i gydymffurfio felly.

Safon 88: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 88, rhaid i'r Cyngor adnabod ac ystyried effeithiau posib y cynnig, boed yn bositif neu'n andwyol, ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw'r Cyngor wedi dangos unrhyw dystiolaeth i mi sy'n profi bod ystyriaeth gydwybodol wedi ei roi i'r effeithiau posib ar y Gymraeg wrth addasu'r polisi enwi strydoedd. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 88.

Safon 89: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 89, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu fwy positif

Mae'r achwynydd hefyd yn honni na wnaeth y Cyngor ystyried yr effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan newidiodd y polisi enwi strydoedd i un o beidio cyfieithu enwau strydoedd uniaith Saesneg i'r Gymraeg. Yn wreiddiol, penderfynais beidio cynnal ymchwiliad i'r honiadau yma, ond yn dilyn cais yr achwynydd am adolygiad gan Dribiwnlys y Gymraeg o fy mhenderfyniad, fe ail ystyriais, a'i newid i benderfyniad o agor ymchwiliad.

ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddangos tystiolaeth i mi sy'n profi bod ystyriaeth gydwybodol wedi ei roi i sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 89.

Safon 90: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 90, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac a beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddangos tystiolaeth i mi sy'n profi bod ystyriaeth gydwybodol wedi ei roi i sut ellid llunio'r polisi fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 90.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 63, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 61, 62, 88, 89 a 90.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 61, 62, 88, 89 a 90.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

| | |
|---|---|
| | Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw, neu ychwanegu at ganllaw sydd ganddo eisoes, er mwyn gwneud yn glir bod rhaid i unrhyw destun nad yw'n rhan o'r enw ar arwyddion strydoedd fod yn Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor nodi y geiriau 'leading to' fel enghraifft o'r math yma o destun sydd angen bod yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio.<br>2. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r adran sy'n gyfrifol am ddylunio arwyddion stryd at yr ymchwiliad yma, a'u hatgoffa o ofynion safon 61, gan gyfeirio at y canllaw adolygedig.<br>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>Safon 62: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor ddangos tystiolaeth i mi ei fod wedi cywiro'r arwydd sydd dan sylw'r methiant yma i gydymffurfio, sef yr arwydd 'Taynes leading to / yn arwain i Ladybench', fel bod y testun Cymraeg yn cael ei osod mewn lleoliad y mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.<br>2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw, neu ychwanegu at ganllaw sydd ganddo eisoes, er mwyn gwneud yn glir bod rhaid i unrhyw arwydd sy'n cynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg gynnwys y testun Cymraeg mewn safle fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. |

3. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r adran sy'n gyfrifol am ddylunio arwyddion stryd at yr ymchwiliad yma, a'u hatgoffa o ofynion safon 62, gan gyfeirio at y canllaw adolygedig.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 88, 89, a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'i broses fewnol o lunio/addasu polisïau er mwyn sicrhau bod proses gadarn mewn lle sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau 88, 89, a 90 wrth lunio neu addasu penderfyniad polisi.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw mewnol i'w staff sy'n egluro gofynion safonau 88, 89 a 90 wrth lunio neu addasu penderfyniad polisi. Rhaid i'r canllaw gyfleu bod rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth gydwybodol i'r canlynol wrth lunio neu addasu unrhyw benderfyniad polisi, a hynny yng nghyd-destun cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:
d) Pa effeithiau, boed yn bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar y Gymraeg;
e) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau positif neu mwy positif ar y Gymraeg;
f) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai andwyol, ar y Gymraeg.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses o lunio/addasu polisïau'r Cyngor, sy'n canolbwyntio ar ofynion safonau 88, 89, a 90.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhaid codi ymwybyddiaeth y staff hynny at y canllaw uchod, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion safonau 88, 89 a 90.<br><br>Safonau 88, 89, a 90: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>4. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio gyda safonau 88, 89 a 90. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi datganiad yn dweud bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda'r safonau perthnasol, yn ogystal â chyhoeddi'r adroddiad terfynol ar yr ymchwiliad mewn man amlwg ar ei brif wefan.<br>5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 04/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Caerdydd | **CS1069** Ar 14/10/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnodd yr achwynydd bod cofrestr | 01/12/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 41: Mae'r safon (fel a osodwyd ar y Cyngor) yn gosod gofyniad ar y Cyngor i lunio agendâu a cofnodion sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet yn y Gymraeg. Mae fy swyddogion wedi dod ar draws sawl enghraifft o gofnodion (gan gynnwys y |

penderfyniadau Cabinet Cyngor Caerdydd (Cyngor) ond ar gael yn Saesneg yn unig ar wefan y Cyngor: https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=151&LLL=1

Gofrestr Penderfyniadau) o gyfarfodydd cabinet y Cyngor sydd ar gael yn Saesneg yn unig ar y wefan. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 41.

Safon 52: Rhaid i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Wrth bori gwefan y Cyngor am gyfarfodydd a penderfyniadau'r Cabinet, nid ydi pob testun ar dudalennau Cymraeg y Cyngor ar gael yn llawn yn y Gymraeg. Mae hefyd gwallau ieithyddol ar y tudalennau yma. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 52.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 48 a 49, ond bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 41 a 52.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 41 a 52.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 41: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod cofnodion (gan gynnwys y Gofrestr Penderfyniadau) sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet yn cael ei lunio ac ar gael ar ei wefan yn y Gymraeg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.<br><br>Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>3. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod tudalennau ei wefan yn ymwneud a chyfarfodydd a phenderfyniadau Cabinet y Cyngor ar gael ac yn gweithredu’n llawn yn Gymraeg ac nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg ar y tudalennau a’r gwasanaethau hynny.<br>4. Rhaid i’r Cyngor hefyd wirio’r tudalennau yma i sicrhau nad oes gwallau iaith ar y tudalennau Cymraeg.<br>5. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 3-5.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 01/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Chwaraeon Cymru | **CS1056** Ar 22 Medi 2022 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni | 01/02/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 48: Rhaid i gorff sicrhau:<br>- bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg |

amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd y gŵyn yn sgîl y cyhoeddiad diweddar bod Chwaraeon Cymru a Parkwood Leisure yn ffurfio partneriaeth newydd yng nghanolfan Plas Menai. Mae Chwaraeon Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Ceir 4 elfen i'r gŵyn, sef:
1. Honiad o ddiffyg asesiad effaith llawn o sut fydd y penderfyniad i redeg y ganolfan gan gwmni o Loegr yn ei gael ar gyfleoedd staff a'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
2. Honiad na roddwyd ystyriaeth i'r penderfyniad gan Chwaraeon Cymru i breifateiddio'r safle fel y byddai'n cael effaith bositif ar yr iaith neu yn lliniaru effeithiau andwyol posib.
3. Honiad mai negeseuon Saesneg yn unig sy'n ymddangos ar dudalen Facebook a Twitter Plas Menai, gyda thestun Saesneg yn bennaf ar y cyfrif Instagram.
4. Ceir pryder nad yw'r cyrsiau presennol yn cael eu cynnig yn

- bod pob tudalen Gymraeg ar ei wefan yn gweithredu'n llawn, ac
- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan honno

Mae tudalen Gymraeg gwefan Plas Menai yn cynnwys testun Saesneg yn gymysg gyda'r Gymraeg. Nid yw'r dudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn. Mae'r uchod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn dangos methiant gan Chwaraeon Cymru i gydymffurfio â safon 48.

Safon 54: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 54 mae'n rhaid i sefydliadau cyhoeddus sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio eu cyfryngau cymdeithasol. Honnai aelod o'r cyhoedd nad oedd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Plas Menai, Facebook, Instagram a Twitter yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg. Dengys gwaith pen-desg swyddogion mai'r Saesneg a ddefnyddir yn bennaf ar y 3 cyfrwng. Gan fod y cynnwys a gyhoeddir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Chwaraeon Cymru yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, rwyf o'r farn bod hyn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 54.

Safon 80: Os yw corff yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid iddo gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg. Hysbysebir nifer o gyrsiau a gweithgareddau awyr agored ar wefan Plas Menai. Nid oes cynnig i ddilyn y cyrsiau hyn drwy'r Gymraeg. Mae hyn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon 80.

Safonau 77 a 78: Rhaid i gorff hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a rhaid iddo hybu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg a nodi o fewn unrhyw

Gymraeg, ac nad yw’r wefan yn hybu’r ffaith bod y cyrsiau (fel gwersi nofio) yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

gyhoeddusrwydd neu ddogfen y mae’n ei lunio, neu wefan y mae’n ei chyhoeddi, sy’n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg, bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. Yn sgil fy nyfarniad gyda safon 80, nad oes cyrsiau addysg yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg gan Chwaraeon Cymru ym Mhlas Menai, casglaf nad oes gwasanaeth Cymraeg yn bodoli ac felly nad oes modd hybu unrhyw wasanaethau Cymraeg ychwaith.

Safonau 84, 85 ac 86: Er mwyn cydymffurfio gyda’r safonau llunio polisi roedd angen i Chwaraeon Cymru ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar y Gymraeg. Darparodd Chwaraeon Cymru gopi o Asesiadau Effaith a dogfennau fu’n rhan o’r broses dendro. Gwelwyd o’r dogfennau hynny bod ystyriaeth wedi bod i’r Gymraeg a bod un effaith andwyol posibl wedi ei ystyried fel rhan o’r asesiad. Nodaf hefyd bod y gwahoddiad i dendro yn gofyn cwestiynau penodol am y Gymraeg. Fodd bynnag ni ddarparwyd tystiolaeth ddigonol i’m argyhoeddi bod ymdrech gydwybodol ddigonol wedi ei wneud i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif ar gyfleoedd personau i ddefnyddio’r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Casglaf hefyd nad oedd yr holl ffactorau perthnasol (megis materion staffio) wedi eu hystyried wrth asesu effaith andwyol y polisi ar y Gymraeg. Roedd diffyg ystyriaeth i effaith y penderfyniad ar allu Chwaraeon Cymru i gydymffurfio gyda safonau’r Gymraeg yn sgil y ffaith y byddai’r ymgeisydd llwyddiannus yn darparu gwasanaethau ar ein ran. Ar y sail nad oedd Chwaraeon Cymru wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i’r holl ffactorau

perthnasol (oedd yn deillio o'i benderfyniad polisi i allanoli gwasanaethau Plas Menai i ddarparwr trydydd parti) a all effeithio ar y Gymraeg, rwyf o'r farn na lwyddodd Chwaraeon Cymru i gydymffurfio gyda safonau 84-86

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Chwaraeon Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 77 a 78, ond bod Chwaraeon Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 48, 54, 80, 84, 85 ac 86.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Chwaraeon Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 48, 54, 80, 84, 85 ac 86.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 48: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Chwaraeon Cymru sicrhau bod y ddolen ar bob tudalen we Saesneg yn arwain at y dudalen Gymraeg sy'n cyfateb i'r dudalen Saesneg.
2. Rhaid i Chwaraeon Cymru sicrhau bod pob tudalen Gymraeg ar wefan Plas Menai yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan honno.
3. Rhaid i Chwaraeon Cymru ystyried fy nogfen gyngor Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd wrth addasu a datblygu gwefan Plas Menai er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion safon 48.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 54: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
4. Rhaid i Chwaraeon Cymru sicrhau bod y testun a gyhoeddir ar ei gyfrifon cymdeithasol yn Gymraeg, gan gynnwys cyfrifon cymdeithasol Plas Menai.
5. Rhaid i Chwaraeon Cymru sicrhau nad yw'r testun sy'n ymddangos ar gyfrifoncyfryngau cymdeithasol Plas Menai yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod y postiadau Cymraeg yr un mor weledol â'r testun Saesneg. Gweler 4.2 'Dehongliadau' am syniadau i'w hystyried wrth gyflawni hyn.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

Safon 80: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion safon 80 wrth gynnig cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Chwaraeon Cymru yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cynnig cyrsiau yn y Gymraeg.
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)

- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—

- Bod Chwaraeon Cymru yn cynnal awdit o'r holl gyrsiau sydd yn cael eu darparu yn darparu ar ei ran a'r graddau y mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cynnig yn Gymraeg.
- Bod Chwaraeon Cymru yn cynnal awdit o'r cyrsiau a ddarperir ym Mhlas Menai gan nodi'r rhai hynny a gynigir yn Gymraeg. .
- Bod Chwaraeon Cymru yn cynnal adolygiad llawn o ddarpariaeth Plas Menai a chymryd camau i sicrhau y gall gynnig ei gyrsiau yn Gymraeg.
- Bod Plas Menai yn adolygu ei drefniadau ar gyfer recriwtio hyfforddwyr sydd â'r sgiliau ieithyddol priodoli fydd yn ei alluogi i gynnig cyrsiau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bod Chwaraeon Cymru yn hybu a hysbysebu pa gyrsiau sydd yn cael eu cynnig yn Gymraeg.
- Bod rhaid i'r cynnig o gyrsiau Cymraeg fod yn wirioneddol – hynny yw, bod modd darparu'r gwersi os oes rhywun yn dymuno'u derbyn.
- bod Chwaraeon Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 80 wrth gynnig cyrsiau addysgol, o fewn 9 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen: Rhaid i Chwaraeon Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 77: Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Pan fo Chwaraeon Cymru yn cynnig cyrsiau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 80, mae'n rhaid iddo hybu'r cynnig hwnnw fel bod aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'r cynnig i ddilyn y cyrsiau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Safon 78: Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Pan fo Chwaraeon Cymru yn cynnig cyrsiau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 80 rhaid iddo, wrth hybu ei wasanaethau Saesneg lle bo gwasanaethau Cymraeg cyfatebol yn cael eu cynnig, i nodi bod y gwasanaeth cyfatebol hwnnw ar gael yn Gymraeg.

Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Cynghoraf Chwaraeon Cymru i roi'r Gymraeg fel yr iaith ddiofyn ar wefan Plas Menai, fel bod y corff yn sicrhau cynnig rhagweithiol i ddefnyddwyr ddefnyddio'r Gymraeg cyn iddynt gael mynediad at wasanaethau'r wefan.

Safonau 84, 85 a 86: Gofyniad i gymryd camau ac i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
6. Rhaid i Chwaraeon Cymru gynnal adolygiad o'i broses fewnol o lunio/addasu polisïau (gan gynnwys adolygu unrhyw ganllaw a thempledi) er mwyn sicrhau
bod proses gadarn mewn lle sy'n sicrhau unigolion sydd yn gyfrifol am lunio ac asesu effaith ei bolisïau yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol yn llawn cydymffurfiaeth gyda safonau 84, 85, ac 86.
7. Rhaid i Chwaraeon Cymru greu canllaw mewnol i'w staff sy'n egluro gofynion safonau 84, 85 ac 86 wrth lunio neu

addasu penderfyniad polisi. Rhaid i'r canllaw gyfleu bod rhaid i'r Cygnor roi ystyriaeth gydwybodol i'r canlynol wrth lunio neu addasu unrhyw benderfyniad polisi, a hynny yng nghyd-destun cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

- Pa effeithiau, boed yn bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar y Gymraeg;
- Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau positif neu mwy positif ar y Gymraeg;
- Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai andwyol, ar y Gymraeg.

8. Rhaid i Chwaraeon Cymru ddarparu hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses o lunio/addasu polisïau, sy'n canolbwyntio ar ofynion safonau 84, 85, ac 86. Rhaid codi ymwybyddiaeth y staff hynny at y canllaw uchod, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion y safonau.
9. Rhaid i Chwaraeon Cymru sicrhau, wrth gynnal asesiad o benderfyniad polisi i allanoli gwasanaeth i drydydd parti, ei fod yn rhoi ystyriaeth lawn i adran 1(5) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.
10. Rhaid i Chwaraeon Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 6 - 10

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Gofyniad i roi Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n cynghori Chwaraeon Cymru i ystyried canfyddiadau a dyfarniad yr adroddiad hwn i sicrhau ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth sefydlu a chytuno'r gytundeb gyda

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Parkwood Leisure. Mae Plas Menai yn perthyn i ardal o bwysigrwydd ieithyddol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Chwaraeon Cymru ar 01/12/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Caerdydd | **CS1125** Ar 14/03/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae tair elfen i gŵyn yr achwynydd. Mae'r cwynion yn ymwneud â chyfrif Facebook Cymraeg Cyngor Caerdydd (Cyngor) crëwyd ar 23/03/2022. Honnodd yr achwynydd, gan fod y cyfrif Cymraeg yma yn newydd a bod y dudalen Facebook gyfredol wedi ei newid i fod yn un Saesneg yn unig, roedd angen i ddefnyddwyr Cymraeg weithredu i barhau i dderbyn cynnwys Cymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod hwn felly yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Esboniodd yr achwynydd fod gan y cyfrif sydd bellach yn Saesneg yn unig tua | 09/11/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 58: Pan fydd y Cyngor yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i'r Cyngor beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yma, rwyf yn derbyn un o honiadau'r achwynydd fod y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran bod defnyddwyr Cymraeg wedi gorfod cymryd cam ychwanegol er mwyn parhau i dderbyn gwasanaeth Cymraeg ar Facebook Caerdydd. Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn bod llai o bostiadau ar y cyfrif Cymraeg a sydd ar y cyfrif Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 58.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 58.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 58.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach** |

53,000 o ddilynwyr tra mai dim ond tua 500 o ddilynwyr sydd gan y cyfrif Cymraeg. Honnodd yr achwynydd nad oes unrhyw beth ar y cyfrif Saesneg i ddynodi bod cyfrif ar wahân ar gyfer defnyddwyr Cymraeg. Honnodd yr achwynydd hefyd fod gan y cyfrif Facebook sydd bellach yn Saesneg yn unig nodweddion, megis "Reels", a chynnwys dwyieithog hyd Fehefin 2022 sydd dim yn bodoli ar y Cyfrif Cymraeg. Ymhellach, honnodd yr achwynydd fod y cyfrif sydd bellach yn Saesneg yn unig, yn hysbysebu, gan gynnwys yn y Gymraeg, lle does dim yr un gwariant ar hysbysebion ar y cyfrif Cymraeg.

Safon 58: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfrif Facebook Cymraeg newydd.
2. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn wirio i sicrhau bod negeseuon neu postiadau cyfatebol yn cael eu gosod ar y cyfrif Facebook Cymraeg â'r un Saesneg yn unol â Safon 58.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 58: Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Dylai'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth gynnwys (ond nid fod yn gyfyngedig i):
o Postio negeseuon misol ar gyfrifon Facebook y Cyngor am gyfnod o 6 mis yn hyrwyddo ac annog defnyddwyr i ddilyn tudalen Facebook Gymraeg y Cyngor.
o Dull o fonitro nifer o ddilynwyr y cyfrif Facebook Cymraeg ac fel rhan o'r ymgyrch, ystyried ffyrdd i geisio cynyddu nifer y dilynwyr ar y cyfrif Cymraeg.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 09/11/2023.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1075** Ar 7 Tachwedd 2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dogfennau polisi a dogfennau ymgynghoriadau polisi ar gyfer y sector iechyd a gofal oedd yn anwybyddu'r cyd-destun dwyieithog yng Nghymru ac arwyddocâd y Gymraeg o ran hyrwyddo iechyd a lles. Roedd cwyn yr achwynydd yn cyfeirio yn benodol at y ddogfen ymgynghori Fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol. Honnai nad oedd y fframwaith yn cyfeirio at yr iaith Gymraeg yn yr ymgynghoriad ac felly yn creu amheuaeth nad yw Gweinidogion Cymru wedi ystyried effeithiau y penderfyniad polisi hwn ar y Gymraeg. | 09/11/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 50B: Mae safon 50B yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru pan fo'n llunio ffurflen yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru ffurflen ymgynghori oedd â thestun ar goll o'r fersiwn Gymraeg o un cwestiwn. Er bod traweffaith y methiant yn gymharol isel, mae'n rhaid i mi gasglu bod y fersiwn Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr achos hwn.<br><br>Safon 88, 89 a 90: Mae safonau 88, 89 a 90 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, pan fo'n llunio, adolygu neu addasu polisi, i ystyried yr effaith ar y Gymraeg ac ystyried sut gellir llunio'r polisi hwn fel ei fod yn cael effaith mwy cadarnhaol neu llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn achos y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol, cyflwynodd Weinidogion Cymru gopi o asesiad effaith ar y Gymraeg oedd yn ystyried effaith ar y Gymraeg yn unol â safon 88. Nodaf bod yr asesiad hefyd wedi trafod pa gamau i'w rhoi mewn lle i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg, ac felly bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio gyda safon 89. Yn achos gofynion safon 90 fodd bynnag, casglaf nad oedd yr asesiad wedi ystyried unrhyw effeithiau andwyol na sut i lunio'r polisi fel ei fod yn cael effaith llai andwyol ar y Gymraeg. Yn achos yr Ymgynghoriad Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymraeg, cyflwynodd Gweinidogion Cymru |

wybodaeth a thystiolaeth o'r trefniadau oedd mewn lle i asesu effaith y strategaeth yn unol â gofynion y safonau llunio polisi. Yn achos y Cynllun Gweithredu Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026 a'r Cynllun cyflenwi a gweithredu ar gyfer anabledd dysgu 2022 i 2026, mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau na chynhaliwyd asesiad effaith gan fod bwriad i gynnal asesiad o'r holl gamau o fewn y cynlluniau yn unigol. Casglaf foddbynnag, bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried effaith y cynlluniau yn eu cyfanrwydd ar amser llunio'r polisi. O ganlyniad, rwyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â gofynion y safonau yn achos y Cynllun Gweithredu Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026 a'r Cynlluncyflenwi a gweithredu ar gyfer anabledd dysgu 2022 i 2026. Yn achos y datganiad ansawdd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes a'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru, mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau na chynhaliwyd asesiad effaith ar y Gymraeg gan eu bod o'r farn bod asesiad blaenorol a gynhaliwyd i'r rhiant-ddogfen Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn berthnasol i'r ddau bolisi. Casglaf bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal asesiad i effaith pob polisi yn unigol, ac felly bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â gofynion y safonau llunio polisi yn achos y ddau bolisi yma.

Safon 91, 92 a 93: Ar 28 Gorffennaf 2022 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad ar ei Fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yn gwahodd sylwadau a barn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid am y Fframwaith. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar

ei bolisïau, mae safonau 91 i 93 yn gosod dyletswydd arno i:
a) Ystyried effeithiau'r polisi ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
b) chasglu barn am effeithiau'r polisi ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a

Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y safonau hyn felly mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyflawni'r ddau ofyniad sydd yn ngeiriad y safonau. Yn yr achos hwn, er i Weinidogion Cymru gynnwys dau gwestiwn (21a a 21b) yn gofyn barn y cyhoedd am effaith y polisi ar y Gymraeg a sut y gellid ei lunio fel ei bod yn cael effeithiau cadarnhaol (neu mwy cadarnhaol) neu llai andwyol, nid wyf o'r farn bod digon o ystyriaeth gydwybodol o effaith y Fframwaith ar y Gymraeg wedi bod yn y ddogfen ymgynghori. Drwy beidio â sicrhau bod y ddogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth am nac ystyriaeth gydwybodol i effeithiau ar y Gymraeg, casglaf nad yw Gweinidogion Cymru wedi llwyddo i gydymffurfio gyda gofyniad cyntaf y safon yn ymwneud ag ystyried, ac felly nad yw ychwaith wedi galluogi i'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid i ddod i farn ystyrlon.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 50B, 88, 89, 90, 91. 92 a 93.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 50B, 88, 89, 90, 91. 92 a 93.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 50B: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod trefniadau cadarn mewn lle wrth lunio ffurflenni yn Gymraeg a Saesneg i sicrhau bod y ddwy fersiwn yn cyfateb yn llawn ac yn cynnwys yr un manylion a gwybodaeth bob amser. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 88, 89 a 90:Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o drefniadau asesu effaith yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau nad yw trefniadau'r adran yn arwain at fethiant i gydymffurfio â safonau llunio polisi wrth i asesiadau effaith ar y Gymraeg gael eu cynnal.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod pob aelod o staff yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol am lunio a datblygu polisïau yn deall holl ofynion safonau 88, 89 a 90 ac yn deall y disgwyliadau cysylltiedig arnynt hwy.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu a diwygio canllawiau sy'n ymwneud â llunio polisi er mwyn gwneud gofynion unigol safonau 88, 89 a 90 yn glir i swyddogion sydd yn gyfrifol am lunio a datblygu polisïau.
5. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu a diwygio templedi ar gyfer asesu effaith polisïau ar y Gymraeg er mwyn

gwneud gofynion unigol safonau 88, 89 a 90 yn glir i swyddogion sydd yn gyfrifol am gynnal yr asesiadau effaith ac i hwyluso a sicrhau cydymffurfiaeth â’r safonau hynny.
6. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dynodi aelod o staff fel arbenigwr ar y safonau llunio polisi er mwyn gallu cynghori gweddill yr adran ar ofynion y safonau.
Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92 a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
7. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o drefniadau yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer cynnal ymgynghoriadau ar ei bolisïau (gan gynnwys ei ganllawiau a thempledi) er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg, ac i sut gellid llunio’r polisi fel y byddai’n cael effeithiau mwy positif a llai andwyol ar y Gymraeg.
8. Yn dilyn yr adolygiad, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod canllawiau a thempledi yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adlewyrchu gofynion safonau 91 i 93 yn llawn gan amlygu’r ddau ofyniad penodol yn y safonau hyn i ystyried effaith y polisi ar y Gymraeg ac yna i geisio barn ar yr effaith hynny.
9. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod dogfennau ymgynghori yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried a thrafod effaith y polisi ar y Gymraeg ac yna ceisio barn ar yr effeithiau hynny.
10. Rhaid Weinidogion Cymru wneud yn siŵr bod dealltwriaeth ymysg y staff hynny sydd yn gyfrifol am lunio, diwygio ac ymgynghori ar bolisïau iechyd a gofal, nad yw

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gofyn am ymateb yn gyffredinol i'r ymgynghoriad yn ddigon i gydymffurfio gyda gofynion y safonau. Rhaid iddo ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol ar sut i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg wrth lunio dogfennau ymgynghori ar bolisïau sy'n ymwneud â iechyd a gofal. Dylid codi ymwybyddiaeth staff at unrhyw ganllawiau a thempledi diwygiedig yn yr hyfforddiant yma, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion y safonau 91-93.<br>11. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 10.<br>Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/11/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | **CS1135** Fe wnaeth tystiolaeth a gasglwyd gan fy swyddfa fel rhan o fy ngwaith monitro greu amheuaeth o fethiannau posibl gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (D) i:<br>- ddarparu gwasanaethau derbynfa yn Gymraeg yn unol â safon 50;<br>- cynnal asesiadau ystyrlon o swyddi newydd a gwag yn unol â safon 106. | 02/11/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 50: Mae safon 50 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa y mae'n ei roi ar gael yn Saesneg yn ei dderbynfeydd hefyd ar gael yn Gymraeg. Ym mis Hydref 2022, nid oedd gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael yn unrhyw rai o'r lleoliadau gwasanaeth yr oedd D wedi eu hadnabod fel 'derbynfeydd. Erbyn mis Mawrth 2023, nid oedd gan D wasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael ym mhob un o'i dderbynfeydd o hyd. Mae methiant D i sicrhau bod gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael ym mhob derbynfa yn enghraifft o fethiant |

Yn ogystal â hynny, gwnaeth canfyddiadau fy arolygon gwirio ar gyfer 2021–22 a 2022–23 greu amheuaeth o fethiannau posibl gan D i:
- hysbysebu swyddi yn Gymraeg yn unol â safon 106A;
- cyhoeddi deunydd perthnasol yn Gymraeg yn unol â safon 107A;
- sicrhau nad yw fersiynau Cymraeg o ddogfennau a gyhoeddir yn unol â safon 107A yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r fersiynau Saesneg.

Penderfynais felly cynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg i'r amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â'r safonau uchod.

gan D i gydymffurfio â gofynion safon 50. Nid yw D yn gwybod ar hyn o bryd pa rai o'i leoliadau gwasanaeth sy'n "dderbynfeydd" yn unol â'r dehongliad o'r term yn y Rheoliadau, nac a ellir darparu gwasanaeth Cymraeg yn y lleoliadau hynny. Oherwydd y diffyg gwybodaeth hwn, nid wyf wedi fy modloni bod D yn cydymffurfio â gofynion y safon hon ar hyn o bryd.

Safon 106: Pan fydd corff yn asesu anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, mae safon 106 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swydd dan sylw. Yn seiliedig ar yr asesiad yma, mae'r safon yn gofyn i'r corff gategoreiddio'r swydd yn unol ag un o'r categorïau canlynol:
o bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
o bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
o bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
o nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Mae D yn cyfaddef oedi cynnal asesiadau o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi yn ystod y cyfnod 2022-23 ac yn adrodd ansicrwydd i fodloni y gofynion asesu yn ddiweddarach yn Hydref 2022. Mae hyn yn arddangos methiant gan D i gydymffurfio â gofynion safon 106. Darparodd D bolisi a dogfen ganllaw ym mis Mawrth 2023 fel enghraifft o sut yr oedd yn gweithredu'r safon, a oedd yn brin o fanylion cynhwysfawr. Roedd y ddau ddogfen yn darparu diffyg eglurder ar ofynion safon 106 a chanllawiau ymarferol i staff ar sut i gynnal asesiadau ystyrlon a fyddai'n diwallu'r gofynion. Mewn ymateb i'm hysbysiad tystiolaeth, cadarnhaodd D mai rheolwyr unigol

sy'n gyfrifol am asesu a chategoreiddio'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi. Eglurodd D fod yna wybodaeth ar gael ar y system ESR i gefnogi asesiadau rheolwyr. Fodd bynnag, nid yw’r wybodaeth hon a ddarperir ar system ESR o reidrwydd yn sicrhau bod rheolwyr yn cynnal asesiadau systematig ac ystyrlon. Nid yw fy nisgwyliad ar gyfer gweithdrefn glir a chynhwysfawr i reolwyr ar gyfer cynnal asesiadau ystyrlon yn unol â safon 106 wedi'i fodloni, ac heb weithdrefn gorfforaethol gadarn ar waith, mae risg bod asesiadau goddrychol o’r angen am sgiliau yn y Gymraeg yn cael eu cynnal gan reolwyr wrth benderfynu pa gategori iaith y dylid rhagnodi swydd. Mae diffyg gweithdrefn amlwg ar gyfer cynnal asesiadau wedi fy arwain i gwestiynu effeithiolrwydd yr asesiadau a gynhaliwyd gan reolwyr ar gyfer pum swydd derbynfa a hysbysebwyd ym mis Ionawr 2023, a gafodd eu categoreiddio fel rhai lle’r oedd sgiliau Cymraeg yn “ddymunol” yn unig.

Safon 106A: Er mwyn cydymffurfio â rhan (a) o safon 106A, rhaid i gorff bennu mewn hysbyseb swyddi a yw wedi categoreiddio’r swydd honno fel un sy’n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu (ai peidio). Ni wnaeth fy ngwaith monitro ganfod amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â’r rhan yma o’r safon. I gydymffurfio â rhan (b) o safon 106A, mae’n ofynnol ar gorff i hysbysebu unrhyw swydd — lle mae’r corff wedi categoreiddio’r swydd honno fel un sy’n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu — yn Gymraeg. Darganfuwyd 33 achos fel rhan o fy ngwaith monitro lle roedd hysbyseb

swydd (yr oedd dyletswydd iddi gael ei hysbysebu yn y Gymraeg) yn cynnwys testun Saesneg.

Safon 107A: Os yw corff yn cyhoeddi'r canlynol, mae safon 107A yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff eu cyhoeddi yn Gymraeg–
o ffurflenni cais am swyddi;
o deunydd esboniadol ynghylch ei broses ar gyfer ymgeisio am swyddi;
o gwybodaeth am ei broses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; neu
o swydd-ddisgrifiadau.

Mae'r safon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'n trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau uchod yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt. Fel rhan o fy ngwaith monitro o gydymffurfiaeth D â safon 107A, gwelwyd sawl enghraifft o D yn cyhoeddi deunydd perthnasol yn Saesneg yn unig neu yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 50, 106, 106A a 107A.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 50, 106, 106A a 107A.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 50: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D arolygu pa ardaloedd yn ei ysbytai, swyddfeydd a lleoliadau gwasanaeth sy’n cyfateb i ddehongliad y term “derbynfa” yn Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 7) 2018.
2. Rhaid i D gymryd camau staffio i sicrhau bod gan bob tîm unigol sy’n gyfrifol am wasanaethu pob “derbynfa” y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth derbynfa Gymraeg yn unol â dyletswydd safon 50.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

Fel rhan o’r dystiolaeth, disgwylir i D ddarparu:
o rhestr o bob “derbynfa” sydd gan D
o cadarnhad o’r camau staffio a gymerwyd yn unol â cham 2
o eglurhad o sut mae’r camau hyn wedi sicrhau argaeledd gwasanaeth derbynfa Cymraeg ym mhob un “derbynfa”.
Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 106: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D lunio a chyhoeddi dogfen ganllaw a gweithdrefn gam-wrth-gam i reolwyr ar sut i gynnal asesiad ystyrlon o’r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swydd wag neu newydd.
Disgwylir bod y canllaw a’r weithdrefn yn sicrhau bod rheolwyr yn ystyried capasiti o fewn maes gwaith y swydd i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â’r safonau, ac yn

ystyried a ddylai'r swydd gael ei hysbysebu fel swydd ble mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu fod angen ei dysgu (os canfyddir nad yw'r capasiti presennol yn ddigonol).
2. Rhaid i D gynnal hyfforddiant ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â'r broses recriwtio, sy'n canolbwyntio ar sut i gynnal asesiad ystyrlon a gwrthrychol o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swydd ac i gategoreiddio swyddi yn unol â'r categorïau a nodir yn y safon.Disgwylir i'r hyfforddiant gynnwys arweiniad ar sut i ddefnyddio'r canllaw a'r weithdrefn asesu newydd.
3. Rhaid i D sicrhau bod proses asesu swyddi D (sy'n asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swydd wag neu newydd) yn golygu bod rheolwyr yn categoreiddio swyddi (yn unol ag un o'r categorïau a nodir yng ngeiriad y safon) yn seiliedig ar ganlyniadau gwrthrychol yr asesiad a gynhaliwyd.
4. Rhaid i D gynnal hap-wiriadau i sicrhau bod rheolwyr yn gweithredu gofynion safon 106 yn gywir wrth iddynt recriwtio ar gyfer swyddi gwag neu newydd. Disgwylir bod D yn gwirio bod rheolwyr yn:
o cynnal asesiadau ystyrlon o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi wag neu newydd, cyn pennu categori ar gyfer swydd yn unol â'r categorïau a nodir yn y safon.
o sicrhau bod y categori a bennwyd ar gyfer y swydd yn adlewyrchu canlyniadau yr asesiad gwrthrychol a gynhaliwyd.
5. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.
Amserlen: O fewn 9 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safon 106A a safon 107A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i D sicrhau bod staff perthnasol yn cael eu hatgoffa o ddyletswyddau safonau 106A a 107A ac o sut i weithredu'r safonau hyn wrth recriwtio ar gyfer swyddi. Disgwylir i D roi pwyslais ar atgoffa rheolwyr o'r ddyletswydd i sicrhau bod hysbysebion swyddi, swydd-ddisgrifiadau a deunydd perthnasol arall yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, ac o'r weithdrefn sydd ar waith (a'r gefnogaeth gyfieithu sydd ar gael) gan y bwrdd iechyd i sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg cyn y cânt eu cyhoeddi.<br>2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 02/11/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Opera Cenedlaethol Cymru | **CS1118** Ar 21/02/2023, derbyniais gŵyn a oedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd y gŵyn gan athro (P) a fynychodd | 02/11/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 80: Os bydd corff yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, mae safon 80 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnig y cwrs yn Gymraeg. Yn yr achos hwn, fe wnaeth aelod o'r cyhoedd (P) mynychu cwrs datblygiad proffesiynol a gynhaliwyd gan Opera Cenedlaethol Cymru (D). Cafodd y |

gwrs datblygiad proffesiynol a gynhaliwyd ar y cyd gan Opera Cenedlaethol Cymru (D) a’r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC): https://wno.org.uk/cy/take-part1/schools/teacher-cpd-days.
1.2 Honnai P bod y cwrs wedi ei gyflwyno yn Saesneg yn unig a bod holl ddeunydd y cwrs hefyd yn Saesneg yn unig.

cwrs ei gyflwyno yn Saesneg yn unig. Nid oedd y ffurflen gofrestru ar gyfer y cwrs yn hysbysu P bod cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael nac yn rhoi opsiwn I P ddewis mynychu cwrs cyfrwng Cymraeg. Fe wnaeth D felly methu â “chynnig” cwrs Cymraeg i P, fel oedd yn ofynnol dan safon 80.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Opera Cenedlaethol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 80.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Opera Cenedlaethol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 80.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 80: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Pan mae D yn hysbysu personau am unrhyw gwrs addysg sydd ar gael i fynd arno, rhaid i D sicrhau ei fod yn eu hysbysu bod yna gwrs cyfrwng Cymraeg ar gael.
2. Rhaid i D sicrhau bod pob ffurflen gofrestru ar gyfer cwrs addysg yn cynnwys opsiwn i berson dewis mynd ar gwrs cyfrwng Cymraeg.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Opera Cenelaethol Cymru ar 02/11/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir y Fflint | **CS1150** Ar 10/05/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Dyma gŵyn am y broses o dalu Treth Cyngor ar-lein. Yn gyntaf, honiad bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ar y wefan, ac yn ail, bod testun Saesneg ar dderbynneb gafodd yr achwynydd gan y Cyngor. | 23/10/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 47: Os yw asesiad dan safon 47 yn awgrymu y dylai dogfen gael ei llunio yn Gymraeg, rhaid i’r Cyngor sicrhau hynny. Yn yr achos yma, roedd rhan o’r dderbynneb yn Saesneg yn unig, er y dylai’r ddogfen i gyd fod yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 47.<br><br>Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i holl dudalennau gwefan y Cyngor fodoli a gweithredu yn llawn yn Gymraeg, ac na ddylai’r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol ar y wefan. Yn yr achos yma, mae tystiolaeth yr achwynydd ac archwiliad mewnol yn dangos bod testun Saesneg, a Chymraeg gwallus, ar dudalennau talu Treth Cyngor ar-lein y Cyngor. Mae hyn yn fethiant amlwg i gydymffurfio gyda safon 52.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 47 a 52.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 47 a 52. |

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 47: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i’r Cyngor ddangos tystiolaeth bod y dderbynneb dan sylw’r gŵyn bellach yn cynnwys y cyfeiriad yn Gymraeg, ac yn cydymffurfio yn llawn gyda safon 47.
2. Rhaid i’r Cyngor gynnal adolygiad o’i drefniadau ar gyfer derbyn testun sydd wedi ei brawf ddarllen gan ei contractwyr. Rhaid gweithredu ar ganfyddiadau’r adolygiad i sicrhau bod y testun Cymraeg a gyhoeddir yn cydymffurfio â gofynion y safonau.
3. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i’r Cyngor adolygu’r tudalennau talu Treth Cyngor ar-lein, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio’n llawn gyda safon 52. Rhaid i’r Cyngor ddarparu sgrin-luniau i mi sy’n dangos bod pob tudalen sy’n rhan o’r broses yn cydymffurfio yn llawn gyda’r safon.
2. Rhaid i’r Cyngor ohebu gyda'r darparwr gwefan trydydd parti yn ei hysbysu o’r dyfarniad hwn, a’i atgoffa o’r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan yn cydymffurfio yn llawn gyda safonau’r Gymraeg.
3. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 23/10/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1114** Ar 17/02/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cyngor) i sicrhau darpariaeth briodol mewn cyfarfod i'r achwynydd allu ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl ei ddymuniad, fel yr oedd wedi rhoi gwybod i'r awdurdod ymlaen llaw. | 23/10/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 24: Mae dwy ran i'r gofyniad o dan y Safon. Yn gyntaf, os bydd corff yn gwahodd un person yn unig i gyfarfod, rhaid i'r corff ofyn i'r person hwnnw a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Yn ail, mae rhaid i'r corff hysbysu person sydd yn cael ei wahodd y bydd y corff, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw. Yma, er fod y Cyngor wedi gofyn i'r achwynydd oedd wedi ei wahodd i gyfarfod a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, nid ydi'r Cyngor wedi darparu unrhyw dystiolaeth eu bod wedi hysbysu'r achwynydd cyn y cyfarfod y byddent, os bydd angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod hwnnw. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio yn llawn gyda Safon 24.<br><br>Safon 24A: Os bydd corff wedi gwahodd un person yn unig i gyfarfod, a bod y person hwnnw wedi hysbysu'r corff ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i'r corff drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydi'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg heb gymorth |

gwasanaeth cyfieithu). Yma roedd yr achwynydd wedi hysbysu'r Cyngor ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ond ni wnaeth y Cyngor drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ffurfiol gan berson nad oedd yn cymryd rhan yn y cyfarfod, o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod er nad oedd y cyfarfod i gyd wedi ei gynnal yn y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 24A.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 24 a 24A.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 24 a 24A.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 24: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor ddiweddaru ei weithdrefnau am gyfarfodydd sydd yn dod o dan ofynion Safon 24 i sicrhau bod y Cyngor yn hysbysu person sydd yn cael ei wahodd i gyfarfod, cyn y cyfarfod dan sylw y byddent, os bydd angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod hwnnw.

2. Rhaid i'r Cyngor newid eu canllawiau i staff i sicrhau fod staff yn cymryd y camau angenrheidiol o dan Safon 24.

3. Rhaid i'r Cyngor hysbysu a chodi ymwybyddiaeth staff o'r newid yma i'w gweithdrefnau ac o'r angen i gydymffurfio gyda Safon 24.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 24A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i'r Cyngor ddiweddaru ei weithdrefnau am gyfarfodydd sydd yn dod o dan ofynion Safon 24A i sicrhau os bydd corff wedi gwahodd un person yn unig i gyfarfod, a bod y person hwnnw wedi hysbysu'r corff ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, eu bod yn trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ffurfiol ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydi'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

6. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod eu canllawiau i staff yn ei wneud yn glir pa gamau sydd angen i staff ei gymryd er mwyn cydymffurfio gyda Safon 24A.

7. Rhaid i'r Cyngor hysbysu a chodi ymwybyddiaeth staff o'r newid yma i'w gweithdrefnau ac o'r angen i gydymffurfio gyda Safon 24A yn llawn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 8. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod gan eu hadran gyfieithu gapasiti i ddarparu'r gwasanaeth yma yn unol â Safon 24A.<br><br>9. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5 - 8.<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 23/10/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | **CS1082** Yn 2021-22 a 2022-23, cynhaliodd fy swyddogion arolygon gwirio o'r gwasanaethau a ddarperir ar rifau ffôn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (D), gan gynnwys prif switsfyrddau Ysbyty Treforys (01792 702222), Ysbyty Singleton (01792 205666) acYsbyty Castell-nedd Port Talbot (01639 862000). Gwiriwyd gweithgareddau recriwtio ac apwyntio'r bwrdd iechyd fel rhan o waith monitro fy swyddogion. Fe wnaeth canlyniadau'r arolygon yma greu amheuaeth o fethiant gan D i | 19/10/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safonau 8, 9 a 10: Os yw person yn cysylltu â chorff ar un o'i brif rifau ffôn, mae safon 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gyfarch y person hwnnw yn Gymraeg. Pan gwnaed gwiriadau ar rifau ffôn D fel rhan o fy arolygon gwirio, fe wnaeth yr aelod staff a atebodd yr alwad gyfarch fy swyddog yn Saesneg yn unig yn y rhan fwyaf o'r achosion. Mae safon 9 yn gosod dyletswydd ar y corff i roi gwybod i'r person bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Gwelwyd sawl achos fel rhan o fy arolygon gwirio o D yn methu â rhoi gwybod i fy swyddog (yn Gymraeg) bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny, hyd nes ei bod yn |

gydymffurfio â safonau 8; 9 a 10 ynghylch galwadau ffôn, a safonau 106A a 107A ynghylch recriwtio ac apwyntio. Penderfynais felly cynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg i'r amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â'r safonau hyn.

angenrheidiol i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). Pan gwnaed gwiriadau o rifau ffôn D fel rhan o fy arolygon gwirio, fe wnes canfod nifer o achosion lle wnaeth D fethu ag ymateb i fy swyddog yn unol â gofynion y safon. Mewn sawl achos, gwnaeth yr aelod staff a atebodd yr alwad fethu â delio ag unrhyw ran o'r alwad yn Gymraeg. Mewn rhai o'r achosion hynny, fe wnaeth yr aelod staff hefyd drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall, cyn roedd yr alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol". Dim ond pan fo gofyn i ddelio â "phwnc penodol" y mae safon 10 yn galluogi'r aelod staff sy'n ateb yr alwad drosglwyddo'r alwad i rywun arall. Nid yw tystiolaeth fy arolygon, canllawiau D na thystiolaeth yr ymchwiliad yn rhoi sicrwydd i mi fod gan D drefniadau digonol ar waith i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth ffôn i bersonau mewn modd sy'n cwrdd â gofynion safonau 8, 9 a 10.

Safon 106A: Er mwyn cydymffurfio â rhan (a) o safon 106A, rhaid i gorff bennu mewn hysbyseb swyddi a yw wedi categoreiddio'r swydd honno fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu (ai peidio). Fe wnaeth fy arolygon gwirio ganfod y gwnaeth D, wrth hysbysebu un swydd, fethu â phennu sut roedd y swydd honno wedi ei chategoreiddio. I gydymffurfio â rhan (b) o safon 106A, mae'n ofynnol ar gorff i hysbysebu unrhyw swydd — lle mae'r corff wedi categoreiddio'r swydd honno fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu — yn Gymraeg. Darganfuwyd 24 achos fel rhan o fy arolygon gwirio lle bu D hysbysebu swydd (yr oedd

dyletswydd iddo gael ei hysbysebu yn Gymraeg) yn Saesneg.

Safon 107A: Os yw corff yn cyhoeddi'r canlynol, mae safon 107A yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff eu cyhoeddi yn Gymraeg–

o ffurflenni cais am swyddi;

o deunydd esboniadol ynghylch ei broses ar gyfer ymgeisio am swyddi;

o gwybodaeth am ei broses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; neu

o swydd-ddisgrifiadau.

Mae'r safon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'n trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau uchod yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt. Fel rhan o fy arolygon gwirio, gwelwyd 30 achos lle gwnaeth D fethu â chyhoeddi deunydd perthnasol yn Gymraeg yn unol â gofynion y safon.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 8, 9, 10, 106A a 107A.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 8, 9, 10, 106A a 107A.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 8; 9; 10; 106A a 107A: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
o Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (D) baratoi cynllun gweithredu, at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â safonau 8; 9; 10; 106A a 107A rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
o disgrifiad o bob un o'r camau y bydd D yn eu cymryd ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir uchod ac i ddatrys y methiannau a'r diffygion penodol a nodwyd yn yr adroddiad;
o amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir), gyda phob un o'r camau mewn perthynas â safonau:
• 8; 9 a 10 i'w cyflawni mewn dim mwy na 12 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun
• 106A a 107A i'w cyflawni mewn dim mwy na 10 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun;
o pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu pob un o'r camau a nodir yn y cynllun;
o pwy o'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd D yn erbyn y cynllun gweithredu;
o disgrifiad o'r drefn oruchwylio a fabwysiedir i sicrhau cyflawniad y cynllun;
o yr adnoddau (e.e. cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Amserlen:

Rhaid i D lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf a gynhwysir yn y cynllun gweithredu, rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni'r Comisiynydd ei fod wedi cyflawni pob un o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu (erbyn y dyddiad cyflawni perthnasol ar gyfer cyflawni pob cam unigol).

Disgwylir i'r cynllun gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn "Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg."

Safon 8
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
o bod D yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'i wasanaethau ffôn i sicrhau bod staff sy'n ateb galwadau ffôn yn cyfarch personau yn Gymraeg fel mater o drefn;
o bod D yn diwygio ei feddalwedd switsfwrdd fel bod y cyfarchiad priodol yn cael ei arddangos ar sgriniau'r gweithredwr wrth ateb galwadau o wahanol giwiau;
o bod D yn rhoi gwersi Cymraeg i holl staff y sefydliad sydd yn gyfrifol am ateb galwadau i'w rhifau ffôn perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â safon 8 ac/neu bod D yn sicrhau bod negeseuon unrhyw systemau ffôn awtomataidd ar ei rifau ffôn perthnasol yn cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â'r safon.

Safon 9
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
o bod holl rifau ffôn perthnasol D yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, ymhob adeg o'r alwad y disgwylir ei wneud yn unol â safon 9.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod D yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn:
• ar ddechrau unrhyw alwad (e.e. gan roi gwybod drwy system ffôn awtomataidd ac/neu drwy'r aelod staff a atebir yr alwad yn rhoi gwybod ac/neu drwy'r aelod staff yn dechrau'r sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn syth), ac
• pan fo aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yn Gymraeg).
o os nad yw D yn cydymffurfio â safon 9 mewn unrhyw fodd arall, bod D yn sefydlu system ffôn awtomataidd ar y rhif ffôn sy'n rhoi gwybod i bob galwr ar ddechrau'r alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, drwy roi dewis iddynt dderbyn gwasanaeth Cymraeg (neu Saesneg), gan bwyso rhif penodol ar y ffôn.
o bod pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 9 yn egluro'r camau y mae'n rhaid i staff eu cymryd mewn galwad ffôn er mwyn diwallu dyletswyddau safon 9 yn llawn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob canllaw yn cyfleu'r canlynol:

• sut a phryd y mae'n rhaid i staff, sy'n ateb galwadau ar rifau ffôn lle atebir yr alwad yn syth gan aelod staff (ac nid gan system ffôn awtomataidd), rhoi gwybod i bersonau bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn (os nad yw hynny eisoes yn glir i'r person oherwydd bod yr aelod staff wedi dechrau'r sgwrs gyda'r person yn Gymraeg yn syth),
• sut a phryd y mae'n rhaid i staff roi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg yn parhau ar gael ar y ffôn wrth i'r aelod staff drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).

Safon 10
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
o os yw person yn cysylltu ag un o rifau ffôn perthnasol D, bod D yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—
(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol os yw'r person yn dymuno i D ddelio â'r alwad dan sylw yn Gymraeg:
• (yn dilyn gwneud y cyfarchiad cyntaf i'r person yn Gymraeg yn unol â safon 8), bod unrhyw gyfarchiadau eraill y mae D yn eu gwneud i'r person hwnnw yn ystod yr alwad yn cael eu gwneud yn Gymraeg;
• bod yr aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu sefydlu natur yr alwad, cynnal sgwrs gychwynnol a delio ag unrhyw

ymholiad nad yw'n ymwneud â "phwnc penodol" (e.e. ymholiad cyffredinol), yn Gymraeg;

• sicrhau nad yw'r alwad yn cael ei throsglwyddo gan yr aelod staff sy'n ateb y ffôn i aelod staff arall er mwyn delio â hi yn Gymraeg, cyn bod yr alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol" (e.e. mater arbenigol);

• unwaith y mae'r alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol", ac nad yw'r aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu delio â'r pwnc penodol yn Gymraeg ei hun, bod D yn gwirio a oes aelod o staff arall ar gael sy'n gallu delio â phwnc penodol yr alwad yn Gymraeg, ac os oes un ar gael, bod yr aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i'r aelod staff arall hwnnw i ddelio â'r pwnc penodol yn Gymraeg.

o bod D yn sicrhau bod pob aelod staff perthnasol sy'n gyfrifol am ddelio â galwadau Cymraeg i'w rifau ffôn perthnasol yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg sy'n galluogi iddynt ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â safon 10 (e.e. drwy wella sgiliau iaith Gymraeg y staff presennol i lefel sy'n sicrhau hynny).

o bod D yn diwygio ei holl weithdrefnau, polisïau a chanllawiau a dogfennau perthnasol eraill sy'n berthnasol i gydymffurfio â safon 10 i sicrhau bod holl ofynion safon 10 yn cael eu hadlewyrchu yn glir ac yn gywir.

Mae hyn yn cynnwys diwygio, ond nid yw'n gyfyngedig i ddiwygio, pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 10.

Safon 106A a 107A

Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | o bod staff perthnasol yn cael eu hatgoffa o ddyletswyddau safonau 106A a 107A ac o sut i weithredu'r safonau hyn wrth recriwtio ar gyfer swyddi.<br>o bod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pob hysbyseb swydd yn pennu a yw'r swydd wedi ei chategoreiddio fel un sy'n gofyn bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu (ai peidio).<br>o bod D yn rhoi trefniadau cyfieithu ar waith at y diben o weithredu dyletswydd safon:<br>• 106A i hysbysebu swyddi yn Gymraeg; a<br>• 107A i gyhoeddi deunydd (a nodir yn rhan (a)-(ch) y safon) yn Gymraeg.<br><br>Safon 106A a 107A: Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rwyf yn cynghori D i adnabod ffyrdd o leihau ar yr angen i gyfieithu cynnwys i'r Gymraeg o'r newydd pob amser (e.e. defnyddio cof cyfieithu/ creu templedi/ adnabod testun gall bod yn gyson ar draws deunydd, fel swydd-disgrifiadau, fel bod ond angen cyfieithu testun i'r Gymraeg unwaith).<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 19/10/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | **CS1035** Ar 08/08/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau | 06/10/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad |

adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.

Mae tair elfen i'r gŵyn hon:
1. Honiad bod y Cyngor wedi defnyddio arwyddion ffordd Saesneg yn unig (gwelwyd ar y 6ed o Awst);
2. Honiad bod gwybodaeth am y ffyrdd ar gau ar wefan y Gymraeg y Cyngor yn Saesneg yn unig;
3. Honiad bod hysbysiadau swyddogol am y ffyrdd yn cau yn Saesneg yn unig.

yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Yn yr achos yma, roedd testun Saesneg yn unig ar dudalennau gwefan Cymraeg y Cyngor. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 52.

Safon 61: Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, os yw'n gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), i sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn Gymraeg. Gall corff unai arddangos y testun Cymraeg ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân. Rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwydd dan sylw. Yn yr achos yma, mae Ironman wedi gosod arwyddion uniaith Saesneg, a hynny ar ran y Cyngor. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 61.

Safon 69: Mae safon 69 yn ei wneud yn ofynnol i gorff gyhoeddi hysbysiadau swyddogol yn Gymraeg, a pheidio trin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r hysbysiadau swyddogol dan sylw'r gŵyn yn rhai statudol sydd wedi eu rhagnodi gan Ddeddfiad. O ganlyniad, maent wedi eu heithrio o ofynion safon 69. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 69.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 69, ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52 a 61.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52 a 61.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl destun ar y dudalen 'Cau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau arbennig' yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw ar gyfer y Gwasanaeth Digidol sy'n gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth ar y wefan, sy'n egluro gofynion safon 52 yn glir. Rhaid i'r canllaw egluro bod angen i bob tudalen gwefan fod ar gael yn llawn yn Gymraeg, ac na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y wefan Gymraeg yn llwyr ymwybodol o ofynion y safon yma.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyrff allanol sy'n darparu gwasanaeth ar ei ran yn ymwybodol o ofynion y safonau a'r angen i gydymffurfio. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'i drefniadau i'w alluogi i ganfod dull o sicrhau bod trydydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | parti sy'n gweithredu ar ei ran yn gweithredu mewn modd sy'n unol â gofynion y safonau.<br>2. Rhaid i'r Cyngor drefnu hyfforddiant i staff perthnasol yr adran sy'n gyfrifol am gau ffyrdd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r ffaith bod y safonau yn parhau yn berthnasol pan fo corff allanol yn codi arwyddion ar ran y Cyngor.<br>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 06/10/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | **CS1093** Ar 14/12/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â newid honedig i bolisi oedd yn effeithio ar gludiant am ddim i'r ysgol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cyngor). Honnodd yr achwynydd fod newid i'r polisi yn golygu nad yw'r Cyngor bellach yn fodlon talu am gludiant | 28/09/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 88: Mae safon 88 yn gofyn fod y Cyngor yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr achos yma, diwygiwyd polisi Derbyniadau Ysgolion 2020-2021 y Cyngor ond nid ydwyf yn fodlon bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i ba effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er bod y brif ystyriaeth tu ôl i'r diwygiad yn ymwneud ag addysg |

am ddim i ddisgyblion sy’n dewis mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn sir gyfagos, hyd yn oed os mai’r ysgol honno yw’r un agosaf. Honnir yr achwynydd mai canlyniad hyn yw bod nifer o deuluoedd yn mynd i orfod peidio â gyrru eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Honnodd yr achwynydd bod nifer o ddisgyblion sy’n byw yn ardal Gilfach Goch ac Evanstown (o fewn bwrdeistref y Cyngor) yn dewis mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dywedodd yr achwynydd mai’r rheswm am hyn yw bod yr ysgolion yn agosach ac yn fwy hwylus i’w mynychu na’r ysgolion cyfrwng Cymraeg agosaf ym Mwrdeistref y Cyngor a hefyd bod yr ysgolion uwchradd hynny yn ddilyniant naturiol o ysgol gynradd y disgyblion hynny. Honnodd yr achwynydd fod rhai disgyblion cyfrwng Saesneg yn dewis mynychu ysgolion dros y ffin am resymau tebyg. Daeth polisi Derbyniadau Ysgolion diwygiedig i rym ym Medi 2022. Honnodd yr achwynydd na chafwyd unrhyw gyfathrebiad gan y Cyngor i Gymraeg, nid oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno fod ystyriaeth gydwybodol o’r effeithiau yma. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 88.

Safon 89: Mae’r safonau llunio polisi yn ymwneud â’r ffordd y mae corff yn ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar y Gymraeg. Mae safon 89 yn gofyn fod y Cyngor yn ystyried a ellid llunio neu newid y penderfyniad polisi fel ei fod yn cynyddu’r effeithiau positif ar y Gymraeg. Yn yr achos yma, diwygiwyd polisi Derbyniadau Ysgolion y Cyngor ond nid ydwyf yn fodlon bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut gellir llunio neu newid y penderfyniad polisi fel ei fod yn cynyddu’r effeithiau positif ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 89.

Safon 90: Ar ôl ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o dan Safon 88, mae Safon 90 yn gofyn i gorff wneud ystyriaethau pellach. Roedd yn rhaid i’r Cyngor ystyried sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Yn yr achos yma, diwygiwyd polisi Derbyniadau Ysgolion y Cyngor ond nid ydwyf yn fodlon bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut y gellid newid y polisi fel na fyddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai’n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hysbysu'r teuluoedd o'r newid yn y polisi dan sylw. Awgrymodd yr achwynydd hefyd nad ydi'r un polisi yn effeithio ar ddisgyblion sydd am fynychu ysgolion cyfrwng Saesneg dros y ffin yn yr un modd a bod y Cyngor yn parhau gyda'r trefniant ar gyfer disgyblion sydd am gael addysg cyfrwng Saesneg dros y ffin. | | Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 90.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 88, 89 a 90.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 88, 89 a 90.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Ar sail Camau Gorfodi gosodwyd fel rhan o ymchwiliad CS098, rwyf wedi penderfynu peidio â gweithredu ymhellach yn yr achos hwn yn unol ag adran 78 Mesur y Gymraeg.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 28/09/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Corff Adnoddau Naturiol Cymru | **CS1109** Ar 30/01/2023, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni bod yr achwynydd (P) wedi derbyn | 27/09/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 5: Os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fydd yn gohebu â'r person hwnnw. Ar 16 Rhagfyr 2022, anfonodd un o swyddogion D |

llythyr Saesneg yn unig gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru (D). Yn ôl P, fe wnaeth hefyd dderbyn galwad ffôn gan un o swyddogion D yn esbonio ei fod yn gweithio o adref ac y byddai'n cymryd mwy o amser ac arian i gyfieithu'r llythyr. Roedd P wedi ei siomi gydag ymateb y swyddog ac yn dymuno cael esboniad ac ymddiheuriad.

lythyr at P. Nid oedd D yn gwybod a oedd P yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrth D yn Gymraeg ai peidio, felly roedd yn ofynnol ar D dan ofynion safon 5 i ddarparu fersiwn Gymraeg o'r llythyr at sylw P ar yr achlysur hwn. Fodd bynnag, fe wnaeth D anfon llythyr Saesneg yn unig at P ac roedd hyn yn gyfystyr â methiant gan D i gydymffurfio â safon 5.

Safon 7: Er mwyn cydymffurfio â safon 7, rhaid i gorff ddatgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Anfonodd un o swyddogion D lythyr at P ar 16 Rhagfyr 2022. Roedd y datganiad gofynnol ar gyfer cydymffurfio â safon 7 yn absennol o'r llythyr a anfonwyd at P. Ni wnaeth y swyddog wneud defnydd o'r templed llythyr corfforaethol — a oedd yn cynnwys y datganiad gofynnol ar gyfer cydymffurfio â'r safon — er mwyn llunio'r llythyr dan sylw. O ganlyniad, fe wnaeth y swyddog anghofio cynnwys y datganiad gofynnol yn y llythyr anfonwyd at P. Mae canllawiau D hefyd yn rhoi arweiniad anghyflawn i staff ar sut i weithredu safon 7.

Safonau 128 a 129: Er mwyn cydymffurfio â safon 128, mae'n ofynnol i D ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'w gyflogeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, eu dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a'u dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae safon 128 yn gosod dyletswydd ar D i ddarparu cyrsiau'r hyn i bob un o'i gyflogeion presennol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod D wedi sicrhau bod pob un o'i gyflogeion wedi bod ar

gyrsiau hyfforddi yn unol â safon 128. Mae tystiolaeth bod D wedi darparu cyrsiau hyfforddi i gyfran o'i gyflogeion yn unig. Mae safon 129 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i'w holl gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae tystiolaeth D yn cyfleu bod gan D drefniadau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 129, ond bod Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5, 7 ac 128.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5, 7 ac 128.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 5: Cyngor yn unol ag adran 77(4) Mesur y Gymraeg
1. Er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael eu hatgoffa i weithredu yn unol â gofynion y safonau gohebiaeth wrth lunio llythyrau, rwyf yn cynghori D i atgoffa swyddogion i ddefnyddio templedi llythyr corfforaethol D (lle maent yn bodoli ac yn berthnasol) i lunio llythyrau.
2. Rwyf yn cynghori D i asesu sampl eang o lythyrau a anfonwyd gan swyddogion D (dros gyfnod o 4 wythnos ar ôl cyhoeddi'r dyfarniad terfynol) i sicrhau eu bod wedi eu hanfon yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 5.

Safon 7: Cyngor yn unol ag adran 77(4) Mesur y Gymraeg
1. Rwyf yn cynghori D i atgoffa swyddogion i wneud defnydd o'i dempledi llythyr corfforaethol (os ydynt yn bodoli ac yn berthnasol) er mwyn sicrhau nad yw'r datganiad gofynnol ar gyfer cydymffurfio â safon 7 yn cael ei hepgor o'r llythyrau a lunnir ganddynt.
2. Rwyf yn cynghori D i sicrhau bod pob templed llythyr a ddefnyddir ar draws y sefydliad yn cynnwys datganiad sy'n diwallu gofynion safon 7.
3. Rwyf yn cynghori D i ddiwygio ei ganllawiau i staff er mwyn sicrhau bod y datganiad y cyfarwyddir i staff ei gynnwys o fewn gohebiaeth yn diwallu gofynion safon 7 yn llawn.

Safon 128: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3) Mesur y Gymraeg
1. Lle nad yw cyflogai eisoes wedi bod ar gwrs hyfforddi yn unol â safon 128, rhaid i D ddarparu cwrs i'r cyflogai hwnnw er mwyn iddynt ddatblygu –
- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
- dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; a
- dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
2. Rhaid i D gadw cofnod o'r nifer a'r canran o'i holl gyflogeion sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 128.
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 9 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ar 27/09/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | **CS1080** Ar 10/11/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mynychodd yr achwynydd gyfarfod ymgysylltu â rhieni yn ysgol ei phlentyn gyda chynrychiolydd o adran addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor) yn holi barn rhieni am ddarpariaeth mewn ysgolion. Honnodd yr achwynydd y dechreuodd y swyddog o'r Cyngor y cyfarfod gan ddweud yn Saesneg - "I will be showing you a Powerpoint presentation in English only but the paper questionnaire at the end of the session is available in Welsh or English. Is everyone happy with this?". Dywedodd yr achwynydd iddi wrthwynebu bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn | 18/09/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 27: Os bydd corff yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid i'r corff ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Yn yr achos yma, fe wnaeth ysgol plentyn yr achwynydd ei gwahodd i gyfarfod grŵp ffocws, ar ran y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau yn eu tystiolaeth na gofynnwyd i fynychwyr y cyfarfod yma a oedden nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 27.<br><br>Safon 27A: Os bydd corff wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi hysbysu'r corff eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i'r corff drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. Gan fod y Cyngor wedi methu i gasglu gwybodaeth am ddewis iaith gwahoddedigion i'r cyfarfod yn unol â Safon 27, nid oedd gan y Cyngor wybodaeth am ganran y mynychwyr oedd yn |

uniaith Saesneg. Honnodd yr achwynydd bod yr aelod o staff y Cyngor wedi ymateb gan ddweud y gallai o bosib geisio siarad am y cyflwyniad yn ddwyieithog ond dim ond awr oedd y cyfarfod felly ni fyddai hynny'n ymarferol. Honnodd yr achwynydd hefyd bod clip fideo a sleidiau uniaith Saesneg wedi ei ddangos hefyd er bod dolen i'r fideo yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd yr achwynydd bod dewis wedi ei roi iddi i aros neu adael y cyfarfod. Dywedodd yr achwynydd ei bod wedi gofyn i'r ysgol cyn cytuno i gyfranogi os byddai'r cyfarfod yn ddwyieithog a nododd yr ysgol bod yr aelod o staff D oedd yn y cyfarfod yn siarad Cymraeg.

dymuno defnyddio'r Gymraeg i allu cydymffurfio gyda Safon 27A. Mae hynny'n gyfystyr â methiant i gydymffurfio gyda Safon 27A.

Safon 27D: Gan fod y Cyngor wedi methu i gasglu gwybodaeth am ddewis iaith gwahoddedigion i'r cyfarfod yn unol â Safon 27, nid oedd gan y Cyngor wybodaeth am ganran y mynychwyr oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg i allu cydymffurfio gyda Safon 27D. Mae hynny'n gyfystyr â methiant i gydymffurfio gyda Safon 27D.

Safon 38: Mae Safon 38 yn dweud bod yn rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg. Yma, mae'r Cyngor wedi cadarnhau mai sleidiau Saesneg yn unig cafodd eu harddangos yn ystod y cyfarfod. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 38.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 27, 27A, 27D a 38.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 27, 27A, 27D a 38.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 27: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn parhau i atgoffa staff am drefniadau cyfarfodydd o dan Safon 27.
2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddynt weithdrefn mewn lle fel eu bod yn atgoffa unrhyw drydydd parti o ofynion safonau 27 os yn trefnu cyfarfodydd ar eu rhan neu ar eu cais.
3. Rhaid i'r Cyngor fonitro sampl o 5 o gyfarfodydd y flwyddyn sydd yn dod o dan ofynion Safon 27 i wirio bod trefniadau y cyfarfodydd dan sylw yn cydymffurfio gyda'r Safon honno.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 38: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
5. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod eu gweithdrefnau a'u canllawiau i staff yn ei wneud yn glir o'r angen i sleidiau mewn cyfarfodydd perthnasol gydymffurfio gyda Safon 38.
6. Rhaid i'r Cyngor hysbysu ac atgoffa staff o'r canllawiau hynny.
7. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5 - 6.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 18/09/2023.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **CS1124** Yn 2021-22 a 2022-23, cynhaliodd fy swyddogion arolygon gwirio o'r gwasanaethau a ddarperir ar rifau ffôn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (D), gan gynnwys prif switsfyrddau Ysbyty Llanidloes (01686 412121), Ysbyty Bronllys (01874 711255), Ysbyty Sir Drefaldwyn (01686 617200) ac Ysbyty Trefyclo (01547 528633). Fe wnaeth canlyniadau'r arolygon yma greu amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â safonau 8; 9 a 10 ynghylch galwadau ffôn. Penderfynais felly cynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg i'r amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â'r safonau hyn. | 08/09/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safonau 8, 9 a 10: Os yw person yn cysylltu â chorff ar un o'i brif rifau ffôn, mae safon 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gyfarch y person hwnnw yn Gymraeg. Pan gwnaed gwiriadau ar rifau ffôn D fel rhan o fy arolygon gwirio, cafwyd sawl achos lle wnaeth yr aelod staff a atebodd yr alwad gyfarch fy swyddog yn Saesneg yn unig. Mae safon 9 yn gosod dyletswydd ar y corff i roi gwybod i'r person bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Gwelwyd sawl achos fel rhan o fy arolygon gwirio o D yn methu â rhoi gwybod i fy swyddog (yn Gymraeg) bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny, hyd nes ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). Pan gwnaed gwiriadau o rifau ffôn D fel rhan o fy arolygon gwirio, fe wnes canfod nifer o achosion lle wnaeth D fethu ag ymateb i fy swyddog yn unol â gofynion y safon. Mewn sawl achos, gwnaeth yr aelod staff a atebodd yr alwad fethu â delio ag unrhyw ran o'r alwad yn Gymraeg. Mewn un achos, fe wnaeth yr aelod staff hefyd drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall, cyn roedd yr alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol". Dim ond pan fo gofyn i ddelio â "phwnc penodol" y mae safon 10 yn galluogi'r aelod staff sy'n ateb yr alwad drosglwyddo'r |

alwad i rywun arall. Nid yw tystiolaeth fy arolygon, canllawiau D na thystiolaeth yr ymchwiliad yn rhoi sicrwydd i mi fod gan D drefniadau digonol ar waith eto i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth ffôn i bersonau mewn modd sy'n cwrdd â gofynion safonau 8, 9 a 10.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 9 a 10.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 9 a 10.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 8; 9 a 10: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
- Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (D) baratoi cynllun gweithredu.

Rwyf yn gwneud hyn at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r safonau isod rhag parhau neu gael ei ailadrodd:
• safonau 8; 9; a 10 ynghylch galwadau ffôn.

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- disgrifiad o bob un o'r camau y bydd D yn eu cymryd ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir uchod ac i

ddatrys y methiannau a’r diffygion penodol a nodwyd yn yr adroddiad;
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o’r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir), gyda phob un o’r camau i’w cyflawni mewn dim mwy na 12 mis o’r dyddiad y mae’r Comisiynydd yn cymeradwyo’r cynllun;
- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu pob un o’r camau a nodir yn y cynllun;
- pwy o’r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd D yn erbyn y cynllun gweithredu;
- disgrifiad o’r drefn oruchwylio a fabwysiedir i sicrhau cyflawniad y cynllun;
- yr adnoddau (e.e. cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o’r camau.

Amserlen:
Rhaid i D lunio drafft cyntaf o’r cynllun gweithredu a rhoi’r drafft hwnnw i’r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf a gynhwysir yn y cynllun gweithredu, rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni pob un o’r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu (erbyn y dyddiad cyflawni perthnasol ar gyfer cyflawni pob cam unigol). Disgwylir i’r cynllun gael ei baratoi a’i gwblhau yn unol â’r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn “Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg.”

Safon 8

Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn rhoi gwersi Cymraeg i holl staff y sefydliad sydd yn gyfrifol am ateb galwadau i'w rhifau ffôn perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â safon 8 ac/neu bod D yn sicrhau bod negeseuon unrhyw systemau ffôn awtomataidd ar ei rifau ffôn perthnasol yn cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â'r safon.

Safon 9
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod holl rifau ffôn perthnasol D yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, ymhob adeg o'r alwad y disgwylir ei wneud yn unol â safon 9.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod D yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn:
• ar ddechrau unrhyw alwad (e.e. gan roi gwybod drwy system ffôn awtomataidd ac/neu drwy'r aelod staff a atebir yr alwad yn rhoi gwybod ac/neu drwy'r aelod staff yn dechrau'r sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn syth), ac
• pan fo aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yn Gymraeg).
- os nad yw D yn cydymffurfio â safon 9 mewn unrhyw fodd arall, bod D yn sefydlu system ffôn awtomataidd ar y rhif ffôn sy'n rhoi gwybod i bob galwr ar ddechrau'r alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, drwy roi dewis

iddynt dderbyn gwasanaeth Cymraeg (neu Saesneg), gan bwyso rhif penodol ar y ffôn.
- bod pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 9 yn egluro'r camau y mae'n rhaid i staff eu cymryd mewn galwad ffôn er mwyn diwallu dyletswyddau safon 9 yn llawn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob canllaw yn cyfleu'r canlynol:
• sut a phryd y mae'n rhaid i staff, sy'n ateb galwadau ar rifau ffôn lle atebir yr alwad yn syth gan aelod staff (ac nid gan system ffôn awtomataidd), rhoi gwybod i bersonau bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn (os nad yw hynny eisoes yn glir i'r person oherwydd bod yr aelod staff wedi dechrau'r sgwrs gyda'r person yn Gymraeg yn syth),
• sut a phryd y mae'n rhaid i staff roi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg yn parhau ar gael ar y ffôn wrth i'r aelod staff drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).

Safon 10
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- os yw person yn cysylltu ag un o rifau ffôn perthnasol D, bod D yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—
(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol os yw'r person yn dymuno i D ddelio â'r alwad dan sylw yn Gymraeg:
• (yn dilyn gwneud y cyfarchiad cyntaf i'r person yn Gymraeg yn unol â safon 8), bod unrhyw gyfarchiadau eraill y mae D yn eu gwneud i'r person hwnnw yn ystod yr alwad yn cael eu gwneud yn Gymraeg;
• bod yr aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu sefydlu natur yr alwad, cynnal sgwrs gychwynnol a delio ag unrhyw ymholiad nad yw'n ymwneud â "phwnc penodol" (e.e. ymholiad cyffredinol), yn Gymraeg;
• sicrhau nad yw'r alwad yn cael ei throsglwyddo gan yr aelod staff sy'n ateb y ffôn i aelod staff arall er mwyn delio â hi yn Gymraeg, cyn bod yr alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol" (e.e. mater arbenigol);
• unwaith y mae'r alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol", ac nad yw'r aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu delio â'r pwnc penodol yn Gymraeg ei hun, bod D yn gwirio a oes aelod o staff arall ar gael sy'n gallu delio â phwnc penodol yr alwad yn Gymraeg, ac os oes un ar gael, bod yr aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i'r aelod staff arall hwnnw i ddelio â'r pwnc penodol yn Gymraeg.
- bod D yn sicrhau bod pob aelod staff perthnasol sy'n gyfrifol am ddelio â galwadau Cymraeg i'w rifau ffôn perthnasol yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg sy'n galluogi iddynt ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â safon 10 (e.e. drwy wella sgiliau iaith Gymraeg y staff presennol i lefel sy'n sicrhau hynny);
- bod D yn diwygio ei holl weithdrefnau, polisïau a chanllawiau a dogfennau perthnasol eraill sy'n berthnasol i gydymffurfio â safon 10 i sicrhau bod holl ofynion safon 10 yn cael eu hadlewyrchu yn glir ac yn gywir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae hyn yn cynnwys diwygio, ond nid yw'n gyfyngedig i ddiwygio, pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 10.<br><br>Safonau 8 i 10<br>Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau bod D:<br>- yn rhoi trefniadau ar waith i ddelio â diffyg hyder a pharodrwydd staff i ddarparu gwasanaethau yn unol â safonau 8 i 10.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 08/09/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir y Fflint | **CS1115** Ar 20/02/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r achwynydd yn honni iddo ffonio Cyngor Sir y Fflint (Cyngor) ar 20/02/23 ar y rhif 01352 752121, dewis yr opsiwn 'Cymraeg' ac yna dewis yr opsiwn 'Ailgylchu'. Eglurodd yr achwynydd ei fod wedi gorfod disgwyl tan y diwrnod canlynol cyn derbyn galwad nol yn y Gymraeg gan aelod o staff y Cyngor. Dywedodd yr achwynydd: | 08/09/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 11: Rhaid i gorff sicrhau pan fo person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, fod y corff yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Yma, er i'r achwynydd ddewis y botwm i dderbyn gwasanaeth ffôn, cafodd yr alwad ei hateb yn Saesneg. Mae hynny yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 11. |

“Wedi ffonio prif rif y cyngor, ceir dewis Cymraeg neu Saesneg. Wedi hynny daw dewislen arall yn Gymraeg sy'n cynnwys pwyso 2 am Ailgylchu (os wyf yn cofio'n iawn). Wedyn atebodd rhywun 'byw' gyda'r cwestiwn 'Do you wish to continue in Welsh?' Doeddwn i ddim yn gweld hynny'n deg ond rwy'n meddwl fy mod wedi ateb er mai Cymraeg fyddai fy newis cyntaf fy mod serch hynny am symud ymlaen â'r mater o dan sylw. Dywedodd y 'llais Saesneg' y byddai rhywun yn galw'n ôl. Heddiw (23/02/23) ffoniodd XXX – yn Gymraeg. Roedd y gwasanaeth ganddi yn ardderchog. Eglurodd bod dod o hyd i swyddogion sy'n siarad Cymraeg yn anodd. Er bod y gwasanaeth a gefais gan XXX yn rhagorol, yr un modd â'r gwasanaeth yn Gymraeg a gefais ddwywaith o'r blaen gan XXX - da iawn eto, roeddwn yn teimlo nad oedd y drefn yn dderbyniol. Rwy'n gofyn a yw'r Cyngor yn gwneud digon o ymdrech i ddarparu gwasanaeth Cymraeg.”

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 11.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 11.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 11: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i’r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff sy’n delio gydag ateb galwadau ffôn i rifau ffôn cyffredinol y Cyngor o’r angen i fod yn effro ar bob achlysur i ddewis iaith y galwr.
2. Rhaid i’r Cyngor ystyried opsiynau os oes ffordd well o ragrybuddio rhai sydd yn derbyn galwadau ffôn bod y galwr wedi dewis yr opsiwn Cymraeg na’r system gyfredol er mwyn atal y methiant rhag digwydd eto.
3. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.
Amserlen: O fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 08/09/2023.

**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| [Cyngor Sir Gâr]() | **CS1106** Ar 19/01/2023, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod adroddiadau Cabinet y Cyngor yn Saesneg yn unig ar y wefan. | 08/09/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 47: Os yw corff yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, ac os nad oes safon arall eisoes yn gosod dyletswydd i gorff lunio'r ddogfen yn Gymraeg (e.e. os nad oes rhaid i gorff lunio dogfen yn Gymraeg yn unol â safonau 40–46), rhaid iddo asesu:<br>- a yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>- a yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'i disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.<br>Yn yr achos yma, cyhoeddodd y Cyngor ddwy ddogfen oedd at ddefnydd y cyhoedd yn Saesneg yn unig ar ei wefan, er bod y pwnc a'r gynulleidfa debygol yn awgrymu y dylai'r dogfennau fod yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 47.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 47.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 47.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 47: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor addasu ei drefniadau mewnol er mwyn gweithredu yn unol â'r dehongliad cywir o safon 47, a sicrhau bod papurau Cabinet yn cael eu llunio yn Gymraeg os yw'n cyrraedd y trothwy dan safon 47. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw neu arweiniad i'w staff sy'n egluro gofynion safon 47 mewn perthynas â phapurau Cabinet, a thynnu sylw staff perthnasol at y ddogfen honno.<br>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gâr ar 08/09/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | **CS1041** Ar 18/8/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd cwyn yr achwynydd yn ymwneud â gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cyngor). Honnodd yr achwynydd, er iddo ddewis Cymraeg fel iaith ar gyfer y wefan, fod y tudalennau yn agor ar fersiwn Saesneg y wefan. Dywedodd yr achwynydd hefyd fod y wefan yn troi nôl i'r Saesneg o'r dudalen Gymraeg. Dywedodd yr achwynydd | 08/09/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Yn yr achos yma, roedd testun Saesneg, gwybodaeth anghywir a geirfa Cymraeg anghywir ar dudalennau talu treth y Cyngor. Roedd y tudalennau yn mynd i'r fersiynau Saesneg dro ar ôl tro hyd yn oed ar ôl i'r achwynydd bwyso'r ddolen dewis iaith Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 52 gan nad oedd testun pob tudalen ar ei wefan yn ymddangos yn Gymraeg ac nad oedd pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn. |

hefyd bod nifer o wallau ar fersiwn Gymraeg y wefan ac o fewn adran lle roedd angen cofrestru a mewngofnodi i wneud taliadau i'r Cyngor megis 'Allgofnodi' yn cael ei defnyddio yn lle 'Mewngofnodi'.

Safon 56: Mae safon 56 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Yn yr achos yma, nid oedd dewislenni ar y tudalennau yn ymwneud â thalu treth Cyngor yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 56 gan nad oedd dewislenni ar bob tudalen ar wefan y Cyngor yn Gymraeg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 52, 56 a chamau gorfodi osodwyd yn dilyn ymchwiliad CSG432 y Comisiynydd ar 8/5/2019.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 52, 56 a chamau gorfodi osodwyd yn dilyn ymchwiliad CSG432 y Comisiynydd ar 8/5/2019.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor greu gweithdrefn wirio fel bod gwefan Gymraeg y Cyngor yn cael ei gwirio yn fisol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn gyda Safon 52. Rhaid i'r dudalen talu treth Cyngor gael ei gwirio yn benodol bob mis fel rhan o'r weithdrefn newydd yma.
2. Rhaid i'r Cyngor gywiro pob camgymeriad iaith neu destun Saesneg sydd yn ymddangos ar dudalennau talu

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | treth y Cyngor. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod cyfieithwyr cymwysedig yn gwirio'r iaith Gymraeg ar y tudalennau yma.<br>3. Rhaid i'r Cyngor atgoffa eu holl staff a bob trydydd parti sydd yn gweithio ar fewnbynnu testun neu ar gynnal y wefan o ofynion Safon 52.<br>4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 3.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 08/09/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1048** Derbyniais gwynion gan bump unigolyn. Roedd y cwynion yma yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys.<br><br>CS1048<br>Cysylltodd aelod o staff y gwasanaeth ffôn 119 gyda'r Comisiynydd gan bod trefniadau y gwasanaeth ffôn wedi newid a bod y cwmni sy'n rhedeg y gwasanaeth ffôn bellach am i'r swyddogion sy'n siarad Cymraeg (a benodwyd yn | 21/08/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 10: .17 Er mwyn cydymffurfio â safon 10, roedd angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod y llinell ffôn 119 yn ddelio â galwadau yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd. Rhaid i'r sefydliad sicrhau eu bod yn delio â galwadau yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd unwaith maent yn ymwybodol bod y galwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Fe gysylltodd yr achwynydd gyda mi i fynegi pryder bod newidiadau wedi digwydd i drefniadau ateb galwadau ar y linell ffôn 119. Fe esboniodd yr achwynydd bod swyddogion benodwyd i ateb galwadau Cymraeg bellach yn ateb galwadau Saesneg hefyd. Darparodd yr achwynydd recordiad o neges ffôn peiriant ateb ar alwad ar 30/11/2022 oedd yn esbonio nad oedd siaradwyr Cymraeg ar gael i ateb yr alwad ac yn |

wreiddiol i gynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg) i ateb galwadau Saesneg hefyd. Roedd yr aelod o staff yn anhapus bod rheolwr di-Gymraeg yn rheoli'r swyddogion Cymraeg a bod hynny yn cael effaith ar iaith gwaith y swyddogion.

CS1057
Bu'n rhaid i'r achwynydd aros am dros ddeg munud i gael ymateb i alwad ffôn i'r gwasanaeth ffôn 119 ar ôl dewis yr opsiwn Cymraeg. Ni chafodd ymateb yn Gymraeg i'w alwad, dim ond neges i ddweud nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael. Cysylltodd gyda'r gwasanaeth ar 26/09/2022.

CS1078 a CS1079
Cysylltodd dau aelod arall o staff y gwasanaeth ffôn 119 ynglŷn â'r newidiadau i'r modd y mae'r gwasanaeth ffôn yn cael ei drefnu a'r effaith negyddol ar yr aelodau o staff oedd yn ateb galwadau Cymraeg.

CS1087
Cysylltodd cyn aelod o staff HGS i gwyno nad oedd gwasanaeth ffôn ar gael yn Gymraeg pan alwodd ar esbonio y dylid galw eto i gael gwasanaeth Cymraeg. Dangosodd galwadau prawf nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael ar dri achlysur pellach. Gan nad oedd gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael ar y linell ffôn 119 ar fwy nag un achlysur - er bod y galwr wedi dewis yr opsiwn Cymraeg, ni lwyddodd Gweinidogion Cymru i gydymffurfio gyda safon 10.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 10: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal arolwg o'r gwasanaeth ffôn sydd ar gael ar y linell ffôn 119 i asesu a yw'r gwasanaeth ffôn ar gael yn Gymraeg mewn modd sy'n cydymffurfio gyda safon 10.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o sgiliau iaith Gymraeg y tîm sy'n delio gyda galwadau i'r linell ffôn 119 er mwyn asesu a oes sgiliau iaith Gymraeg ddigonol o fewn y tîm ac a yw'r gwasanaeth Cymraeg ar gael yr holl oriau mae'r gwasanaeth ffôn ar agor.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 30/11/2022 am 1 o’r gloch. Pan alwodd y gwasanaeth roedd neges peiriant ateb yn esbonio nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Roedd y peiriant yn rhoi neges i bwyso 1 i gael gwasanaeth Saesneg neu galw yn ôl rhyw dro arall. | | 3. Rhaid i Weinidogion Cymru weithredu ar ganlyniadau’r ddau arolwg er mwyn sicrhau bod gwasanaeth ffôn Gymraeg ar gael i’r cyhoedd.<br>4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/08/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | **CS1039** Cynhaliais arolygon gwirio o wasanaethau ffôn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (D) yn 2021-22 a 2022-23. Fe wnaeth canlyniadau’r arolygon yma, ynghyd â hunan-asesiad D o’i wasanaethau, greu amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg yn ymwneud â gwasanaethau ffôn. Hefyd, fe wnaeth diffyg posib yng ngallu D i ddarparu gwasanaethau yn unol â’r safonau ffôn greu amheuaeth pellach o ddiffyg cydymffurfiaeth â’r safonau sy’n ymwneud ag asesu sgiliau, hyfforddiant a recriwtio. | 17/08/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safonau 8, 9 a 10: Os yw person yn cysylltu â chorff ar un o’i brif rifau ffôn, mae safon 8 yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff gyfarch y person hwnnw yn Gymraeg. Mae safon 9 yn gosod dyletswydd ar y corff i roi gwybod i’r person bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff ddelio â’r alwad yn Gymraeg os yw’r person yn dymuno hynny, hyd nes ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo’r alwad i aelod o staff nad yw’n medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oes aelod o staff sy’n siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). Pan wiriodd un o fy swyddogion y gwasanaeth ar brif rif ffôn Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2021–22 a’r gwasanaeth ar brif rif ffôn Ysbyty’r Seren yn 2022–23, fe wnaeth D fethu â chyfarch fy |

Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg i'r amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â'r safonau isod:
- safonau 8; 9; 10; 13 ac 16 ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff;
- safonau 96; 99; 100; 101; 102 a 103 ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu; a
- safon 106 ynghylch recriwtio ac apwyntio.

swyddog yn Gymraeg (yn unol â safon 8). Pan wiriodd un o fy swyddogion y gwasanaeth ffôn ar brif rifau ffôn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2021–22, a'r gwasanaeth ar brif rifau ffôn Ysbyty Cwm Rhondda ac Ysbyty'r Seren yn 2022–23, fe wnaeth D fethu â rhoi gwybod i'r swyddog bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn (yn unol â safon 9). Pan wiriodd fy swyddogion y gwasanaethau ffôn ar brif rifau ffôn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Cwm Cynon, Tywysoges Cymru, Cwm Rhondda, Y Seren a Thywysog Siarl yn 2021–22 a 2022–23, fe wnaeth D fethu â sicrhau bod yr aelod staff a atebodd yr alwad yn delio â'r alwad yn Gymraeg (yn unol â gofynion safon 10).

Safon 13: Pan fydd corff yn cyhoeddi ei brif rifau ffôn, mae safon 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff nodi (yn Gymraeg) ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Ar y tudalennau ar wefan D sydd yn hysbysebu prif rifau ffôn D, nid oedd unrhyw ddatganiad wedi ei gynnwys arnynt oedd yn nodi ei fod yn croesawu galwadau ar y rhifau hynny yn Gymraeg.

Safon 16: Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar un o rifau ffôn perthnasol D, mae safon 16 yn ei gwneud yn ofynnol i D roi gwybod i'r person sy'n galw, yn Gymraeg (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Nid oes gan D unrhyw drefniadau i sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i alwyr pryd bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn unol â gofynion y safon.

Safon 96: Mae safon 96 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion. Nid oes gan D gofnod o sgiliau iaith Gymraeg bron i chwarter (22%) ei gyflogeion. Nid oes felly ganddo’r wybodaeth angenrheidiol i gynnal asesiad ystyrlon o sgiliau Cymraeg ei weithlu yn unol â gofynion y safon.

Safon 99, 100 a 101: Mae rhan (b) o safon 99 yn ei gwneud yn ofynnol i D ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i’w gyflogeion sy’n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio’r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Mae D yn cadarnhau nad yw eto wedi datblygu cwrs hyfforddi at y pwrpas o gydymffurfio â’r elfen yma o’r safon. Mae rhan (a) o safon 99 yn gofyn bod D yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i’w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, gyda safon 100 a 101 yn ei gwneud yn ofynnol i D ddarparu cyfleoedd i gyflogeion gael hyfforddiant, yn rhad ac am ddim, i ddatblygu a gwella eu sgiliau yn yr iaith. Pwrpas y safonau yma yw i alluogi cyflogeion i feithrin eu sgiliau Cymraeg fel eu bod yn gallu cynnal eu swyddogaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae D yn “darparu cyfleoedd” i gyflogeion gael gwersi neu hyfforddiant iaith Gymraeg, drwy gynnig yr opsiwn i gyflogeion gael gwersi neu hyfforddiant o’r fath os ydynt yn dymuno. Nid oes felly tystiolaeth i awgrymu bod D yn methu â chydymffurfio â gofynion rhan (a) safon 99, na safonau 100 a 101. Er hynny, mae nifer y cyflogeion sydd wedi bod yn manteisio ar y cyfleon a ddarperir gan y bwrdd iechyd drwy’r safonau hyn yn isel iawn.

Safon 102 a 103: Er mwyn cydymffurfio â safon 102, mae'n ofynnol i D ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i’w

gyflogeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg, eu dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg a’u dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Mae safon 102 yn gosod dyletswydd ar D i ddarparu cyrsiau’r hyn i bob un o’i gyflogeion presennol. Fodd bynnag, mae D wedi darparu cyrsiau hyfforddi i gyfran o’i gyflogeion yn unig, gan nad yw D wedi sicrhau bod y staff sydd yn gyfrifol am wasanaethau ffôn y bwrdd iechyd wedi bod ar gwrs. Hefyd, nid yw cynnwys y cwrs y mae D wedi bod yn darparu er mwyn cydymffurfio â safon 102 yn ymdrin eg elfen (c) o’r safon, sy’n gofyn i’r corff sicrhau bod y hyfforddiant yn datblygu “dealltwriaeth am sut y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle”. Mae safon 103 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i’w holl gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg. 4 cwrs-hyfforddiant-ymwybyddiaeth-iaith-mwy-na-geiriau.pdf (llyw.cymru). Mae D yn trefnu i’r wybodaeth hon gael ei darparu i’w gyflogeion newydd trwy’r sesiynau cynefino corfforaethol a ddarperir ar ddechrau eu cyfnod gyda’r sefydliad. Nid oes tystiolaeth bod D wedi sicrhau bod ei holl gyflogeion newydd wedi derbyn gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg drwy’r sesiynau anwytho dan sylw, gan nad yw D yn casglu data ynglŷn â phwy sydd wedi derbyn y sesiynau hyn. Ystyriaf felly nad yw D wedi darparu’r wybodaeth i bob un o’i gyflogeion newydd, fel sydd yn ofynnol dan y safon.

Safon 106: Pan fydd corff yn asesu anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, mae safon 106 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swydd dan sylw. Yn dilyn yr asesiad

yma, mae’r safon yn gofyn i’r corff gategoreiddio’r swydd yn unol ag un o’r categorïau canlynol:
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd;
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
- nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Mae tystiolaeth yr ymchwiliad yn amlygu nad yw D yn methu yn y ddyletswydd igategoreiddio swyddi yn unol ag un o’r categorïau uchod.
Er bod D wedi categoreiddio pob swydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau ffôn a hysbysebir yn y deuddeg mis diwethaf yn unol ag un o’r categorïau a nodir yn y safon, nid oes tystiolaeth i gadarnhau ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol, ac wedi cynnal asesiad ystyrlon, o’r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl honno, cyn iddo fynd ati i bennu categori ar gyfer y swydd.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 100 a 101, ond bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 9, 10, 13, 16, 96, 99, 102, 103 a 106.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 9, 10, 13, 16, 96, 99, 102, 103 a 106.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 8; 9; 10; 13; 16; 96; 99; 102; 103 a 106: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
- Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (D) baratoi cynllun gweithredu.

Rwyf yn gwneud hyn at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r safonau isod rhag parhau neu gael ei ailadrodd:
- safonau 8; 9; 10; 13 ac 16 ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff;
- safonau 96; 99; 102 a 103 ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu; a
- safon 106 ynghylch recriwtio ac apwyntio.

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- disgrifiad o bob un o'r camau y bydd D yn eu cymryd i sicrhaucydymffurfiaeth â'r safonau a nodir uchod ac i ddatrys y methiannau a'r diffygion penodol a nodwyd yn yr adroddiad;
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir), gyda phob un o'r camau i'w cyflawni mewn dim mwy na 12 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun;
- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu pob un o'r camau a nodir yn y cynllun;
- pwy o'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd D yn erbyn y cynllun gweithredu;

- disgrifiad o'r drefn oruchwylio a fabwysiedir i sicrhau cyflawniad y cynllun;
- yr adnoddau (e.e. cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Amserlen:
Rhaid i D lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf a gynhwysir yn y cynllun gweithredu, rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni pob un o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu (erbyn y dyddiad cyflawni perthnasol ar gyfer cyflawni pob cam unigol).

Disgwylir i'r cynllun gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn "Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg."

Safon 8
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn rhoi gwersi Cymraeg i holl staff y bwrdd iechyd sydd yn gyfrifol am ateb galwadau i'w brif rifau ffôn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â safon 8;
- bod D yn sicrhau bod negeseuon ar ei systemau ffôn awtomataidd ar ei brif rifau ffôn (gan gynnwys yr un ar rif

ffôn Ysbyty'r Seren) yn cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â'r safon (heb i bersonau orfod pwyso botwm ar y ffôn gyntaf i dderbyn gwasanaeth Cymraeg).

Safon 9
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod holl rifau ffôn perthnasol D yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, ymhob adeg o'r alwad y disgwylir ei wneud yn unol â safon 9.
Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod D yn rhoi gwybod bod gwasanaeth
Cymraeg ar gael ar y ffôn:
• ar ddechrau unrhyw alwad (e.e. gan roi gwybod drwy system ffôn awtomataidd ac/neu drwy'r aelod staff a atebir yr alwad yn rhoi gwybod ac/neu drwy'r aelod staff yn dechrau'r sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn syth), ac
• pan fo aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yn Gymraeg).
- os nad yw D yn cydymffurfio â safon 9 mewn unrhyw fodd arall, bod D yn sefydlu system ffôn awtomataidd ar y rhif ffôn sy'n rhoi gwybod i bob galwr ar ddechrau'r alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, drwy roi dewis iddynt dderbyn gwasanaeth Cymraeg (neu Saesneg), gan bwyso rhif penodol ar y ffôn.
- bod pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 9 yn egluro'r camau y mae'n rhaid i staff eu cymryd mewn galwad ffôn er mwyn diwallu dyletswyddau safon 9 yn llawn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob canllaw yn cyfleu'r canlynol:

• sut a phryd y mae'n rhaid i staff, sy'n ateb galwadau ar rifau ffôn lle atebir yr alwad yn syth gan aelod staff (ac nid gan system ffôn awtomataidd), rhoi gwybod i bersonau bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn (os nad yw hynny eisoes yn glir i'r person oherwydd bod yr aelod staff wedi dechrau'r sgwrs gyda'r person yn Gymraeg yn syth),

• sut a phryd y mae'n rhaid i staff roi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg yn parhau ar gael ar y ffôn wrth i'r aelod staff drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).

Safon 10

Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—

- os yw person yn cysylltu ag un o rifau ffôn perthnasol D, bod D yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—

(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a

(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol os yw'r person yn dymuno i D ddelio â'r alwad dan sylw yn Gymraeg:

• (yn dilyn gwneud y cyfarchiad cyntaf i'r person yn Gymraeg yn unol â safon 8), bod unrhyw gyfarchiadau eraill y mae D yn eu gwneud i'r person hwnnw yn ystod yr alwad yn cael eu gwneud yn Gymraeg;

• bod yr aelod staff sy’n ateb yr alwad yn gallu sefydlu natur yr alwad, cynnal sgwrs gychwynnol a delio ag unrhyw ymholiad nad yw’n ymwneud â “phwnc penodol” (e.e. ymholiad cyffredinol), yn Gymraeg;
• sicrhau nad yw’r alwad yn cael ei throsglwyddo gan yr aelod staff sy’n ateb y ffôn i aelod staff arall er mwyn delio â hi yn Gymraeg, cyn bod yr alwad yn gofyn i ddelio â “phwnc penodol” (e.e. mater arbenigol);
• unwaith y mae’r alwad yn gofyn i ddelio â “phwnc penodol”, ac nad yw’r aelod staff sy’n ateb yr alwad yn gallu delio â’r pwnc penodolyn Gymraeg ei hun, bod D yn gwirio a oes aelod o staff ar gael sy’n gallu delio â phwnc penodol yr alwad yn Gymraeg, ac os oes un ar gael, bod yr atebydd yn trosglwyddo’r alwad i’r aelod staff hwnnw i ddelio â’r pwnc penodol yn Gymraeg.
- bod D yn sicrhau bod pob aelod staff perthnasol sy’n gyfrifol am ddelio â galwadau Cymraeg i’w brif rifau ffôn yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg sy’n galluogi iddynt ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â safon 10 (e.e. drwy wella sgiliau iaith Gymraeg y staff presennol i lefel sy’n sicrhau hynny).
- bod holl weithdrefnau, polisïau a chanllawiau ac unrhyw ddogfennau eraill sy’n berthnasol i gydymffurfiaeth â safon 10 yn adlewyrchu holl ofynion safon 10 yn glir ac yn gywir.

Safon 13
Disgwylir i’r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn gwerthuso ac yn sicrhau bod datganiad sy’n nodi bod D yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg wedi ei gynnwys ar bob darn o ddeunydd sydd yn cyhoeddi rhifau

ffôn D (e.e. gwefannau/ dogfennau/ deunydd hysbysebu/ llythyrau ac arwyddion).

Safon 16
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn rhoi trefniadau ar waith i roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn y sefyllfaoedd sy'n berthnasol i safon 16, pryd bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael nesaf ar rif ffôn.

Safon 96
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D wedi cofnodi sgiliau iaith Gymraeg 90% o'i gyflogeion.
- bod D yn rhoi trefniadau ar waith at y diben o gael cofnod llawn o sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion;
- bod gan D weithdrefn ar gyfer asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion.
- bod D yn defnyddio'r wybodaeth ynghylch sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion i wneud asesiadau ystyrlon o sgiliau iaith y gweithlu (at y diben o sicrhau ei fod yn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â'r safonau).

Safon 99
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn datblygu hyfforddiant yn unol â rhan (b) y safon, er mwyn sicrhau y gall ddarparu cyfleoedd i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

- bod staff yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan D yn unol â'r safon i gael gwers Cymraeg sylfaenol (er mwyn sicrhau y gall staff gyflawni eu swyddogaethau yn unol â safonau'r Gymraeg).

Safonau 102 a 103
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- yn unol â safon 102, bod D wedi darparu cyrsiau hyfforddi i bob un o'i gyflogeion presennol er mwyn iddynt ddatblygu –
• ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
• dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; a
• dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- yn unol â safon 103, bod D wedi darparu gwybodaeth i bob un o'i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg (drwy sicrhau, er enghraifft, bod pob cyflogai newydd wedi bod ar gwrs ymwybyddiaeth iaith Gymraeg sy'n cynnwys yr wybodaeth hon).
- bod D yn cadw cofnod o'r nifer a'r canran o'i holl gyflogeion sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 102 ac o'i holl gyflogeion newydd sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 103.

Safon 106
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | - bod gan D weithdrefn ar gyfer asesu yr angen am sgiliau yn y Gymraeg wrth asesu anghenion swyddi gwag a newydd.<br>- bod D yn cynnal asesiad ystyrlon o’r angen am sgiliau yn y Gymraeg cyn pennu categori ar gyfer swydd yn unol â’r categorïau a nodir yn y safon.<br>- bod D, wrth gynnal asesiad yn unol â’r safon, yn ystyried capasiti o fewn maes gwaith y swydd i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â’r safonau ac yn ystyried a ddylai’r swydd gael eu hysbysebu fel swydd ble mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu fod angen ei dysgu.<br><br>Safonau 100 a 101: Cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg<br>1. Rwyf yn cynghori D i roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod ei staff yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan D (yn unol â safonau 100 a 101) i fynd ar gyrsiau pellach ar gyfer datblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg (er mwyn sicrhau y gall staff gyflawni eu swyddogaethau yn unol â safonau’r Gymraeg).<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 17/08/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Y Brifysgol Agored | **CS1111** Ar 09/02/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn | 17/08/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 90: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 90 mae angen i’r Brifysgol Agored ganiatáu i fyfyrwyr gyflwyno gwaith ysgrifenedig fel rhan o aseiniad neu arholiad yn Gymraeg. |

ddilys. Derbyniodd un o fyfyrwyr y brifysgol neges gan un o'i ddarlithwyr oedd yn rhoi amod y byddai angen i'r myfyriwr gyflwyno traethawd yn Saesneg. Roedd y neges yn nodi mai "the language of the OU is English". Fe wnaeth cwyn yr achwynydd greu amheuaeth nad yw'r sefydliad wedi darparu cyrsiau hyfforddi i ddatblygu dealltwriaeth eu cyflogeion o'r angen i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg.

Roedd angen iddynt hefyd hysbysu'r myfyrwyr o'r caniatâd yma a'u hysbysu na fydd y gwaith ysgrifenedig yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir i'r sefydliad yn Saesneg. Yn yr achos yma, fe wnaeth aelod o staff y brifysgol roi sylw ar ddogfen oedd yn cynnwys amod y dylai traethawd hir yr achwynydd gael ei gyflwyno yn Saesneg. Fe gyflwynodd y brifysgol dystiolaeth oedd yn dangos eu bod wedi cymryd camau i gydymffurfio gyda safon 90 drwy gynnwys gwybodaeth ar y porth i fyfyrwyr ac ar dudalen penodol ar gyfer y cwrs yma. Er bod y brifysgol wedi cymryd camau i gydymffurfio gyda safon 90 drwy hysbysu myfyrwyr bod caniatâd iddynt gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, drwy osod amod ar yr achwynydd i gyflwyno traethawd hir yn Saesneg, ni wnaeth y brifysgol gydymffurfio gyda safon 90 yn yr achos yma.

Safon 140: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 140, mae'n ofynnol i'r brifysgol ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'w gyflogeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, eu dealltwriaeth o'r dyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a'u dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn yr achos yma, fe wnaeth cwyn yr achwynydd greu amheuaeth nad yw'r brifysgol wedi darparu cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'w holl gyflogeion. Mae safon 140 yn gosod dyletswydd ar y brifysgol i ddarparu'r cyrsiau yma i bob un o'i gyflogeion. Dangosodd tystiolaeth y brifysgol nad ydynt wedi sicrhau bod pob un o'i gyflogeion wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â safon 140, yn wir mae'n ymddangos bod llai na 5% o staff y brifysgol wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth iaith ers i'r brifysgol ddod o dan ddyletswydd i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg yn 2018.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Y Brifysgol Agored wedi methu â chydymffurfio â safon 90 a 140.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Y Brifysgol Agored wedi methu â chydymffurfio â safon 90 a 140.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 140: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol Agored i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safon 140.
Disgwylir i'r cynllun gweithredu gynnwys camau, ymysg camau eraill, i sicrhau—
- bod y Brifysgol Agored yn cynnal awdit o'i gyflogeion presennol i sefydlu ac adrodd ar y canlynol:
▪ nifer y cyflogeion presennol sydd gan y brifysgol;
▪ nifer a chanran y cyflogeion hynny nad ydynt wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â gofynion safon 140;
- bod y brifysgol yn llunio ac yn gweithredu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar sail canlyniadau'r awdit er mwyn darparu cyrsiau hyfforddi i bob un o'i gyflogeion nad ydynt eto wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â safon 140, o fewn oes y cynllun gweithredu;

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o’r camau y bydd y brifysgol yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda safon 140 drwy ddarparu cyrsiau i bob un o’i gyflogeion er mwyn datblygu :
(a) ymwybyddiaeth o’r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a’i lle yn niwylliant Cymru);
(b) dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg;
(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.
- Amserlen ar gyfer cyflawni pob un o’r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir).
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o’r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o’r camau.

Rhaid i’r Brifysgol Agored gydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 140 o fewn 12 mis o’r dyddiad y mae’r Comisiynydd yn cymeradwyo’r cynllun;

Disgwylir i’r cynllun gael ei baratoi a’i gwblhau yn unol â’r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn “Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg.”

Amserlen:
Rhaid i’r Brifysgol Agored lunio drafft cyntaf o’r cynllun gweithredu a rhoi’r draffthwnnw i’r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf yn y cynllun gweithredu, rhaid i'r brifysgol ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni pob un o'r camau yn y cynllun gweithredu.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i'r Brifysgol Agored ar 17/08/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Caerdydd | **CS1094** Ar 20/12/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn honni bod gwaith paent mewn rhai o barciau Caerdydd yn Saesneg yn unig. Enghreifftiau a roddwyd gan yr achwynydd yw'r gair 'jump' ar y llawr, a siâp neidr gyda'r wyddor Saesneg yn unig. Honnai'r achwynydd nad yw wedi dod ar draws parc yn y Sir gyda geiriau Cymraeg o gwbl. | 16/08/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 61: Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid iddo sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn Gymraeg, a rhaid peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai meysydd chwarae o fewn y Sir yn cynnwys testun Saesneg yn unig ar y llawr, sef Parc Caedelyn a Gerddi Grange. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 61.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 61.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 61. |

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor ganfod datrysiad addas er mwyn sicrhau nad oes testun Saesneg yn unig yn bodoli mewn meysydd chwarae, a gwneud y newidiadau angenrheidiol i gyflawni gofynion safon 61. Mae hyn yn benodol i Barc Caedelyn a Gerddi Grange, ac unrhyw destun arall sydd wedi ei osod ar ôl dyddiad gosod y safon.
2. Rhaid i'r Cyngor addasu'r canllaw/crynodeb sydd ganddo sy'n ymwneud â chynllunio meysydd chwarae i gynnwys adran sy'n egluro'n glir beth yw gofynion safon 61, ac egluro bod rhaid i unrhyw destun, boed ar y llawr neu ar arwydd, fod yn Gymraeg, ac na ddylai'r testun Cymraeg gael ei drin yn llai ffafriol.
3. Rhaid i'r Cyngor rannu'r canllaw diwygiedig uchod gyda'r staff sy'n ymwneud â'r broses gynllunio o fewn Cyfarwyddiaeth Parciau, Chwaraeon a Harbwr y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1-3.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 16/08/2023.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | **CS1040** Cynhaliais arolygon gwirio o wasanaethau ffôn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (D) yn 2021-22 a 2022-23. Fe wnaeth canlyniadau’r arolygon yma, ynghyd â hunan-asesiad D o’i wasanaethau, greu amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg yn ymwneud â gwasanaethau ffôn. Fe wnaeth diffyg posib yng ngallu D i ddarparu gwasanaethau yn unol â’r safonau ffôn greu amheuaeth pellach o ddiffyg cydymffurfiaeth â’r safonau sy’n ymwneud ag asesu sgiliau, hyfforddiant a recriwtio.<br>Penderfynais gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg i’r amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â’r safonau perthnasol isod:<br>- safonau 8; 9; 10; 13 ac 16 ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff;<br>- safonau 96; 99; 100; 101; 102 a 103 ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu; a<br>- safon 106 ynghylch recriwtio ac apwyntio. | 15/08/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safonau 8, 9 a 10: Os yw person yn cysylltu â chorff ar un o’i brif rifau ffôn, mae safon 8 yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff gyfarch y person hwnnw yn Gymraeg. Pan gwnaed gwiriadau ar rifau ffôn D fel rhan o fy arolygon gwirio, cafwyd achosion lle wnaeth yr aelod staff a atebodd yr alwad gyfarch fy swyddog yn Saesneg yn unig. Mae safon 9 yn gosod dyletswydd ar y corff i roi gwybod i’r person bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Gwelwyd sawl achos fel rhan o fy arolygon gwirio o D yn methu â rhoi gwybod i fy swyddog (yn Gymraeg) bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn. Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff ddelio â’r alwad yn Gymraeg os yw’r person yn dymuno hynny, hyd nes ei bod yn angenrheidiol i drosglwyddo’r alwad i aelod o staff nad yw’n medru siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth ar bwnc penodol (os nad oes aelod o staff sy’n siarad Cymraeg ar gael i wneud hynny). Pangwnaed gwiriadau o rifau ffôn D fel rhan o fy arolygon gwirio, fe wnes canfod nifer o achosion lle wnaeth D fethu â delio â’r alwad yn Gymraeg yn unol â gofynion y safon. Nid yw tystiolaeth fy arolygon, canllawiau’r ymddiriedolaeth na thystiolaeth yr ymchwiliad yn rhoi sicrwydd i mi fod gan D drefniadau digonol ar waith i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth ffôn i bersonau mewn modd sy’n cwrdd â gofynion safonau 8, 9 a 10.<br><br>Safon 13: Pan fydd corff yn cyhoeddi ei brif rifau ffôn, neu unrhyw rifau sydd ganddo ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, mae safon 13 yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff nodi (yn Gymraeg) ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Ar rai tudalennau ar |

wefannau D oedd yn hysbysebu rhifau ffôn perthnasol D, nid oedd unrhyw ddatganiad wedi ei gynnwys arnynt oedd yn nodi (yn Gymraeg) ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.

Safon 16: Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar un o rifau ffôn perthnasol D, mae safon 16 yn ei gwneud yn ofynnol i D roi gwybod i'r person sy'n galw, yn Gymraeg (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Pan ffoniodd un o fy swyddogion rhif ffôn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel rhan o fy arolygon gwirio, fe wnaeth D fethu â rhoi gwybod i fy swyddog (pan nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y pryd) pryd bydd y gwasanaeth Cymraeg ar gael. Hefyd, nid yw rhai o ganllawiau D yn adlewyrchu gofynion y safon hon yn gywir ac yn arwain staff i weithredu yn groes i'r ddyletswydd.

Safon 96: Mae safon 96 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion. Yn ôl data a gasglwyd gan D yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf, nid oes gan D gofnod o sgiliau iaith Gymraeg 15.5% o'i gyflogeion. Mae methiant D i gasglu a chadw cofnod cyflawn o sgiliau Cymraeg ei holl weithwyr yn y sefydliad yn golygu nad oes gan D yr wybodaeth angenrheidiol i gynnal asesiad ystyrlon o sgiliau Cymraeg y gweithlu yn unol â gofynion safon 96.

Safon 99, 100 a 101: Mae rhan (a) o safon 99 yn gofyn bod D yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, gyda safon 100 a 101 yn ei gwneud yn ofynnol i D ddarparu cyfleoedd i gyflogeion gael

hyfforddiant, yn rhad ac am ddim, i ddatblygu a gwella eu sgiliau yn yr iaith. Pwrpas y safonau yma yw i alluogi cyflogeion i feithrin eu sgiliau Cymraeg fel eu bod yn gallu cynnal eu swyddogaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae D yn "darparu cyfleoedd" i gyflogeion gael gwersi neu hyfforddiant iaith Gymraeg, drwy gynnig yr opsiwn i gyflogeion gael gwersi neu hyfforddiant o'r fath os ydynt yn dymuno. Nid oes felly tystiolaeth i awgrymu bod D yn methu â chydymffurfio â gofynion rhan (a) safon 99, 100 na 101. Mae rhan (b) o safon 99 yn ei gwneud yn ofynnol i D ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Nid oes tystiolaeth i gadarnhau bod D wedi datblygu cwrs ar gyfer cydymffurfio â'r elfen benodol yma o'r safon.

Safonau 102 a 103: Er mwyn cydymffurfio â safon 102, mae'n ofynnol i D ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'w gyflogeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, eu dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a'u dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae safon 102 yn gosod dyletswydd ar D i ddarparu cyrsiau'r hyn i bob un o'i gyflogeion presennol. Nid yw tystiolaeth yr ymchwiliad yma yn cadarnhau bod D wedi sicrhau hynny, ac ymddengys mai dim ond cyfran o'i gyflogeion presennol sydd wedi cwblhau cwrs hyd yma. Mae safon 103 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i'w holl gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Nid oes gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi bod yn cael ei chynnwys fel rhan o'r broses gynefion ar gyfer cyflogeion newydd, ac o ganlyniad, nid

ymddengys bod D wedi bod yn diwallu'r gofyniad dan safon 103 o sicrhau bod ei holl gyflogeion newydd yn derbyn y wybodaeth hon.

Safon 106: Pan fydd corff yn asesu anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, mae safon 106 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swydd dan sylw. Yn dilyn yr asesiad yma, mae'r safon yn gofyn i'r corff gategoreiddio'r swydd yn unol ag un o'r categorïau canlynol:
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
- nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Mae tystiolaeth yr ymchwiliad yn amlygu nad yw D pob amser yn cynnal asesiad ystyrlon o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swydd newydd neu wag. Er bod tystiolaeth i gadarnhau bod swyddi fel arfer yn cael eu categoreiddio yn unol ag un o'r categorïau a nodir yn y safon, nid yw D pob amser yn cynnal asesiad ystyrlon o'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swyddi hynny, cyn iddo fynd ati i bennu categori ar gyfer y swydd.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi methu â chydymffurfio â safon 100 a 101, ond bod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 9, 10, 13, 16, 96, 99, 102, 103 a 106.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 9, 10, 13, 16, 96, 99, 102, 103 a 106.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 8; 9; 10; 13; 16; 96; 99; 102; 103 a 106: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (D) baratoi cynllun gweithredu.

Rwyf yn gwneud hyn at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r safonau isod rhag parhau neu gael ei ailadrodd:
- safonau 8; 9; 10; 13 ac 16 ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff;
- safonau 96; 99; 102 a 103 ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu; a
- safon 106 ynghylch recriwtio ac apwyntio.

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- disgrifiad o bob un o'r camau y bydd D yn eu cymryd ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir uchod ac i ddatrys y methiannau a'r diffygion penodol a nodwyd yn yr adroddiad;
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir), gyda phob un o'r camau i'w

cyflawni mewn dim mwy na 12 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun;
- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu pob un o'r camau a nodir yn y cynllun;
- pwy o'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd D yn erbyn y cynllun gweithredu;
- disgrifiad o'r drefn oruchwylio a fabwysiedir i sicrhau cyflawniad y cynllun;
- yr adnoddau (e.e. cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Amserlen:
Rhaid i D lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf a gynhwysir yn y cynllun gweithredu, rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni pob un o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu (erbyn y dyddiad cyflawni perthnasol ar gyfer cyflawni pob cam unigol). Disgwylir i'r cynllun gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn "Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg."

Safon 8
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn rhoi gwersi Cymraeg i holl staff y sefydliad sydd yn gyfrifol am ateb galwadau i'w rhifau ffôn perthnasol er

mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â safon 8; ac/neu
- bod D yn sicrhau bod negeseuon unrhyw systemau ffôn awtomataidd ar ei rifau ffôn perthnasol yn cyfarch personau yn Gymraeg yn unol â'r safon.

Safon 9
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod holl rifau ffôn perthnasol D yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, ymhob adeg o'r alwad y disgwylir ei wneud yn unol â safon 9.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod D yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn:
• ar ddechrau unrhyw alwad (e.e. gan roi gwybod drwy system ffôn awtomataidd ac/neu drwy'r aelod staff a atebir yr alwad yn rhoi gwybod ac/neu drwy'r aelod staff yn dechrau'r sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn syth), ac
• pan fo aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yn Gymraeg).
- os nad yw D yn cydymffurfio â safon 9 mewn unrhyw fodd arall, bod D yn sefydlu system ffôn awtomataidd ar y rhif ffôn sy'n rhoi gwybod i bob galwr ar ddechrau'r alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, drwy roi dewis iddynt dderbyn gwasanaeth Cymraeg (neu Saesneg), gan bwyso rhif penodol ar y ffôn.
- bod pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 9 yn egluro'r

camau y mae'n rhaid i staff eu cymryd mewn galwad ffôn er mwyn diwallu dyletswyddau safon 9 yn llawn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob canllaw yn cyfleu'r canlynol:
• sut a phryd y mae'n rhaid i staff, sy'n ateb galwadau ar rifau ffôn lle atebir yr alwad yn syth gan aelod staff (ac nid gan system ffôn awtomataidd), rhoi gwybod i bersonau bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn (os nad yw hynny eisoes yn glir i'r person oherwydd bod yr aelod staff wedi dechrau'r sgwrs gyda'r person yn Gymraeg yn syth),
• sut a phryd y mae'n rhaid i staff roi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg yn parhau ar gael ar y ffôn wrth i'r aelod staff drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).

Safon 10
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- os yw person yn cysylltu ag un o rifau ffôn perthnasol D, bod D yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—
(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol os yw'r person yn dymuno i D ddelio â'r alwad dan sylw yn Gymraeg:

• (yn dilyn gwneud y cyfarchiad cyntaf i'r person yn Gymraeg yn unol â safon 8), bod unrhyw gyfarchiadau eraill y mae D yn eu gwneud i'r person hwnnw yn ystod yr alwad yn cael eu gwneud yn Gymraeg;
• bod yr aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu sefydlu natur yr alwad, cynnal sgwrs gychwynnol a delio ag unrhyw ymholiad nad yw'n ymwneud â "phwnc penodol" (e.e. ymholiad cyffredinol), yn Gymraeg;
• sicrhau nad yw'r alwad yn cael ei throsglwyddo gan yr aelod staff sy'n ateb y ffôn i aelod staff arall er mwyn delio â hi yn Gymraeg, cyn bod yr alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol" (e.e. mater arbenigol);
• unwaith y mae'r alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol", ac nad yw'r aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu delio â'r pwnc penodol yn Gymraeg ei hun, bod D yn gwirio a oes aelod o staff arall ar gael sy'n gallu delio â phwnc penodol yr alwad yn Gymraeg, ac os oes un ar gael, bod yr aelod staff yn trosglwyddo'r alwad i'r aelod staff arall hwnnw i ddelio â'r pwnc penodol yn Gymraeg.
- bod D yn sicrhau bod pob aelod staff perthnasol sy'n gyfrifol am ddelio â galwadau Cymraeg i'w rifau ffôn perthnasol yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg sy'n galluogi iddynt ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â safon 10 (e.e. drwy wella sgiliau iaith Gymraeg y staff presennol i lefel sy'n sicrhau hynny).
- bod D yn diwygio ei holl weithdrefnau, polisïau a chanllawiau a dogfennau perthnasol eraill sy'n berthnasol i gydymffurfio â safon 10 i sicrhau bod holl ofynion safon 10 yn cael eu hadlewyrchu yn glir ac yn gywir.

Mae hyn yn cynnwys diwygio, ond nid yw'n gyfyngedig i ddiwygio, pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 10.

Safon 13
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn gwerthuso ac yn sicrhau bod datganiad sy'n nodi bod D yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg wedi ei gynnwys ar bob tudalen we a darn o ddeunydd sydd yn cyhoeddi rhifau ffôn D (e.e. gwefannau/dogfennau/deunydd hysbysebu/llythyrau ac arwyddion).

Safon 16
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn rhoi trefniadau ar waith i roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn y sefyllfaoedd sy'n berthnasol i safon 16, pryd bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael nesaf ar rif ffôn.

Safon 96
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D wedi cofnodi sgiliau iaith Gymraeg 100% o'i gyflogeion.
- bod gan D weithdrefn gadarn ar gyfer asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion.
- bod D yn defnyddio'r wybodaeth ynghylch sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion i wneud asesiadau ystyrlon o sgiliau iaith y gweithlu (at y diben o sicrhau ei fod yn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â'r safonau).

Safon 99
Disgwylir i’r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn datblygu hyfforddiant yn unol â rhan (b) y safon, er mwyn sicrhau y gall ddarparu cyfleoedd i gyflogeion sy’n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio’r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.
- bod staff yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan D yn unol â’r safon i gael gwers Cymraeg sylfaenol (er mwyn sicrhau y gall staff gyflawni eu swyddogaethau yn unol â safonau’r Gymraeg).

Safonau 102 a 103
Disgwylir i’r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- yn unol â safon 102, bod D wedi darparu cyrsiau hyfforddi i bob un o’i gyflogeion presennol er mwyn iddynt ddatblygu –
• ymwybyddiaeth o’r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a’i lle yn niwylliant Cymru);
• dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg; a
• dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.
- yn unol â safon 103, bod D wedi darparu gwybodaeth i bob un o’i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg (drwy sicrhau, er enghraifft, bod pob cyflogai newydd wedi bod ar gwrs ymwybyddiaeth iaith Gymraeg sy’n cynnwys yr wybodaeth hon).

- bod D yn cadw cofnod o’r nifer a’r canran o’i holl gyflogeion sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 102 ac o’i holl gyflogeion newydd sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 103.

Safon 106
Disgwylir i’r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod gan D weithdrefn ar gyfer asesu yr angen am sgiliau yn y Gymraeg wrth asesu anghenion swyddi gwag a newydd.
- bod D yn cynnal asesiad ystyrlon o’r angen am sgiliau yn y Gymraeg cyn pennu categori ar gyfer swydd yn unol â’r categorïau a nodir yn y safon.
- bod D, wrth gynnal asesiad yn unol â’r safon, yn ystyried capasiti o fewn maes gwaith y swydd i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â’r safonau ac yn ystyried a ddylai’r swydd gael eu hysbysebu fel swydd ble mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol (neu fod angen ei dysgu).

Safonau 100 a 101: Cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg
1. Rwyf yn cynghori D i roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod ei staff yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan D (yn unol â safonau 100 a 101) i fynd ar gyrsiau pellach ar gyfer datblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg (er mwyn sicrhau y gall staff gyflawni eu swyddogaethau yn unol â safonau’r Gymraeg).

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar 15/08/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir y Fflint | **CS1031** Ar 04/08/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd am Gyngor Sir y Fflint (Cyngor), derbyniais gwynion pellach gan yr un achwynydd yn Hydref a Tachwedd 2022. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Mae tair rhan i gŵyn yr achwynydd. Honnir yr achwynydd iddo yrru nifer o e-byst at y Cyngor yn y Gymraeg yn Mehefin, Gorffennaf a Hydref 2022 a bod yr achwynydd unai heb dderbyn ymateb neu bod oedi yn derbyn ymatebion. Honnir yr achwynydd iddo hefyd dderbyn cylchlythyr uniaith Saesneg gan y Cyngor ar 10/10/22. Yn olaf, honnir yr achwynydd iddo ffonio’r Cyngor ar nifer o achlysuron yn mis Gorffennaf, Hydref a Tachwedd 2022 ar rifau cyffredinol y Cyngor a methu derbyn gwasanaeth Cymraeg. | 03/08/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae Safon 1 yn rhoi gofyniad ar sefydliad os bydden nhw’n cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson a bod angen ateb ar y person hwnnw, bod yn rhaid i’r sefydliad ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Roedd angen ateb ar e-bost yr achwynydd ac roedd angen i’r ateb hwnnw fod yn Gymraeg. Ni dderbyniodd yr achwynydd unrhyw ymateb i’w e-bost cyntaf at y Cyngor hyd nes iddo yrru e-bost arall at y Cyngor. Mae’n ymddangos fod y ffaith fod e-bost Cymraeg yr achwynydd wedi gorfod cael ei yrru i’w gyfieithu wedi cyfrannu at y diffyg ateb yma. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 1.<br><br>Safon 4: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 4 mae’n rhaid i’r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni pan maent yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau. Rhaid gwneud hyn beth bynnag fo dewis iaith y defnyddiwr. Yn yr achos yma, mae’n amlwg fod y Cyngor wedi gyrru cylchlythyr uniaith Saesneg at yr achwynydd. Ar y sail bod y Cyngor yn anfon gohebiaeth at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig heb anfon y fersiwn Gymraeg yr un pryd, mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 4. |

Safon 5: Os nad ydi sefydliad gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthynt yn y Gymraeg, rhaid i’r sefydliad ddarparu fersiwn Gymraeg o’r ohebiaeth pan yn gohebu â’r person hwnnw. Mae’n ymddangos fod y Cyngor wedi cofrestru pob person i dderbyn cylchlythyr Saesneg hyd nes eu bod wedi rhoi gwybod eu bod am dderbyn cylchlythyr Cymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 5.

Safon 8: Rhaid i gorff sicrhau pan fydd person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o’u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, bod y person sydd yn cysylltu yn derbyn cyfarchiad yn y Gymraeg. Nid ydym wedi derbyn tystiolaeth gan y Cyngor na’r achwynydd yn benodol am negeseuon cyfarch y Cyngor. Wrth geisio rhif ffôn y Cyngor, derbyniwyd fy swyddog neges wedi ei recordio yn ddwyieithog. Yn absenoldeb tystiolaeth bellach felly, nid oes gennyf reswm i ystyried y Safon yma ymhellach.

Safon 9: Pan fydd person yn cysylltu â chorff ar eu prif rif ffôn (neu ar un o’u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i’r corff roi gwybod i’r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae’r Cod Ymarfer yn cadarnhau fod enghraifft o gorff yn ‘rhoi gwybod’ bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael yn cynnwys rhoi y dewis hwnnw i bersonau drwy bwyso rhif penodol ar y ffôn. Mae’r achwynydd wedi cadarnhau ei fod, wrth geisio rhif y Cyngor wedi cael dewis i bwyso rhif i gael gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hyn yn gyfystyr â chydymffurfiaeth gyda Safon 9.

Safon 11: Rhaid i gorff sicrhau pan fo person yn cysylltu â hwy ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, fod y corff yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny - (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Ni dderbyniodd yr achwynydd wasanaeth Cymraeg yn ystod galwad ffôn i'r Cyngor yn Gorffennaf, Hydref a Tachwedd 2022. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 11. Ymhellach, mai'n ymddangos ar amser cyflwyno tystiolaeth y Cyngor nad oedd gan y Cyngor aelod o staff llawn amser yn ateb galwadau ffôn Cymraeg i prif rifau ffôn y Cyngor ac na allen nhw warantu gwasanaeth ffôn Cymraeg o'i prif rifau ffôn. Mae hynny yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 11.

Safon 17: Rhaid i gorff sicrhau pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eu prif rif ffôn (neu ar un o'u prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, eu bod yn rhoi gwybod i'r personau sy'n galw (unai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gan fod yr alwad yn ddarostyngedig i'r safonau, yn ystod oriau gwaith ac nad oedd yr achwynydd wedi cyrraedd man yn y sgwrs lle'r oedd yn delio gyda phwnc penodol, nid yw safon 17 yn berthnasol yma. Dylai'r achwynydd fod wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 8, 9 ac 17, ond bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4, 5 ac 11.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4, 5 ac 11.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad yw unrhyw ohebiaeth sydd yn dod o dan Safon 4 y mae'r Cyngor yn ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn cynnwys, (ond heb ei gyfyngu i) cylchlythyron.

2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod eu canllawiau gohebiaeth yn cael eu haddasu i sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael eu egluro yn glir i staff.

Rhaid i'r canllawiau egluro'r canlynol :
a) Pa fath o ohebiaeth sy'n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy'n mynd at 'nifer o bersonau'.
b) Na ddylid anfon gohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig.

3. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau eu bod yn tynnu sylw staff perthnasol at y newidiadau i'r canllawiau.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 11: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.

2. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda safon 11 wrth ateb galwadau i rifau ffôn cyffredinol y Cyngor.

3. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau mae'r Cyngor am eu cymryd sydd am eu galluogi i gydymffurfio gyda safon 11 wrth ateb galwadau i'w rhifau ffôn cyffredinol.

4. Rhaid i'r camau o fewn y Cynllun Gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:
- roi gweithdrefn mewn lle fel bod defnyddwyr sydd yn dewis gwasanaeth Cymraeg wrth ffonio un o rifau ffôn cyffredinol y Cyngor yn derbyn y gwasanaeth Cymraeg hwnnw ar bob achlysur, yn unol â safon 11.

- darparu canllaw neu ddiwygio canllaw sydd eisoes yn bodoli, i'r holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn i rifau cyffredinol y Cyngor ar y weithdrefn newydd;
- sicrhau bod ganddynt adnoddau i ddelio gyda pob galwad dderbynnir i rifau cyffredinol yn unol â Safon 11.
- Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod digon o siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan alwadau i ddelio gyda galwadau ffôn gan bersonau sy'n dymuno cynnal yr alwad yn Gymraeg, yn unol â safon 11.

5. Rhaid i'r Cyngor roi hyfforddiant i holl staff sydd yn delio gyda galwadau ffôn ar:
- sut i roi gwasanaeth Cymraeg yn unol â Safon 11.
- roi hyfforddiant i staff ar y weithdrefn newydd.

6. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun
- sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y cynllun.
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda pob un o'r camau i'w gyflawni mewn dim mwy na 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 03/08/2023.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | **CS1139** Ar 18 Ebrill 2023 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cyhoeddi cylchgrawn a oedd bron yn gyfan gwbl yn Saesneg. Coast to Coast yw'r prif gyhoeddiad twristiaeth yn Sir Benfro gyda miliwn a mwy o ddarllenwyr. Fe'i cyhoeddir adeg y Pasg a'i ddosbarthu yn ystod y prif dymor twristiaeth. Mae'r cylchgrawn yn rhad ac am ddim ac wedi ei anelu at dwristiaid yn ogystal â thrigolion ardal Sir Benfro. | 27/07/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 43: Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn y mae'n ei llunio neu ei lunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, yn cael ei llunio neu ei lunio yn Gymraeg. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyfrifol am y cylchgrawn Coast to Coast sydd wedi ei lunio yn Saesneg. Mae'r uchod gyfystyr â methiant i gydymffurffio â gofynion safon 43.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 43.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 43.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 43: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro sicrhau bod pob rhifyn o'r cylchgrawn Coast to Coast a gyhoeddir yn y dyfodol yn cael ei lunio yn Gymraeg.<br>2. Rhaid i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol (pan fyddir yn dechrau gweithio ar y rhifyn nesaf o'r cylchgrawn yn nhymor yr Hydref).<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 27/07/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1110** Rhwng 3/1/2023 a 9/1/2023, derbyniais dri cwyn gan aelod o'r cyhoedd. Roeddynt yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys. Penderfynais gyfuno'r tri i greu un ymchwiliad. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn y canlynol gan Freedom Leisure:<br>1. Neges e-bost awtomatig yn Saesneg yn unig;<br>2. E-bost cyffredinol yn Saesneg yn unig;<br>3. Galwad ffôn yn Saesneg yn unig. | 27/07/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 4: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 4, rhaid i unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bobl gael ei anfon yn ddwyieithog. Yn yr achos yma, derbyniodd yr achwynydd ddwy fath o ohebiaeth oedd yn mynd at nifer o bobl yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 4.<br><br>Safon 21: Mae safon 21 yn ei wneud yn ofynnol i sefydliad sy'n ffonio unigolyn am y tro cyntaf ofyn wrth yr unigolyn a yw'n dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg; gwneud cofnod o hynny; a chynnal galwadau ffôn gyda'r unigolyn hwnnw yn Gymraeg o hynny ymlaen. Yn yr achos yma, ni wnaeth Freedom Leisure ofyn i'r achwynydd ar ddechrau'r alwad ffôn beth oedd ei ddewis iaith ar gyfer derbyn galwadau ffôn. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 21.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd** |

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4 a 21.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4 a 21.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob un o aelodau staff Freedom Leisure sy'n darparu gwasanaeth ar ei ran yn mynychu hyfforddiant fydd yn egluro sut i gydymffurfio gyda safon 4. Rhaid i'r hyfforddiant egluro bod rhaid i unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bobl fod yn Gymraeg, ac mae hynny'n cynnwys gohebiaeth awtomatig o unrhyw fath.
2. Rhaid i Brif Weithredwr y Cyngor atgoffa Freedom Leisure o'r gofyniad a nodir yn ei gytundeb gyda'r cwmni i gydymffurfio gyda safon 4, a thynnu sylw Freedom Leisure at y canllaw sy'n bodoli er mwyn cydymffurfio gyda'r safon.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 21: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal asesiad o drefniadau Freedom Leisure er mwyn sicrhau bod system ddigonol sy'n caniatáu i'w staff wybod os ydynt yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf; a sicrhau bod system gofnodi dewis iaith Freedom Leisure yn ei wneud yn amlwg ym mha iaith sydd angen ffonio cwsmeriaid yn y dyfodol.
2. Rhaid i'r Cyngor ychwanegu adran ar safon 21 i'w ganllaw ar alwadau ffôn ac i'r hyfforddiant e-ddysgu. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob un o aelodau staff Freedom Leisure sy'n darparu gwasanaeth ar ei ran yn mynychu'r hyfforddiant, a sicrhau bod yr hyfforddiant yn ei wneud yn glir bod rhaid gofyn am ddewis iaith unigolyn sy'n cael ei ffonio am y tro cyntaf.
3. Rhaid i Brif Weithredwr y Cyngor atgoffa Freedom Leisure o'r gofyniad a nodir yn ei gytundeb gyda'r cwmni i gydymffurfio gyda safon 21, a thynnu sylw Freedom Leisure at y canllaw sy'n bodoli er mwyn cydymffurfio gyda'r safon.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 27/07/2023.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru | **CS1086** Ar 28 Tachwedd 2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn dilyn arestiad ar 23/08/2022. Ag eithrio un cyfweliad, honnir bod pob cyfathrebiad ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Swyddfa'r Heddlu, Caernarfon wedi bod yn uniaith Saesneg gan gynnwys y ddogfen 'prosesau/hawliau yn y ddalfa' a'r ffurflen rhyddhau o ymrwymiadau mechnïaeth. Honnir mai swyddogion Saesneg yn unig bu'n ymgymryd ag unrhyw sgwrsio yng Nghaernarfon, ac na chafodd gynnig na chyfle i drafod y mater hefo swyddog Cymraeg. Yn ogystal, honnir bod pob llythyr/ ffurflen y derbyniwyd yn rhai uniaith Saesneg. | 27/07/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 5: Os nad yw corff yn gwybod beth yw dewis iaith person, rhaid iddo sicrhau ei fod yn darparu fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth y mae'n ei hanfon at y person hwnnw. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth ar ffurf dogfennau mechniaeth yn Saesneg yn unig at yr achwynydd, er bod cofnodion yn dangos yn glir mai'r Gymraeg oedd y dewis iaith. Mae hyn yn dangos methiant gan Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i gydymffurfio â safon 5.<br><br>Safon 26: Os yw corff yn gwahodd un person i gyfweliad, neu os yw corff yn ei gwneud yn ofynnol i un person fynd i gyfweliad, er mwyn cynorthwyo'r corff gydag ymholiad (er enghraifft fel tyst i ddigwyddiad), neu os yw'r person wedi ei arestio rhaid i'r corff ofyn i'r person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad. Casglaf bod yr Heddlu yn yr achos hwn wedi gofyn i'r achwynydd, yn dilyn yr arestio a oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad. Cynhaliwyd cyfweliad yr achwynydd yn Gymraeg. Mae'r uchod gyfystyr â chydymffurfiaeth â safon 26.<br><br>Safon 26B: Os yw corff yn gwahodd un person i gyfweliad, neu os yw corff yn ei gwneud yn ofynnol i un person fynd i gyfweliad, er mwyn cynorthwyo'r corff gydag ymholiad (er enghraifft fel tyst i ddigwyddiad), neu os yw'r person wedi ei arestio a bod y person wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i'r corff drefnu bod gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfweliad (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb |

gymorth gwasanaeth cyfieithu). Cynhaliwyd cyfweliad yr achwynydd yn Gymraeg heb yr angen am wasanaeth Cyfieithu. Mae'r uchod gyfystyr â chydymffurfiaeth â safon 26B.

Safon 38: Os yw corff yn llunio unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd, rhaid iddo sicrhau bod y ddogfen yn cael ei llunio yn Gymraeg. Derbyniodd yr achwynydd ddogfennau yn Saesneg yn unig, ag eithrio un ddogfen, sef Hysbysiad Derbyniad a dderbyniodd yn ddwyieithog. 6.12 Mae'r uchod gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 38.

Safon 48: Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw ffurflen y mae'n ei rhoi ar gael i'r cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys unrhyw ffurflenni ysgrifenedig, boed ar ffurf electronig neu ar ffurf papur. Derbyniodd yr achwynydd ffurflenni mechniaeth yn Saesneg yn unig. Mae'r uchod gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 48.

Safon 48A: Os yw corff yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid iddo ddatgan yn glir ar y fersiwn Saesneg bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. 8.9 Darparodd yr achwynydd gopi o'r ffurflenni mechniaeth a dderbyniodd yn Saesneg gan Heddlu Gogledd Cymru. Nid oedd cyfeiriad ar y ffurflenni eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg. Ystyriaf bod yr uchod gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 48A.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 26 a 26B, ond bod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5, 38, 48 a 48A.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5, 38, 48 a 48A.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru atgoffa staff y ddalfa yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn hyfforddiant (gweler pwynt 3 isod) o’r angen i brosesu dewis iaith pob unigolyn drwy dicio blwch ar y gronfa ddata i gadarnhau a chofnodi’r dewis iaith. Deallir bod angen gwneud hyn â llaw.
2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 48: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
3. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru gynnal hyfforddiant i staff y ddalfa ar y system newydd o ddewis ffurflenni. Bydd yr hyfforddiant yn cyd-fynd â’r canllawiau a

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddarperir gan yr Heddlu ar sut i ddefnyddio'r system newydd.<br>4. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Safon 48A: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>5. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru sicrhau bod eu holl ffurflenni Saesneg yn nodi'n glir bod fersiwn Gymraeg o'r ffurflen hefyd ar gael. Gweler 8.2 uchod o dan 'Dehongliadau' am syniadau i'w hystyried.<br>6. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar 27/07/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | **CS1085** Ar 24/11/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn honni i'r | 27/07/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 5: Mae safon 5 yn ei wneud yn ofynnol i gorff anfon gohebiaeth yn Gymraeg os nad yw'n siŵr beth yw dewis iaith y cwsmer. Yn yr achos yma, anfonodd y Cyngor lythyr uniaith Saesneg at yr achwynydd, er nad oedd yn |

| | |
| --- | --- |
| achwynydd dderbyn llythyr Saesneg yn unig gan Wasanaeth Profedigaeth y Cyngor. | ymwybodol beth oedd dewis iaith yr achwynydd. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 5.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 5.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 5.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 5: Gofyniad i gymryd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor atgoffa staff yr adran Gwasanaeth Profedigaeth o ofynion penodol safon 5, drwy gynnal hyfforddiant i'r staff hynny. Rhaid i'r Cyngor bwysleisio o fewn yr hyfforddiant bod rhaid gohebu yn ddwyieithog os nad yw dewis iaith y cwsmer yn glir.<br>2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 27/07/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1059** Ar 27/09/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Cysylltodd yr achwynydd gyda mi ar ôl derbyn arolwg gan Drafnidiaeth Cymru. Roedd yr arolwg yn Gymraeg ond roedd yr e-bost yn Saesneg yn unig. Wrth gadarnhau cyfrifoldeb am y mater fe esboniodd y sefydliad bod arolygon yn cael eu hanfon at unigolion yn eu dewis iaith. Mae’r gŵyn yn creu amheuaeth bod gohebiaeth megis arolygon a chylchlythyrau yn cael eu hanfon yn Saesneg at nifer o bobl heb anfon fersiwn Gymraeg o’r ohebiaeth ar yr un pryd. | 27/07/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 4: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 4 mae’n rhaid i Drafnidiaeth Cymru, sy’n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni pan maent yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau. Rhaid gwneud hyn beth bynnag fo dewis iaith y cwsmeriaid. Yn yr achos yma, fe wnaeth gwybodaeth gyflwynodd Gweinidogion Cymru greu amheuaeth bod Trafnidiaeth Cymru yn anfon gohebiaeth i nifer o bersonau yr un pryd yn Saesneg yn unig. Cadarnhaodd ymateb Gweinidogion Cymru i’r hysbysiad tystiolaeth bod gohebiaeth at y panel ymchwil Sgwrs a chylchlythyr cyffredinol Trafnidiaeth Cymru yn cael eu hanfon yn Saesneg yn unig at nifer o bobl. Ar y sail bod Trafnidiaeth Cymru yn anfon gohebiaeth ar nifer o bersonau yn Saesneg yn unig heb anfon y fersiwn Gymraeg yr un pryd, rwyf o’r farn na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 4.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach** |

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw unrhyw ohebiaeth mae Trafnidiaeth Cymru yn ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn cynnwys, (ond heb ei gyfyngu i) gohebiaeth at y panel Sgwrs ac unrhyw gylchlythyrau.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau gohebiaeth Trafnidiaeth Cymru yn cael eu haddasu i sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael eu egluro yn glir i staff. Rhaid i'r canllawiau egluro'r canlynol :
a) Pa fath o ohebiaeth sy'n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy'n mynd at 'nifer o bersonau'.
b) Na ddylid anfon gohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau eu bod yn tynnu sylw staff perthnasol at y newidiadau i'r canllawiau.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 27/07/2023.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bro Morgannwg | **CS1077** Ar 08/11/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnodd yr achwynydd ei fod wedi gyrru neges at gyfeiriad Gyngor Bro Morgannwg (Cyngor) ar Safeguarding srswales@valeofglamorgan.gov.uk ar 26/10/2022 am 5:12pm, gan nodi na dderbyniodd ymateb. | 13/07/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 1: Er bod cwyn yr achwynydd yn wreiddiol yn ymwneud â honiad o oedi yn ymateb i ebost Cymraeg, safbwynt y Cyngor ydi eu bod wedi ymateb i'r e-bost dan sylw ond eu bod wedi ymateb i'r e-bost hwnnw yn y Saesneg gan fod gohebiaeth Saesneg ar waith rhwng yr achwynydd a'r Cyngor yn barod. Dylai'r Cyngor fod wedi ymateb i e-bost Cymraeg yr achwynydd yn y Gymraeg. Mae Safon 1 yn glir y dylai corff sicrhau eu bod yn ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg oddi wrth berson (os oes angen ateb) yn y Gymraeg, oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Nid ydi'r ffaith fod yr achwynydd wedi gohebu yn Saesneg yn flaenorol gyda'r Cyngor yn gyfystyr â dweud nad oes angen ateb yn y Gymraeg. Mae'r Cod Ymarfer yn glir y gall dymuniad unigolyn i gael gohebiaeth yn y Gymraeg amrywio mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 1.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 1.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 1.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 1. Rhaid i'r Cyngor atgoffa eu holl staff am yr angen i gydymffurfio gyda Safon 1.<br>2. Rhaid i'r Cyngor egluro ac atgoffa eu staff o hawl defnyddwyr i newid eu dewis iaith a'r angen i'r Cyngor ymateb i'r newid mewn dewis iaith yna.<br>3. Rhaid i'r Cyngor ystyried os oes angen datblygu eu gweithdrefn cofnodi dewis iaith i sicrhau bod modd diweddaru ac ymateb i newid mewn dewis iaith defnyddiwr.<br>4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 13/07/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Prifysgol De Cymru | **CS124** Ym mis Hydref 2021 gwnaed arolwg monitro o wefan Prifysgol De Cymru (Prifysgol / Brifysgol) (www.decymru.ac.uk) fel rhan o raglen fonitro cydymffurfiaeth y Comisiynydd. Yn sgil cynnal yr arolwg hwnnw mae amheuaeth nad yw'r Brifysgol yn cydymffurfio gyda'r safonau a nodir isod. Roedd canfyddiadau'r arolwg monitro wedi | 13/06/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 37: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 37 mae angen i'r Brifysgol sicrhau, pan maent yn llunio unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd (gan gynnwys fideos) eu bod yn eu llunio yn Gymraeg, ac nad yw'n trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n amlwg o ganfyddiadau ein gwaith monitro ac yn ymateb y Brifysgol bod fideos Saesneg yn unig ar wefan y Brifysgol ac nad ydi'r fideos yma wedi eu llunio yn y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 37. |

canfod:
- mewn rhai achosion nad oedd tudalennau ar gael yn Gymraeg o gwbl.
- nad oedd unrhyw un o 15 tudalen a wiriwyd ar wefan y Brifysgol yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion y safonau.
- bod 2/15 tudalen a wiriwyd yn cydymffurfio yn rhannol â gofynion y safonau.
- nad oedd nifer uchel o'r tudalennau gwefan a wiriwyd yn darparu rhyngwyneb a dewislenni yn Gymraeg
- bod cynnwys y tudalennau Cymraeg a Saesneg yn anghyson gyda llai o wybodaeth a chynnwys ar y tudalennau Cymraeg.
- nad oedd modd i ddefnyddwyr fod yn hyderus bod gwybodaeth a gyhoeddir ar y wefan yn Gymraeg yn gyflawn.
- bod defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol, er enghraifft, nid oes opsiwn sgwrsio byw (live chat)ar gael ar rai tudalennau Cymraeg.

Mae amheuaeth hefyd bod sefyllfa'r wefan yn effeithio ar allu'r sefydliad

Safon 53: Gofynion safon 53 yw bod rhaid i unrhyw ffurflen sydd yn cael ei llunio gan sefydliad at ddefnydd y cyhoedd neu i fyfyrwyr gael ei llunio yn Gymraeg. Mae'r Brifysgol wedi derbyn nad oes ffurflenni Cymraeg yn medru eu cyhoeddi ar eu gwefan bod y Brifysgol yn methu cydymffurfio â gofynion safon 53. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 53.

Safon 55: Gofyniad y safon yw bod rhaid sicrhau bod pob tudalen ar wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Yn yr achos yma, ni ddarparwyd gwefan oedd yn gweithredu'r llawn yn y Gymraeg gan Brifysgol De Cymru. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 55.

Safon 59: Gofyniad y safon yw bod rhaid i gorff ddarparu rhyngwyneb a dewislenni yn Gymraeg ar bob tudalen o'i gwefan. Gall dewislenni gynnwys rhestr o ddewisiadau, eitemau neu orchmynion i ddefnyddwyr ddewis ohonynt (e.e cwymplen sy'n agor i lawr i ddangos rhestr o ddewisiadau posib). Yn yr achos yma, ni ddarparwyd y rhyngwyneb yn Gymraeg gan Brifysgol De Cymru. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 59.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prifysgol De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 37, 53, 55 a 59.

**Datganiad gweithredu pellach**

i gydymffurfio gyda safonau eraill hefyd. Bu i'r arolygon gwirio ganfod:
- nad oedd 2/3 o'r fideos a wiriwyd ar y wefan ar gael yn Gymraeg.
- nad oedd 2/3 o'r ffurflenni a wiriwyd ar y wefan yn cydymffurfio â gofynion y safon.

Safonau perthnasol
Mae'r Brifysgol dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn:

Safon 37
Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.
Dyddiad gosod: 01/04/2018

Safon 53
Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr gael ei llunio yn Gymraeg.
Dyddiad gosod: 01/04/2018

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prifysgol De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 37, 53, 55 a 59.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 37: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Brifysgol De Cymru ddarparu hyfforddiant a chanllawiau i holl staff y Brifysgol sy'n llunio unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd (gan gynnwys fideos) ar ofynion y Safonau a'r angen yn benodol i sicrhau bod deunyddiau cyhoeddusrwydd yn cael ei llunio yn Gymraeg, ac nad yw'r deunyddiau yma yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.
2. Rhaid i Brifysgol De Cymru wirio holl fideos ar eu wefan i sicrhau fod y fideos hynny i gyd yn cydymffurfio gyda Safon 37.
3. Rhaid i Brifysgol De Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 53: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
4. Rhaid i Brifysgol De Cymru adolygu'r holl ffurflenni sydd ganddynt ar eu gwefan at ddefnydd y cyhoedd neu i fyfyrwyr a chlustnodi pa rai o'r ffurflenni hynny sydd heb gael eu llunio yn y Gymraeg.
5. Rhaid i Brifysgol De Cymru weithredu i sicrhau bod yr holl ffurflenni sydd wedi eu clustnodi yng ngham 1 yn cael

Safon 55
Rhaid ichi sicrhau—
(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac
(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.
Rhaid i chi gydymffurfio â safon 55 mewn perthynas â thudalennau cwrs a phwnc a chynnwys cysylltiedig erbyn 31/10/2020.
Dyddiad gosod: 01/10/2019

Safon 59
Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.
Dyddiad gosod: 01/10/2019

Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan Brifysgol De Cymru i gydymffurfio â'r safonau a nodwyd.

eu llunio yn y Gymraeg ac ar gael ar wefan y Brifysgol yn y Gymraeg i ddefnyddwyr.
6. Rhaid i'r Brifysgol ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 37, 55, 55 a 59: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Mae'r gofyniad i baratoi cynllun gweithredu isod yn ymdrin â'r methiannau welwyd ar draws y Safonau hynny sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma.
Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r camau sydd wedi eu gosod allan o fewn y gofyniad yma ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.
1. Rhaid i Brifysgol De Cymru baratoi cynllun gweithredu at y diben o sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r holl Safonau fuodd yn destun yr ymchwiliad yma.
2. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau mae'r Brifysgol am eu cymryd fydd yn eu galluogi i gydymffurfio gyda Safonau 37, 53, 55 a 59 sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma ac yn benodol yr holl newidiadau i'r wefan sydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r Safonau yma.
3. Rhaid i'r camau o fewn y Cynllun Gweithredu gynnwys y camau isod bydd y Brifysgol yn eu cymryd:
- cynnal adolygiad llawn o'i wefan gan glustnodi pob darn o'r wefan sydd ar hyn o bryd ddim yn cydymffurfio'n llawn gyda'r Safonau;

- cynnal adolygiad llawn o'i drefniadau i osod testun newydd a diwygio testun ar y wefan er mwyn sicrhau bod y wefan a'r ffurflenni a'r deunydd cyhoeddusrwydd ar y wefan honno yn cydymffurfio yn llawn gyda'r Safonau sydd wedi bod yn destun yr ymchwiliad yma;
- nodi sut mae'r Brifysgol am wneud newidiadau i'r holl wefan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ble mae'r ymchwiliad yma wedi canfod methiant i gydymffurfio;
- darparu eglurhad o'r adnoddau dynol a chyllidebol fydd yn cael ei glustnodi er mwyn cyflawni'r cynllun a cydymffurfio yn llawn â'r safonau yma.
4. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun
- sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Brifysgol yn erbyn y cynllun hynny.
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda pob un o'r camau i'w gyflawni a chael gwefan sydd yn gweithredu yn llawn yn unol â'r Safonau mewn dim mwy na 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.
Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol De Cymru ar 13/06/2023.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro | **CS1063** Ar 30/09/2023 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â siom a gafodd P o beidio â derbyn gwasanaeth Cymraeg tra roedd yn glaf o dan ofal y bwrdd iechyd. Honnai P nad oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (D) gofnod gyflawn o beth yw sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu. Heb yr wybodaeth gyflawn, honnodd P nad oes gan D y wybodaeth sydd ei hangen i:<br>- adnabod pwy yw’r staff Cymraeg y gellid paru â chleifion sy’n dymuno derbyn eu gofal yn Gymraeg;<br>- adnabod a oes digon o staff Cymraeg mewn adran (neu ward) i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael (a chynllunio i gynyddu’r nifer os oes diffyg). | 07/06/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 96: Mae safon 96 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion. Nid oes gan D gofnod o sgiliau iaith Gymraeg 10,880 (63.3%) o’i gyflogeion ar hyn o bryd. Mae methiant D i gasglu a chadw cofnod cyflawn o sgiliau Cymraeg ei holl weithwyr yn y sefydliad yn golygu nad oes gan D yr wybodaeth angenrheidiol i gynnal asesiad ystyrlon o sgiliau Cymraeg y gweithlu yn unol â gofynion safon 96.<br><br>Safon 23 a 23A: Mae safon 23 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn i glaf mewnol (“A”) ar ddiwrnod cyntaf ei dderbyniad fel claf mewnol a yw A yn dymuno defnyddio’r Gymraeg i gyfathrebu â chi yn ystod y derbyniad hwnnw fel claf mewnol. Os yw A yn hysbysu corff (mewn ymateb i’r cynnig a wnaed yn unol â safon 23 neu fel arall) ei fod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg i gyfathrebu â’r corff yn ystod derbyniad fel claf mewnol, mae safon 23A yn ei gwneud yn ofynnol i gorff roi gwybod i staff sydd yn debygol o gyfathrebu gyda’r claf am ei ddymuniad i gyfathrebu gyda’r corff yn Gymraeg yn ystod y derbyniad hwnnw. Dulliau P o weithredu gofynion safon 23 yw trwy un ai rhoi ffurflen i glaf mewnol i’w chwblhau sy’n gofyn iddo gadarnhau eu dewis iaith neu fod aelod staff yn gofyn yn uniongyrchol i glaf gadarnhau eu dewis iaith. Disgwylir wedyn i unrhyw wybodaeth a gesglir ynghylch dewis iaith claf gael ei throsglwyddo a’i chofnodi mewn system gweinyddu cleifion. Nid oes tystiolaeth lawn sy’n cadarnhau â sicrwydd bod prosesau a threfniadau cadarn mewn grym i sicrhau bod y ddyletswydd o “ofyn” i gleifion ynghylch eu dewis iaith yn cael ei gweithredu gan staff fel mater o drefn wrth iddynt dderbyn cleifion mewnol. Hefyd, nid oes sicrwydd gen i fod |

yna drefniadau cadarn ar waith sy’n sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth a gesglir ynghylch dewis iaith cleifion (a gesglir drwy’r ffurflenni neu drwy staff yn gofyn wyneb-yn-wyneb ynghylch eu dewis iaith) ei throsglwyddo fel mater o drefn i’r system gweinyddu cleifion (a ddefnyddir gan D i rannu’r wybodaeth berthnasol gyda staff yn unol â gofynion safon 23A).

Safon 24: Mae safon 24 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff lunio ac i gyhoeddi polisi ar sut i gadarnhau a yw claf mewnol eisiau defnyddio’r Gymraeg yn ystod ei dderbyniad fel claf mewnol, pan na all y claf hwnnw roi gwybod i’r corff ei fod eisiau defnyddio’r Gymraeg i gyfathrebu â’r corff yn ystod derbyniad fel claf mewnol. Ni ddarparodd D unrhyw dystiolaeth oedd yn cadarnhau ei fod wedi llunio a chyhoeddi polisi sy’n diwallu gofynion 24.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 23A a chamau gorfodi osodwyd yn ymchwiliad CSG798, ond bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 96, 23 a 24.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 96, 23 a 24.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 96: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Er mwyn gallu cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion yn unol â safon 96, rhaid i D sicrhau:
- ei fod wedi casglu a bod ganddo gofnod o sgiliau iaith Gymraeg 85% o'i gyflogeion erbyn 31 Mawrth 2024;
- ei fod wedi gweithredu ymhellach erbyn 31 Hydref 2024, at y diben o gael cofnod llawn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod D yn:
- rhoi trefniadau ar waith i'w gwneud yn orfodol i bob cyflogai gofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig (ESR) o fewn yr amser gofynnol;
- anfon datganiad i bob cyflogai yn egluro'r trefniadau gorfodol y mae D wedi eu rhoi ar waith, ac unrhyw gamau y bydd D yn eu cymryd os nad yw cyflogeion yn cydymffurfio;
- gosod targedau mewnol (gyda cherrig milltir) ar gyfer pob cyfarwyddiaeth unigol i sicrhau y bydd pob cyflogai o fewn y gyfarwyddiaeth honno wedi cofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg o fewn yr amser gofynnol;
- ei gwneud yn ofynnol i reolwyr sicrhau bod y cyflogeion maent yn gyfrifol amdanynt yn cofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg o fewn yr amser gofynnol, a bod rheolwyr yn adrodd yn rheolaidd i uwch reolwyr ar y cynnydd a wneir i gyflawni'r cam hwn.
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.
Amserlen: O fewn 18 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 96: Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn cynghori D i symud tuag at asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion (gan gynnwys casglu a chofnodi y sgiliau hynny) yn seiliedig ar Fframwaith Cyfeirio Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR).

Safon 23: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D ddatblygu gweithdrefnau a phrosesau cadarn sy’n sicrhau bod staff, fel rhan o’r broses derbyn cleifion, yn gofyn i gleifion fel mater o drefn am eu dymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg.
2. Rhaid i D sicrhau bod ganddo drefniadau cadarn ar waith i sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth ynghylch dymuniad claf mewnol i gyfathrebu yn Gymraeg (a gesglir drwy ffurflenni neu drwy staff yn gofyn yn uniongyrchol i’r claf) ei throsglwyddo fel mater o drefn i’r systemau gweinyddu cleifion a ddefnyddir (i gydymffurfio â safon 23A).
3. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 24: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D lunio a chyhoeddi polisi ar sut i gadarnhau a yw claf mewnol (“A”) yn dymuno defnyddio’r Gymraeg yn ystod ei dderbyniad fel claf mewnol os na all A ei hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg i gyfathrebu â D yn ystod derbyniad fel claf mewnol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 07/06/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1053** Ar 22/09/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod diffyg darpariaeth o wersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg gan y Cyngor, ynghyd â methiant honedig gan y Cyngor i ddarparu diweddariadau ar ddatblygiad plant yr achwynydd mewn gwersi nofio ar wefan y Cyngor yn Gymraeg. | 07/06/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 52: Ar gyfer safon 52, rhaid i gorff sicrhau bod ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr achos yma, roedd rhai tudalennau ar y wefan yn Saesneg yn unig, gan nad oedd modd i'r achwynydd ddilyn datblygiad ei blant yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 52.<br><br>Safon 56: Ar gyfer safon 56, rhaid i gorff sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Yn yr achos yma, doedd y rhyngwyneb na'r dudalen gartref 'HomePortal' ddim ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 56.<br><br>Safon 84: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwersi nofio yn Gymraeg, oni bai bod asesiad o'r angen yn dangos nad oes angen hynny. Mae'n glir bod galw am wersi nofio Cymraeg yn y Sir, ond nid yw'r Cyngor |

yn ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 84.

Safon 86: Pan fo corff yn datblygu cwrs addysg sydd i’w gynnig i’r cyhoedd, rhaid iddo asesu’r angen i’r cwrs hwnnw fod yn Gymraeg, a chyhoeddi canlyniad yr asesiad ar ei wefan. Cafodd y cwrs nofio ei ddatblygu diwethaf yn 2020. Mae Freedom Leisure yn cynnal asesiadau o’r angen am wersi nofio Cymraeg yn rheolaidd, ac yn eu cyhoeddi ar y wefan. Mae hyn yn cydymffurfio gyda gofynion safon 86.

Cydymffurfiaeth â chamau gorfodi Ymchwiliad CSG636: Roedd y camau gorfodi yn ei wneud yn ofynnol i’r Cyngor ail hysbysebu swyddi hyfforddwyr nofio Cymraeg; uwch-sgilio staff i allu darparu hyfforddiant yn Gymraeg; a hysbysebu ar ei wefan bod gwersi nofio Cymraeg ar gael. Mae’r Cyngor wedi ymdrechu i hysbysebu’r swyddi mewn mwy nag un ffordd. Nid yw wedi bod yn llwyddiannus wrth geisio penodi hyfforddwr nofio Cymraeg, felly ni all hysbysebu bod gwersi Cymraeg ar gael. Nid oes methiant i gydymffurfio gyda’r camau gorfodi yma felly. Nid yw’r Cyngor fodd bynnag wedi uwch-sgilio staff yn ddigonol fel y gallent ddarparu’r gwersi nofio yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda’r ail gam gorfodi.

Cydymffurfiaeth â chamau gorfodi ymchwiliad CSG798: Roedd y camau gorfodi yn ymchwiliad CSG798 yn ei wneud yn ofynnol i’r Cyngor wirio holl dudalennau gwefan Freedom Leisure; cryfhau’r broses o brawf ddarllen testun y wefan cyn iddo gael ei gyhoeddi; ac atgoffa staff Freedom Leisure o’r gofyniad i gydymffurfio â’r safonau.

Derbyniais dystiolaeth yn 2021 bod y Cyngor wedi cyflawni gofynion y camau gorfodi. Nid yw wedi methu cydymffurfio gyda nhw felly. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda'r camau gorfodi.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 86 a chamau gorfodi osodwyd yn ymchwiliad CSG798, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52, 56, 84 a chamau gorfodi osodwyd yn ymchwiliad CSG636.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52, 56, 84 a chamau gorfodi osodwyd yn ymchwiliad CSG636.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 52 a 56: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Brif Weithredwr y Cyngor atgoffa Freedom Leisure o'r gofyniad a nodir yn ei gytundeb gyda'r cwmni i gydymffurfio gyda safonau 52 a 56 yn ymwneud â'r wefan. Rhaid i'r Cyngor ddweud wrth Freedom Leisure am dynnu sylw yn benodol at y gwasanaeth HomePortal ble all y cyhoedd ddilyn datblygiad eu plant yn y gwersi nofio. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y gwasanaeth a'r rhyngwyneb yma ar gael yn llawn yn Gymraeg.

2. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw Freedom Leisure at unrhyw ganllaw mewnol sy'n bodoli ar gyfer cydymffurfio gyda'r safonau sy'n ymwneud â'r wefan ac a nodwyd yn y cytundeb gyda'r cwmni. Os nad oes gan y Cyngor ganllaw mewn bodolaeth, rhaid i'r Cyngor greu canllaw penodol, a darparu canllaw ar gyfer Freedom Leisure yn egluro gofynion y safonau sy'n ymwneud â gwefannau y mae disgwyliad i'r cwmni fod yn eu dilyn.
3. Hyd nes bod gan gwmni Freedom Leisure yr adnodd i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o'r wefan yn ymddangos fel y mae safonau'r Gymraeg yn ei ddisgwyl gan y Cyngor, rhaid i'r Cyngor ei hun brawf ddarllen gwefan Freedom Leisure tan ei fod wedi canfod gwell datrysiad.
4. Rhaid i'r Cyngor drefnu ei fod yn cyfarfod yn flynyddol gyda staff perthnasol Freedom Leisure. Rhaid i'r cyfarfod fod yn gyfle i'r Cyngor atgoffa Freedom Leisure o'r dyletswydd i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg, yn benodol y safonau gwefan. Rhaid i'r cyfarfod yma gael ei drefnu bob blwyddyn hyd nes mae'r Cyngor yn ffyddiog bod prosesau Freedom Leisure yn gadarn er mwyn cydymffurfio yn llawn gyda'r safonau ar y wefan.
5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 84: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Disgwylir i unrhyw gynllun gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau

cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.
1. Rhaid i’r Cyngor baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda safon 84.
2. Rhaid i’r cynllun gweithredu amlinellu’r camau mae’r Cyngor am eu cymryd fydd yn ei alluogi i gydymffurfio gyda safon 84 yn llawn.
3. Rhaid i’r camau o fewn y cynllun gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:
- Parhau gyda’i ymdrechion i recriwtio hyfforddwr nofio cyfrwng Cymraeg fel ei fod yn gallu darparu gwersi nofio cyfrwng Cymraeg yn y Sir er mwyn ateb y galw sydd amdano.
- Cychwyn/parhau â thrafodaethau gyda chyrff allanol all fod o gymorth er mwyn cydymffurfio gyda’r safon, megis yr Urdd.
- Trafod gydag awdurdodau lleol eraill er mwyn canfod arferion effeithiol all fod o gymorth wrth gydymffurfio gyda safon 84.
- Asesu’r posibilrwydd o gynnig gwersi dysgu Cymraeg i’r hyfforddwyr nofio presennol, a’u hannog i’w mynychu fel y gallent ddarparu’r gwersi nofio yn Gymraeg. Nid oes rhaid i’r gwersi Cymraeg yma fod yn ystod oriau gwaith.
4. Rhaid i’r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o’r camau yn y cynllun.
- Sicrhau bod gan aelodau o’r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor ar y cynllun.
- Amserlen ar gyfer cyflawni pob un o’r camau o fewn y cynllun gyda phob un o’r camau i’w gyflawni mewn dim mwy na 6 mis o ddyddiad cymeradwyo’r cynllun.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 07/06/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **CS1052** Ar 20/09/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd cwyn P yn ymwneud â'r dudalen ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (D) sy'n dynodi gwybodaeth am ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n fodlon darparu gwasanaethau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd P yn honni nad oedd wedi gallu cael mynediad at wybodaeth gyfredol ynghylch pa ddarparwyr sy'n cynnig pa wasanaethau [gofal sylfaenol] yn Gymraeg. Honnodd P fod D wedi methu â chynnal y dudalen gyda'r wybodaeth [ynglŷn â'r darparwyr gofal sylfaenol sy'n fodlon darparu gwasanaeth gofal sylfaenol yn | 07/06/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd:**<br>Safon 65: Pan fydd corff yn gwybod bod darparwr gofal sylfaenol yn fodlon darparu gwasanaeth gofal sylfaenol neu ran o'r gwasanaeth gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid i'r corff:<br>- ddynodi a chynnal tudalen ar ei wefan sy'n cynnwys yr wybodaeth honno; a<br>- chyhoeddi'r dudalen honno yn Gymraeg.<br>Tua'r cyfnod pan ymwelodd P â gwefan D i weld pa ddarparwyr yn ei ardal leol allai ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd y testun a oedd wedi ei gyhoeddi ar rai o'r tudalennau gwe perthnasol yn rhannol yn Saesneg yn unig. Roedd hyn yn enghraifft o fethiant gan D i sicrhau bod y dudalen berthnasol, a ddynodir i gynnwys y wybodaeth, wedi ei chyhoeddi yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Ystyriaf fod y gofyniad i 'gynnal' tudalen (am ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n fodlon darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg) yn cynnwys sicrhau bod D yn diweddaru'r wybodaeth a gynhwysir ar y dudalen yn rheolaidd, drwy ddileu |

Gymraeg] yn gyfredol. Fe awgrymodd bod yr wybodaeth ar y dudalen heb ei diweddaru ers 18 mis, ac felly, ei bod bellach yn hen ac yn anghywir. Honnodd P hefyd fod yr wybodaeth ar y dudalen yn anghyflawn gan awgrymu, er bod yr wybodaeth ar y dudalen yn nodi pa leoliadau gofal sylfaenol (e.e. meddygfa) sy'n fodlon darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg, nad yw'r dudalen yn darparu gwybodaeth mwy manwl ynglŷn â:

- beth yw'r gwasanaethau gofal sylfaenol sydd ar gael yn Gymraeg, a
- phwy (e.e. pa ddeintydd) o fewn pob un o'r lleoliadau gofal sylfaenol sy'n fodlon darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

gwybodaeth amherthnasol ac ychwanegu gwybodaeth berthnasol yn ôl yr angen. Ar adeg ymweliad P â'r dudalen, ymddengys nad oedd y wybodaeth a arddangoswyd arni wedi ei diweddaru ers 18 mis. Rwyf yn ystyried hyn yn enghraifft o fethiant gan D i 'gynnal' y dudalen yn unol â gofynion y safon.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 65.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 65.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 65: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i D sicrhau bod unrhyw destun, ar y tudalennau Cymraeg a ddynodir i gydymffurfio â safon 65, ar gael yn llawn yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, ond nid yw'n gyfyngedig i sicrhau, mai'r fersiwn Gymraeg o gyfeiriadau post lleoliadau gofal sylfaenol (e.e. meddygfa) sydd yn cael ei ddefnyddio ar y tudalennau dan sylw.
2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.
Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 07/06/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bro Morgannwg | **CS1067** Ar 03/10/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn ymwneud â'r broses o wneud cais am le mewn ysgol ar gyfer plentyn yr achwynydd. Honnai'r achwynydd bod diffygion yng ngwasanaeth Cymraeg y Cyngor wrth gofrestru plentyn mewn ysgol. Darparwyd sgrin lun o'r dudalen cofrestru dan sylw oedd yn cynnwys penawdau a bylchau am wybodaeth oedd yn Saesneg, er mai ar wefan cofrestru Cymraeg y Cyngor oedd y wybodaeth yma. Ym marn yr achwynydd, mae'n hanfodol bod y wefan yma a'r broses o wneud cais ar gael yn Gymraeg, gan gofio bod ysgolion Cymraeg ei hiaith yn rhan o'r broses gofrestru. Darparodd yr achwynydd sgrin lun o'r dewisiadau a ddarparwyd gan Gyngor Bro | 22/05/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd:**<br>Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Yn y mater hwn, mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfiaeth ar Gyngor Bro Morgannwg i sicrhau bod testun pob tudalen o wasanaethau'r Cyngor ar gael yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn derbyn y bu methiant i ddarparu gwefan cwbl Gymraeg ar gyfer y broses gofrestru yn yr achos yma. Camgymeriadau wrth fethu gwirio'r cynnwys oedd mewn lle ers 2017 oedd y rheswm dros hyn. Unwaith i'r camgymeriadau yma ddod yn hysbys trwy gŵyn yr achwynydd, mi wnaeth y Cyngor ddiweddaru'r wybodaeth yn syth ac atal y methiant rhag parhau. Serch hyn, ystyriaf fod methiant y Cyngor i wirio'r feddalwedd a phrawf ddarllen y cynnwys o fewn y feddalwedd ers 2017 yn gyfystyr thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ganiatáu i gamgymeriadau sylfaenol megis gwybodaeth Saesneg ar ffurflen gofrestru'r Cyngor gael ei chynnwys ar wefan y Cyngor. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod iddo gyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan Gymraeg oedd yn Saesneg. Unwaith i'r camgymeriad yma ddod i sylw'r Cyngor mi wnaed newidiadau i gywiro'r camgymeriadau |

| | |
|---|---|
| Morgannwg ar wefan gofrestru am le mewn ysgol fel rhan o'i gŵyn. | wrth ddarparu gwefan Gymraeg. Mae methiant i gyhoeddi gwybodaeth ar wefan y Cyngor yn Gymraeg yr un pryd a'r ffurflen gofrestru Saesneg yn golygu bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr achos hwn. Casglaf felly bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio a Safon 52.<br><br>Safon 55: Mae safon 55 yn ei gwneud yn ofynnol ar Gyngor Bro Morgannwg i sicrhau bod unrhyw dudalen Gymraeg ar wefan yn cyfateb i dudalen Saesneg gan nodi hyn neu ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol. Dyfarnaf y bu i'r Cyngor gydymffurfio â gofynion safon 55, gan iddynt ddarparu tudalen Gymraeg cyfatebol i'r dudalen Saesneg wrth gofrestru am le mewn ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Serch hyn, bu i'r wefan Gymraeg a'r cwymplenni a'r dewisiadau yma fethu gweithio yn y modd y bwriadwyd a nodir hynny wrth ymdrin â gofynion safon 52 uchod. O ran safon 55, dyfarnaf na fu methiant gan y Cyngor wrth ddarparu dolenni uniongyrchol at y dudalen gofrestru Cymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol fel sydd yn ofynnol gan safon 55.<br><br>Safon 56: Mae Safon 56 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Gall dewislenni gynnwys rhestr o ddewisiadau, eitemau neu orchmynion i ddefnyddwyr ddewis ohonynt (e.e. cwymplen sy'n agor i lawr i ddangos rhestr o ddewisiadau posib). Honnai'r achwynydd bod y cwymplenni a'r dewisiadau o fewn y cwymplenni wrth gofrestru am le i'w blentyn mewn ysgol Gymraeg ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn ymddangos yn Saesneg |

ar y tudalennau Cymraeg. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod y cwymplenni a’r dewisiadau dan sylw wrth gofrestru am le mewn ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 ar wefan Gymraeg y Cyngor yn Saesneg. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniais, casglaf nad oedd cwymplenni ar wefan y Cyngor ar yr adeg gwnaed y gŵyn wedi eu darparu yn Gymraeg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 55 ond bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 52 a 56.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 52 a 56.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Gwefannau a Gwasanaethau ar-lein – Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau ar-lein y Cyngor yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys cwymplenni a phenawdau ar adrannau o wefan y Cyngor ac unrhyw ffurflenni ar-lein defnyddir gan y Cyngor.
2. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gynnal adolygiad o’i drefniadau a’i gweithdrefnau a’r modd y mae yn gwirio a phrawf ddarllen gwefannau, ffurflenni ar-lein ac unrhyw broses gofrestru gan sicrhau cywirdeb a chysondeb yn y fersiwn Gymraeg a‘r Fersiwn Saesneg o’r un ddogfen.

3. Yn dilyn cynnal yr adolygiad nodir yn 2 uchod, rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Gyngor Bro Morgannwg baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd yn sgil yr adolygiad. Rhaid hefyd cynhyrchu cyngor ymarferol yn egluro wrth staff sut i gynllunio a gwirio dogfennau a ffurflenni baratoir gan y Cyngor.
4. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 56: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
5. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gymryd camau i sicrhau bod unrhyw ddewislenni a chwymplenni ar wefan y Cyngor yn cael ei cyhoeddi a'i darparu yn Gymraeg cyn neu yr un pryd ac y mae'n cyhoeddi'r dewislenni a'r cwymplenni hynny yn Saesneg.
6. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gynnal adolygiad llawn o'i drefniadau a'r modd y mae yn creu ac yn cyhoeddi cwymplenni a dewislenni ar ei wefan yn gyffredinol yng nghyd destun cydymffurfiaeth y Cyngor â safonau'r Gymraeg wrth gyhoeddi dogfennau, dewislenni a chwymplenni at ddefnydd y cyhoedd. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried y broses o wirio a phrawf ddarllen cynnwys gwefannau i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.
7. Yn dilyn cynnal yr adolygiad nodir yn 6 uchod, rwy'n ei gwneud yn ofynnol ar Gyngor Bro Morgannwg baratoi papur canfyddiadau a chynnwys adran am y gwersi a ddysgwyd wrth gynnal yr adolygiad a pha newidiadau sydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | angen i'w cyflwyno i weithdrefnau'r Cyngor wrth baratoi a gwirio cyhoeddiadau a chwymplenni ar wefan y Cyngor. Rhaid hefyd cynhyrchu cyngor ymarferol yn egluro wrth staff sut i gynllunio a pharhau i weithredu'n Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath i'r cyhoedd.<br>8. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5 i 7.<br><br>Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 22/05/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru | **CS1047 a CS1073** Ar 8 Medi 2022 (achos CS1047), a'r 25 Hydref 2022 (achos CS1073) derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roeddent yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn ymateb yn Saesneg ar ffurf ebost gan Heddlu De Cymru i neges anfonodd yn Gymraeg ar ddau achlysur. Yn yr achos cyntaf, bu i'r achwynydd anfon cyfres o negeseuon at yr Heddlu yn | 22/05/23 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd:**<br>Safon 1: Mae safon 1 yn gofyn i'r Heddlu pan fydd yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid iddo ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth ar ddau achlysur a oedd yn uniaith Saesneg. Anfonwyd y neges ar ffurf ebost. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 1.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd** |

ymwneud â chyhuddiad a wnaed gan unigolyn arall yn ei erbyn. Roedd y negeseuon wedi eu hanfon yn Gymraeg, a derbyniodd ymateb yn Gymraeg i bob neges ag eithrio'r neges olaf lle derbyniodd y neges ganlynol:

Good evening,
For that information to be passed to yourself, you will need to apply via the following link……

Yn yr ail achos, ymddengys i'r achwynydd gysylltu gyda'r Heddlu yn Saesneg yn dilyn digwyddiad ar y 7fed o Ebrill 2022 drwy gwblhau ffurflen Saesneg ar-lein. Bu'r cyfathrebu yn dilyn hynny rhwng yr achwynydd a'r Heddlu yn Gymraeg. Derbyniodd yr achwynydd ymateb Saesneg gan yr Heddlu ar 21 Hydref 2022. Mae'r ymateb a dderbyniodd yn darllen fel a ganlyn:

I have been asked to deal with your complaint which you made regarding an incident which occurred on the 7th April 2022. I realise that some time has passed since then and I apologise for that. I do note that you have previously

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 1 Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru ddarparu deunydd cyfathrebu wedi'i dargedu i'w staff, i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofynion safon 1, sef bod pob gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg (ag eithrio ymateb i argyfwng) yn derbyn ymateb yn Gymraeg.
2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru sicrhau bod pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, ar ba bynnag ffurf, waeth beth yw'r amgylchiadau (ag eithrio argyfwng) yn cael ei ateb yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 1.
3. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar 22/05/2023.

had some correspondence with Sergeant Morgan during which an explanation of the incident was given to you. I am led to believe that you were not happy with this explanation being given to you in English and you requested to be given the explanation in the language of Welsh. This matter was referred to me in August and as I do not speak Welsh I had intended to ask an officer who does speak Welsh to contact you. Due to other duties, I have yet to arrange for this to be done.

I understand that you were not pleased to be woken by police officers, just after midnight, who were making enquiries into the location of a person who did not live at your address. I have been informed that Sergeant Morgan explained to you that the officers had information to say that your address could be a location for this person, but on speaking to you, they negated that line of enquiry. While it was inconvenient for you, the action taken by the officers was in fact reasonable and in line with their

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | duties. The information given by you on that occasion has been used to update our systems and this situation will not therefore be repeated.<br><br>I am sending this email to you in English as I feel that some communication is better than none and I note that your original complaint was written in English also. Should you still wish to discuss the matter with a Welsh speaker, please let me know and I will ask a Welsh speaking officer to phone you. I will be completing the required documentation and you will receive a notice regarding the outcome of the complaint in the post. | | |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) | **CS048** Ar 7 Mai 2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod Ofcom wedi dyfarnu trwydded radio DAB graddfa fach (SSDAB) i gwmnïau i ddarparu gwasanaethau radio yn ardal Caerdydd er nad oedd yn ymddangos y byddai'r cwmnïau | 17/05/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 84, 85 ac 86: Cyhoeddodd Ofcom ei ddatganiad polisi Trwyddedu DAB ar raddfa fach: Sut bydd Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau newydd ym mis Ebrill 2020. Mae safonau 84, 85 ac 86 yn gosod dyletswydd ar Ofcom, pan fo'n llunio, adolygu neu addasu polisi, i ystyried yr effaith ar y Gymraeg ac ystyried sut gellir llunio'r polisi hwn fel ei fod yn cael effaith mwy cadarnhaol neu llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Wrth ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, cadarnhaodd Ofcom nad oedd wedi |

radio yn cynnig gwasanaeth cwbl Gymraeg nac ychwaith yn cynnig rhai oriau o raglenni Cymraeg.

cynnal asesiad o effaith y polisi hwn ar y Gymraeg gan ei fod o'r farn bod y mater wedi ei eithrio dan Adran 67 Mesur y Gymraeg. Casglaf nad yw'r mater wedi ei eithrio ac felly bod Ofcom wedi methu â chydymffurfio â safonau 84, 85 ac 86.

Safon 87, 88 ac 89: Mae safonau 87, 88 ac 89 yn gosod dyletswydd ar Ofcom i ystyried a cheisio barn am effeithiau posib ei benderfyniad polisi wrth iddo gyhoeddi dogfen ymgynghori ar y polisi dan sylw. Er i Ofcom ymgynghori ar ei ddatganiad polisi 'Trwyddedu DAB ar raddfa fach: Sut byddai Ofcom yn defnyddio swyddogaethau newydd a gynigir gan Lywodraeth y DU' ar 4 Gorffennaf 2019, ni wnaeth geisio barn am effaith y polisi ar y Gymraeg. Wrth ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, cadarnhaodd Ofcom nad oedd wedi ceisio barn am effaith y polisi hwn ar y Gymraeg wrth iddo ymgynghori ar y datganiad polisi gan ei fod o'r farn bod y mater wedi ei eithrio dan Adran 67 Mesur y Gymraeg. Casglaf nad yw'r mater wedi ei eithrio ac felly bod Ofcom wedi methu â chydymffurfio â safonau 87, 88 ac 89.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Y Swyddfa Gyfathrebiadau wedi methu â chydymffurfio â safonau 84, 85, 86, 87, 88 ac 89.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Y Swyddfa Gyfathrebiadau wedi methu â chydymffurfio â safonau 84, 85, 86, 87, 88 ac 89.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 84, 85 ac 86: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Mae Comisiynydd wedi cadarnhau ei ddehongliad o ddarpariaethau adran 67 Mesur y Gymraeg ym mharagraff 3.17 a 3.18 yr adroddiad ymchwiliad. Mae'n dehongli adran 67 Mesur i Gymraeg i olygu os nad yw'r weithgaredd o dan sylw ei hun yn ddarlledu gan ddarlledwr (neu os gyflawnir y weithgaredd mewn cysylltiad â darlledu yn unig)(e.e. polisi darlledu rhaglen penodol) yna ni fydd yr eithriad o dan adran 67 y Mesur yn gymwys.
1. Yn sgil dehongliad y Comisiynydd o adran 67 Mesur y Gymraeg (fel sydd wedi ei nodi ym mharagraff 3.17 a 3.18), rhaid i Ofcom gynnal adolygiad o'i brosesau a'i ganllawiau ar gyfer llunio, adolygu neu addasu polisïau i sicrhau ei fod yn ystyried effaith pob polisi ar y Gymraeg yn unol â gofynion safonau 84, 85 ac 86.

Safon 87, 88 ac 89: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
2. Yn sgil dehongliad y Comisiynydd o adran 67 Mesur y Gymraeg (fel sydd wedi ei nodi ym mharagraff 3.17 a 3.18), rhaid i Ofcom gynnal adolygiad o'i brosesau a'i ganllawiau ar gyfer cyhoeddi dogfennau ymgynghori pan fo'n llunio, adolygu neu addasu polisïau i sicrhau ei fod yn ystyried a

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cheisio barn effaith pob polisi y mae'n ymgynghori arno ar y Gymraeg yn unol â safonau 87, 88 ac 89.<br>3. Rhaid i Ofcom ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br><br>Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 17/05/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau | **CS1024** Ar 30/06/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd gan ei fod o'r farn nad yw cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Swyddfa Gyfathrebiadau gan gynnwys y cyfrifon Instagram a Tiktok yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg. Tynnodd yr achwynydd fy sylw at bodlediadau oedd yn Saesneg yn unig hefyd. | 11/05/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 33: Er mwyn cydymffurfio â safon 33, mae angen i'r Swyddfa Gyfathrebiadau sicrhau, pan maent yn llunio unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd, gan podlediadau eu bod yn eu llunio yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe gysylltodd achwynydd gyda mi gan ei fod yn anfodlon bod ySwyddfa Gyfathrebiadau yn cynhyrchu podlediadau yn Saesneg yn unig. Rwyf bellach yn deall bod y gyfres o bodlediadau yn cynnwys un podlediad Cymraeg a phedwar yn Saesneg. Gan mai un podlediad Cymraeg yr oedd y sefydliad wedi ei gynhyrchu o'i gymharu â phedwar podlediad Saesneg, rwy'n dyfarnu bod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon 33 wrth gynhyrchu podlediadau. |

Safon 54: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 54 mae'n rhaid i sefydliadau cyhoeddus sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio eu cyfryngau cymdeithasol. Cysylltodd aelod o'r cyhoedd gyda mi gan ei fod o'r farn nad yw cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y sefydliad, gan gynnwys y cyfrifon Instagram a Tiktok, yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg. Dangosodd gwaith pen desg swyddogion a thystiolaeth gan y Swyddfa Gyfathrebiadau nad oedd yn arferol i'r sefydliad i osod negeseuon yn Gymraeg ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ag eithrio ar y cyfrif penodol Twitter Cymraeg. Gan nad oedd pob neges a gyhoeddwyd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Swyddfa Gyfathrebiadau yn Gymraeg, rwyf o'r farn bod y sefydliad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Y Swyddfa Gyfathrebiadau wedi methu â chydymffurfio â safonau 33 a 54.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Y Swyddfa Gyfathrebiadau wedi methu â chydymffurfio â safonau 33 a 54.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 33: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 (3)(a) Mesur y Gymraeg
Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa Gyfathrebiadau i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau eu

bod yn cydymffurfio â gofynion safon 33 wrth gynhyrchu podlediadau.
Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd y Swyddfa Gyfathrebiadau yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda safon 33 wrth gynhyrchu podlediadau
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Bod y Swyddfa Gyfathrebiadau yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 33 wrth gynhyrchu podlediadau o fewn 9 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:
Rhaid i'r Swyddfa Gyfathrebiadau lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'rdrafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 54: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 (3)(a) Mesur y Gymraeg
Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa Gyfathrebiadau i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safon 54 mewn perthynas â'u holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol.
Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd y Swyddfa Gyfathrebiadau yn eu cymryd i sicrhau nad yw'n trin y

Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyhoeddi cynnwys ar ei holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol.
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—
- bod y Swyddfa Gyfathrebiadau yn cynnal awdit o'r holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynionsafon 54, a chymryd camau os nad ydynt yn cydymffurfio
- bod y Swyddfa Gyfathrebiadau yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 54 wrth weithredu eu holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol o fewn 9 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:
Rhaid i'r Swyddfa Gyfathrebiadau lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'rdrafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd

Safon 33: Argymhelliad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Rwy'n argymell bod y Swyddfa Gyfathrebiadau yn cymryd camau i sicrhau, wrth lunio a chyhoeddi fideos ar ei gyfrifon cymdeithasol, bod y cynnwys yn cael ei lunio a'i gyhoeddi

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn Gymraeg yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi cynnwys cyfatebol yn Saesneg.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 11/05/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Gwynedd | **CS1002** Ar 14/04/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddi dderbyn llythyr uniaith Saesneg ar 06/04/2022 gan adran bensiynau Cyngor Gwynedd (Cyngor). Roedd y llythyr yn ymwneud â phensiwn diweddar fam yr achwynydd. Anfonwyd y llythyr uniaith Saesneg nôl at y Cyngor gan nodi na fydd yn ymateb hyd nes ei bod yn derbyn llythyr Cymraeg. Deallaf bod y Cyngor wedi gyrru fersiwn Gymraeg o'r llythyr i'r achwynydd ar 21/04/2022 ond roedd yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon gan ei bod yn ymddangos bod pennawd a chyfarchiad clo y llythyr hwnnw eto | 10/05/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 5: Mae safon 5 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad yw'n gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg ai peidio. Mae'r Cyngor yn derbyn iddyn nhw yrru llythyr uniaith Saesneg i'r achwynydd er nad oedd gan y Cyngor gofnod o ddewis iaith yr unigolyn. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon.<br><br>Safon 6: Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion safon 6, pan mae'r Cyngor yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth, rhaid iddo beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Roedd y llythyr Cymraeg derbyniodd yr achwynydd gan y Cyngor yn cynnwys pennawd a chyfarchiad clo Saesneg yn ogystal â gwallau iaith. Gan nad oedd gwallau yn y fersiwn Saesneg, roedd y Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac felly wedi methu â chydymffurfio â Safon 6.<br><br>Safon 7: Er mwyn cydymffurfio â safon 7 roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth yn cynnwys |

yn Saesneg yn unig. Nododd hefyd nad oedd y Cyngor wedi cydnabod ei gamgymeriad gyda'r llythyr gwreiddiol na chynnig ymddiheuriad iddi am anfon llythyr ati yn Saesneg yn unig.

datganiad yn nodi eu bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddent yn ateb gohebiaeth Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Yn yr achos yma fe anfonodd y Cyngor ohebiaeth ar ddau achlysur heb ddatganiad oedd yn cydymffurfio â safon 7.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safonau 5, 6 a 7.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safonau 5, 6 a 7.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Gyngor Gwynedd atgoffa staff am ofynion safon 5 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau.
2. Rhaid i Gyngor Gwynedd godi ymwybyddiaeth staff o unrhyw lythyrau safonol newydd sydd wedi eu creu i sicrhau fod staff yn defnyddio'r llythyrau safonol, os yn addas, ar bob achlysur.
3. Rhaid i Gyngor Gwynedd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1 a 2.
Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Adran Bensiynau Cyngor Gwynedd gymryd camau i sicrhau bod templed unrhyw lythyrau Cymraeg safonol yn gywir a ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Rhaid i'r Cyngor atgoffa staff o'r hyfforddiant gloywi iaith sydd ar gael i rai sydd am wella safon eu Cymraeg ysgrifenedig.
3. Rhaid i'r Cyngor atgoffa staff o ddeunydd gwirio iaith gall gael ei ddefnyddio gan staff a bod gwasanaeth cyfieithu y Cyngor ar gael iddynt os oes angen cymorth ychwanegol arnynt i wirio safon eu gwaith.
4. Rhaid i Gyngor Gwynedd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.
Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 7: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Gyngor Gwynedd gymryd camau i sicrhau fod pob gohebiaeth a anfonir gan y Cyngor yn cynnwys datganiad yn unol â gofynion safon 7.
2. Oherwydd bod newid wedi bod ym mholisi iaith y Cyngor, rhaid i'r Cyngor atgoffa staff o'r angen i gynnwys y datganiad.
3. Rhaid i'r Cyngor roi gweithdrefn monitro a gwirio cyfnodol mewn lle er mwyn gwirio bod gohebiaeth y Cyngor nawr yn cydymffurfio gyda gofynion Safon 7 yn llawn.
4. Rhaid i Gyngor Gwynedd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Gwynedd ar 10/05/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Gwynedd | **CS102** Ar 07/12/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â phenderfyniad y Cyngor i gau Ysgol Gynradd Abersoch, a symud y disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Honnai'r achwynydd nad oedd y Cyngor wedi ymgynghori yn ddigonol nac ystyried effeithiau'r penderfyniad ar y Gymraeg yn y gymuned leol. | 09/05/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 88: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 88, rhaid i'r Cyngor adnabod ac ystyried effeithiau posib y cynnig, boed yn bositif neu'n andwyol, ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae tystiolaeth y Cyngor yn dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau positif ac andwyol posib y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y Gymraeg. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 88.<br><br>Safon 89: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 89, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae tystiolaeth y Cyngor yn dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut ellid llunio'r cynnig i gau Ysgol Abersoch fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 89.<br><br>Safon 90: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 90, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel na fyddai'r |

penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae tystiolaeth y Cyngor yn dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut ellid llunio'r cynnig i gau Ysgol Abersoch fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safn 90.

Safon 91: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib y cynnig (boed yn bositif neu'n andwyol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg, ond nid yw'n bodloni'r gofyniad i geisio barn. Nid oes cwestiwn yn gofyn barn y cyhoedd ar yr effeithiau posib (boed yn bositif neu'n andwyol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 91.

Safon 92: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ystyried sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif, ond nid yw'n bodloni'r gofyniad i geisio barn. Nid oes cwestiwn yn gofyn barn y cyhoedd ar sut ellid llunio'r

polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 92.

Safon 93: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ystyried sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ond nid yw'n bodloni'r gofyniad i geisio barn. Nid oes cwestiwn yn gofyn barn y cyhoedd ar sut ellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 93.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 ond bod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod, o hyn ymlaen, yn bodloni'r gofyniad i geisio barn y cyhoedd mewn dogfennau ymgynghori, a hynny ar y materion sy'n ofynnol dan safonau 91-93.<br>2. Rhaid i'r Cyngor ychwanegu brawddeg at ei ganllaw 'Cwestiynau ymgynghori iaith' yn cyfleu nad yw cais cyffredinol am sylwadau yn ddigonol i fodloni'r gofyniad i geisio barn dan y safonau.<br>3. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw staff sy'n debygol o fod yn gyfrifol am lunio dogfennau ymgynghori at ei ganllaw mewnol, a'u hatgoffa bod angen ei ddilyn er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau.<br>4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Gwynedd ar 09/05/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru | **CS1051** Fe wnaeth yr wybodaeth isod greu amheuaeth o fethiant gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (D) i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar wefannau D. | 09/05/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 39: Mae safon 39 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau:<br>- bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg; |

Cwyn CS1051
Ar 14/09/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (P). Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd cwyn P yn ymwneud â'r tudalennau ar wefan Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer archebu pecyn profi iechyd rhywiol i'r cartref, sef gwefan Cymru Chwareus (https://www.cymruchwareus.org/). Roedd P yn honni y cafodd ei orfodi yn groes i'w ddewis iaith i ddefnyddio'r Saesneg mewn sawl ffordd wrth ddefnyddio'r wefan. Rhannwyd sgrîn-luniau o'r wefan i gyfleu bod cynnwys uniaith Saesneg ar y wefan, ynghyd â dolenni gwe oedd yn ei arwain at gynnwys Saesneg yn unig. Mae'r sgrînluniau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn ar gael yn Atodiad A yr adroddiad.

Gwybodaeth am gydymffurfiaeth D
Fe wnaeth canlyniadau fy arolygon gwirio ar gyfer 2021–22 a 2022–23 greu amheuon pellach o fethiant gan D i gydymffurfio â safon 39 ar y gwefannau isod:

- bod pob tudalen Gymraeg ar ei wefan yn gweithredu'n llawn, a
- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan honno.

Achos cwyn P
Ar 14/09/2022, fe wnaeth yr achwynydd (P) ymweld â gwefan Cymru Chwareus (https://www.cymruchwareus.org/) i archebu pecyn profi iechyd rhywiol i'w gartref. Honnodd P y cafodd ei orfodi, yn groes i'w ddewis iaith, i ddefnyddio'r Saesneg mewn sawl ffordd wrth iddo ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o'r wefan. Pan ddefnyddiodd P y fersiwn Gymraeg o'r dudalen 'Profi a Phostio' (https://www.cymruchwareus.org/wales-sti-testing-kit-test-and-post.html), roedd y dudalen yn cynnwys testun Cymraeg oedd wedi ei gamsillafu neu ei gamdreiglo. Nid oedd diffygion tebyg yn bodoli ar y dudalen Saesneg gyfatebol. O ganlyniad, fe wnaeth D drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cywirdeb y testun a gynhwyswyd ar ei wefan. Roedd y dudalen 'Profi a Phostio' hefyd yn cynnwys delwedd yn cynnwys y testun "Results" yn Saesneg yn unig. Yn ogystal â hynny, fe roedd yr holiadur aml-dudalen ar-lein a ddefnyddiodd P i archebu ei becyn profi yn cynnwys sawl tudalen gyda thestun Saesneg yn unig. Hefyd, roedd holl destun yr holiadur adborth ar-lein (y gofynnwyd i P ei gwblhau ar ôl defnyddio'r gwasanaeth archebu pecyn profi) yn Saesneg yn unig. Fe wnaeth D felly methu â sicrhau bod testun pob tudalen ar y wefan dan sylw ar gael yn Gymraeg. O ran yr achos penodol lle roedd D wedi cynnwys dolen ar wefan Cymru Chwareus oedd yn arwain

| | |
|---|---|
| - Gwefan Helpa Fi i Stopio (https://www.helpafiistopio.cymru/)<br>- Gwefan gorfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru (https://icc.gig.cymru/) | P at dudalen gwe Saesneg yn unig ynglŷn â Brech y Mwncïod, oherwydd nad oedd tudalen Gymraeg gyfatebol wedi ei chyhoeddi (gan GIG Lloegr), nid oedd methiant D i ddarparu dolen at fersiwn Gymraeg o'r dudalen dan sylw yn enghraifft o fethiant gan D i gydymffurfio â safon 39. Fodd bynnag, yn unol â phrif swyddogaethau D fel yr asiantaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol ar gyfer pobl Cymru, roedd yna ddisgwyliad rhesymol ar D fod wedi cyhoeddi tudalen we gyfatebol ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r un a gyhoeddwyd gan GIG Lloegr ar ei wefan ef. Yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg, byddai wedi bod dyletswydd ar D i gyhoeddi'r dudalen honno yn Gymraeg pe bai wedi bodoli, ac o fod wedi cyhoeddi'r dudalen, byddai wedi bod dyletswydd ar D yn yr achos yma (dan safon 39) i ddarparu dolen o wefan Cymru Chwareus i'r dudalen Gymraeg honno. Fodd bynnag, waeth beth fo'r gofynion ar D yn yr achos yma, fe wnaeth methiant D i greu tudalen am Frech y Mwncïod ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yr un mor brydlon ag y bu GIG Lloegr lwyddo gwneud ar ei wefan ef arwain at sefyllfa lle cafodd P ei gyfeirio at adnodd Saesneg yn unig, yn groes i'w ddewis iaith. O ganlyniad, dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn wyliadwrus ar fod yn ddibynnol ar ddefnyddio gwybodaeth a gynhyrchir gan GIG Lloegr ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru, yn enwedig gan ystyried yr angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru ystyried yn ofalus ei ddibyniaeth ar dudalennau Saesneg GIG Lloegr fel ffynhonnell wybodaeth yn y dyfodol os yw am sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth o'r un safon i siaradwyr Cymraeg ag y mae yn ei roi i siaradwyr Saesneg. |

Canlyniadau arolygon gwirio 2021–22 a 2022–23
Yn 2021–22 a 2022–23, fe arolygais gydymffurfiaeth D â safon 39 ar wefan gorfforaethol D (https://icc.gig.cymru) a gwefan Helpa Fi i Stopio (https://www.helpafiistopio.cymru). Gwelwyd sawl enghraifft o D yn methu â sicrhau bod testun pob tudalen ar y gwefannau hyn ar gael yn Gymraeg. Hefyd, fe fethodd D â sicrhau ar sawl achlysur i sicrhau bod pob tudalen Gymraeg ar y gwefannau yma yn gweithredu'n llawn. Yn ogystal, gwelwyd nifer o enghreifftiau o D yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y gwefannau yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 39.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 39.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 39: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru (D) gryfhau ei allu i hunanasesu ei gydymffurfiaeth â safon 39 ar ei wefannau, drwy gynnal arolygon gwirio blynyddol o'i dudalennau gwe ar ei holl wefannau i sicrhau:
- bod testun pob tudalen ar gael yn Gymraeg;
- bod pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn, a

- nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg ar y gwefannau hynny.

2. Rhaid i D gryfhau’r broses o brawf-ddarllen a gwirio’r cynnwys a lunnir ar gyfer ei wefannau i sicrhau na fydd y cynnwys y wefan yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, cyn cyhoeddi unrhyw gynnwys ar ei wefannau, bod D yn cynnal gwiriad manwl o’r cynnwys i sicrhau:

- bod unrhyw destun Cymraeg yn gywir o ran ystyr, mynegiant a chystrawen;
- nad yw testun wedi ei gamsillafu neu ei gamdreiglo ac nad oes gwallau teipio neu fformatio;
- bod testun pob tudalen ar gael yn Gymraeg (gan gynnwys testundolenni gwe, testun a geir o fewn delweddau a thestun o fewn holiaduron a gyhoeddir ar y wefan);
- bod dolenni gwe yn arwain defnyddwyr at gynnwys Cymraeg (os yw’r cynnwys ar gael yn Gymraeg);
- bod dolenni gwe yn gweithio’n llawn ac nad ydynt yn arwain at dudalen wall;
- bod tudalen Saesneg yn cynnwys dolen yn arwain at y dudalen Gymraeg gyfatebol (ac nid yn ôl at yr hafan neu at adran neu dudalen arall);
- bod cynnwys yn gyson â’r cynnwys ar y tudalennau Saesneg cyfatebol (e.e. nad oes cynnwys ar goll neu heb ei diweddaru); a
- bod blychau chwilio ar eich gwefannau yn gweithio’n llawn yn Gymraeg.

3. Rhaid i D anfon datganiad mewnol at bob aelod staff (ac unrhyw drydydd parti perthnasol) sydd yn gyfrifol am lunio a chyhoeddi cynnwys ar ei wefannau o’r methiannau penodol i gydymffurfio â safon 39 a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn.

4. Fel rhan o’r datganiad a anfonir yn unol â cham gorfodi 3, rhaid i D gynnwys arweiniad i staff a thrydydd partïon yn seiliedig ar ganfyddiadau’r ymchwiliad ar sut y dylid gweithredu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fethiannau tebyg i’r rhai a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad yn digwydd eto yn y dyfodol.
5. Fel rhan o’r arweiniad a roddir yn unol â cham gorfodi 4, rhaid i D rannu gyda staff a thrydydd partïon unrhyw weithdrefnau a chanllawiau ar sut i sicrhau cydymffurfiaeth â safon 39 wrth lunio a chyhoeddi cynnwys ar gyfer ei wefannau.
6. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-5.
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.

Safon 39: Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
2. Os yw D fel yr asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol ar gyfer pobl Cymru yn cyfeirio at wybodaeth bwysig (e.e. gwybodaeth am achosion iechyd) sydd ond ar gael i’r cyhoedd ar y pryd hynny yn Saesneg (e.e. ar dudalen we ar wefan GIG Lloegr), rwyf yn cynghori D i ddatblygu trefniadau i’w alluogi i gynhyrchu tudalen we gyfatebol ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg cyn gynted a bo modd, er mwyn gwella argaeledd gwybodaeth yn y Gymraeg mewn sefyllfa o’r fath (e.e. cyflwr Brech y Mwncïod).

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 09/05/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | **CS1032** Ar 21/07/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r achwynydd, sydd yn aelod staff y Cyngor, yn honni i'r Cyngor wrthod ei gais am wersi Cymraeg yn y gweithle. Honnai nad oes yr un aelod staff yn ei adran wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am wersi Cymraeg yn ystod y flwyddyn hon. | 09/05/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 130: Mae safon 130 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith:<br>- i'w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac<br>- i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.<br>Roedd amheuaeth bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda rhan gyntaf y safon, ond mae wedi dod i'r amlwg nad gwrthod cais yr achwynydd am wersi Cymraeg wnaeth y Cyngor, a'i fod mewn gwirionedd yn darparu cyfleoedd i'w staff dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol yn y gweithle. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 130.<br><br>Safon 131: Rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd i gyflogeion, sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol, gael hyfforddiant pellach am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Does dim tystiolaeth bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda'r safon yma. Mae gwybodaeth gan y Cyngor yn dangos ei fod yn darparu cyfleoedd i staff gael hyfforddiant pellach i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 131.<br><br>Safon 132: Mae safon 132 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyrsiau hyfforddi i'w staff i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; dealltwriaeth o'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau; a dealltwriaeth o ddefnyddio'r |

Gymraeg yn y gweithle. Yn yr achos yma, dywedodd y Cyngor bod ganddo gwrs sy'n cydymffurfio gyda safon 132, ond nad yw'n gwrs gorfodol i'w holl staff. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 132.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 130 ac 131 ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 132.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 132.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 132: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Disgwylir i unrhyw gynllun gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.
1. Rhaid i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda safon 132.

2. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu'r camau mae'r Cyngor am eu cymryd fydd yn ei alluogi i gydymffurfio gyda safon 132 yn llawn.
3. Rhaid i'r camau o fewn y cynllun gweithredu gynnwys ymrwymiad gan y Cyngor i:
• Greu a darparu hyfforddiant addas i'w staff i ddatblygu'r elfennau dan safon 132, sef:
(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'rGymraeg;
(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
• Sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'w holl staff fel hyfforddiantgorfodol yn flynyddol fel bod staff newydd a staff presennol yn cymryd rhan.
• Sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn llawn gyda safon 132.
4. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:
• Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau yn y cynllun.
• Sicrhau bod gan aelodau o'r Uwch Dim Rheoli rôl wrth graffu ar gynnydd y Cyngor ar y cynllun.
• Amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau o fewn y cynllun gyda phob un o'r camau i'w gyflawni mewn dim mwy na 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'rcynllun.
Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 09/05/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | **CS1081** Ar 11/11/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â dogfennaeth ar dudalen we1 sydd ar wefan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC). Mae'r dudalen we dan sylw yn ymwneud â chynnig datblygu gwasanaeth a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) ac Elusen Ambiwlans Awyr Cymru (WAAC). Ar 11/11/2022, fe wnaeth aelod o'r cyhoedd (P) ymweld â'r fersiwn Gymraeg o'r dudalen we er mwyn craffu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag, honnai P bod y ddogfen gynnig datblygu gwasanaeth wedi ei chyhoeddi ar y fersiwn Saesneg o'r dudalen we, ond heb ei chyhoeddi o gwbl ar y fersiwn Gymraeg gyfatebol o'r dudalen. Teimlai P fod | 21/04/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 39: Mae safon 39 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau (ymysg pethau eraill) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefannau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai o ran cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir ar dudalennau Cymraeg ei wefannau (o gymharu'r â'r tudalennau Saesneg cyfatebol). Ar 11/11/2022, fe wnaeth aelod o'r cyhoedd (P) ymweld â thudalen we ar ochr Gymraeg gwefan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) er mwyn craffu ar gynnig datblygu gwasanaeth a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) ac Elusen Ambiwlans Awyr Cymru (WAAC). Ar y dudalen we dan sylw, roedd cyfres o ddogfennau wedi eu cyhoeddi yn darparu gwybodaeth am y cynnig. Ar y fersiwn Saesneg o'r dudalen, roedd dogfen gynnig datblygu gwasanaeth wedi ei chyhoeddi (a hynny ers 02/11/2022). Ar y fersiwn Gymraeg o'r dudalen, nid oedd y ddogfen wedi ei chyhoeddi arni o gwbl (mewn unrhyw iaith). Ni chyhoeddwyd y ddogfen ar y fersiwn Gymraeg o'r dudalen we nes 15/11/2022, dros 2 wythnos ar ôl i D gyhoeddi'r ddogfen ar y dudalen Saesneg gyfatebol. Drwy beidio â sicrhau bod y ddogfen dan sylw ar gael ar y dudalen Gymraeg ar yr un pryd ag yr oedd ar gael ar y dudalen Saesneg gyfatebol, fe wnaeth D weithredu |

hwn yn enghraifft o'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan fod y rhai oedd yn dewis casglu gwybodaeth yn y Gymraeg (ar y wefan Gymraeg) yn derbyn llai o wybodaeth am y cynnig na'r rhai oedd yn dewis gwneud yr un peth yn Saesneg (ar y wefan Saesneg).

yn groes i safon 39, drwy drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safon 39 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau (ymysg pethau eraill) bod pob tudalen Gymraeg ar ei wefannau yn gweithredu'n llawn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod tudalen Gymraeg yn cynnwys yr un faint o wybodaeth arni ag a geir ar y dudalen Saesneg gyfatebol. Felly, roedd methiant D i sicrhau bod y ddogfen dan sylw (a oedd wedi ei chyhoeddi ar y wefan Saesneg) wedi ei chyhoeddi ar y wefan Gymraeg hefyd yn enghraifft o D yn methu â gofynion safon 39, drwy beidio â sicrhau bod pob tudalen Gymraeg ar ei wefan yn gweithredu'n llawn.

Safon 60: Mae safon 60 yn ei gwneud yn ofynnol i D hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo. Drwy gyhoeddi dogfen benodol ar ochr Saesneg gwefan https://pgab.gig.cymru a methu â chyhoeddi'r ddogfen o gwbl ar ochr Gymraeg y wefan, fe fethodd D â sicrhau bod ochr Gymraeg y wefan yn darparu gwasanaeth i ddefnyddwyr a oedd o'r un ansawdd a safon â'r gwasanaeth a ddarperir ar ochr Saesneg y wefan. Methodd D felly â hybu defnydd o'r fersiwn Gymraeg o'r wefan. Yn hytrach, darparwyd gwasanaeth oedd yn anghymell defnyddwyr i ddewis cyrchu'r wefan yn Gymraeg, gan ei fod yn israddol i'r wefan Saesneg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safon 39 a 60.

**Datganiad gweithredu pellach**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safon 39 a 60.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 39: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i D gymryd camau i sicrhau na ellir cyhoeddi cynnwys ar dudalen Saesneg, heb gyhoeddi'r un cynnwys (yn y Gymraeg os oes rhaid) ar y dudalen Gymraeg gyfatebol ar yr un pryd.<br>2. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 21/04/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **CS1019** Ar 21 Mehefin 2022 derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Mae cwyn yr achwynydd yn ymwneud ag gohebiaeth a dderbyniodd ar 15 Mehefin 2022 a | 13/04/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 1: Mae safon 1 yn berthnasol ar gyfer gohebiaeth y mae D yn ei derbyn yn Gymraeg a mae’n rhaid ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg. Anfonwyd ymateb Saesneg i ohebiaeth Gymraeg ddwy waith er bod P wedi gofyn yn yr ail ohebiaeth am ymateb Cymraeg. Mae D yn egluro taw camgymeriad un tro sydd yma gan fod yr aelod o staff arferol i ffwrdd o’r gwaith ar gyfnod o salwch, fodd |

21 Mehefin 2022 gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) mewn ymateb i negeseuon e-bost Cymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni bod y ddau ymateb i'r ohebiaeth Gymraeg gan y Bwrdd Iechyd yn Saesneg yn unig. Mae'r achwynydd hefyd yn nodi ei fod wedi rhoi gwybod yn yr ail ohebiaeth ei fod eisiau ymateb Cymraeg.

bynnag, nid cyfrifoldeb un aelod o staff yw sicrhau cydymffurfiaeth D â'r safonau. Mae D yn nodi bod cyflwyniad wedi cael ei roi mewn cyfarfod tîm staff gweinyddol ym mis Mai 2021. Ni dderbyniwyd copi o'r cyflwyniad wrth dderbyn yr ymateb i'r Hysbysiad Tystiolaeth. Mae D hefyd wedi egluro bod rheolwr yr aelod o staff wedi cynhyrchu Gweithdrefn Safonol (Standard Operating Procedure) er mwyn sicrhau bydd unrhyw ohebiaeth yn derbyn neges o gydnabyddiaeth yn ddwyieithog. Mae'r canfyddiad uchod yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â gofynion safon 1.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu cydymffurfio â safon 1

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu cydymffurfio â safon 1

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr cynnal hyfforddiant ar ofynion llawn y safonau gohebu, gan gynnwys trefniadau ymarferol ar sut i weithredu'r gofynion; i staff yr Uned Corfforaethol sy'n ateb neu delio ag gohebiaeth yn rheolaidd. Dylid sicrhau fod hyfforddiant o'r fath yn cael ei gynnwys mewn unrhyw sesiynau anwytho ar

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfer aelodau staff newydd a dylid sicrhau fod cyrsiau gloywi yn cael eu cynnal yn rheolaidd.<br>2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr datblygu trefniadau cadarn ar gyfer ymateb i ohebiaeth Gymraeg fel nad yw'n dibynnol ar aelodau staff unigol. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau fod trefniadau yn dibynadwy ac yn osgoi trefniadau sy'n agored i wallau dynol.<br>3. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2 erbyn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Amserlen: O fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 13/04/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **CS106 a CS123(b)** Fe wnaeth canlyniadau arolygon gwirio diweddar fy swyddogion o wasanaethau ffôn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (D), ynghyd â'r ymddygiadau honedig a amlygwyd yn y cwynion isod, greu amheuaeth o fethiant gan D i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ymwneud â gwasanaethau ffôn. | 11/04/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 8: Pan fydd person yn cysylltu â D ar un o'i brif rifau ffôn, neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, mae safon 8 yn ei gwneud yn ofynnol i D gyfarch y person hwnnw yn Gymraeg. Ar 27 Ionawr 2020 a 1 Tachwedd 2021, fe wiriodd un o fy swyddogion y gwasanaeth ffôn ar brif rif ffôn Ysbyty Glan Clwyd (01745 583 910) fel rhan o fy arolygon gwirio o gydymffurfiaeth D â safonau'r Gymraeg. Yn y ddwy alwad a wnaed, fe wnaeth yr aelod staff a atebodd yr alwad gyfarch fy swyddog yn |

Cwynion

Ar 14/01/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (CS106). Derbyniais gŵyn arall gan aelod arall o'r cyhoedd ar 25/02/2022 (CS123(b)). Roedd y ddwy gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n cwynion dilys. Fe honiwyd yng nghwyn CS106 bod yr achwynydd (P) wedi methu cael gwasanaeth Gymraeg wrth drefnu prawf COVID-19.

Nododd y gŵyn bod P wedi cysylltu â rhif ffôn 0300 085 2525 (Hwb Cyfeirio a Chanlyniadau) ar 17 Rhagfyr 2021 a dewis yr opsiwn Gymraeg. Fe nododd P y cafodd ateb Saesneg yn unig yn egluro nad oedd yr aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg. Eglurodd P y cafodd ei drosglwyddo i rifau eraill, ac fe honnodd na dderbyniodd gwasanaeth yn Gymraeg ar yr un rhif. Roedd cwyn CS123(b) gan achwynydd arall (P) yn ymwneud â'r profiad a gafodd wrth gysylltu â rhif ffôn cyffredinol Ysbyty Glan Clwyd (01745 583910) am tua 9:00 21 Chwefror 2022. Roedd P yn honni:

Saesneg yn unig. Yn achos cwyn CS123(b), fe gysylltodd yr achwynydd â phrif rif ffôn Ysbyty Glan Clwyd ar 21 Chwefror 2022. Honnodd yr achwynydd na wnaeth dderbyn gyfarchiad Cymraeg gan yr aelod o staff a atebodd y ffôn. Ni ddarparodd D unrhyw dystiolaeth i dystiolaethu bod y cyfarchiad dan sylw wedi ei wneud yn Gymraeg. Ar sail y diffyg tystiolaeth a fyddai wedi gwrthbrofi honiad yr achwynydd, ac ar sail bod fy arolygon gwirio wedi canfod achosion eraill o fethiant gan D i gyfarch personau yn Gymraeg ar y rhif hwn, ystyriaf ar sail tebygolrwydd ei fod yn fwy tebygol na pheidio bod D wedi methu â chyfarch yr achwynydd yn Gymraeg yn yr achos hwn hefyd.

Safon 9: Pan fydd person yn ffonio un o rifau ffôn perthnasol D, mae safon 9 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Ar 18 Gorffennaf 2019, 09 Medi 2019, 27 Ionawr 2020 a 01 Tachwedd 2021, fe wiriodd un o fy swyddogion y gwasanaeth ffôn ar brif rif ffôn Ysbyty Glan Clwyd (01745 583 910) fel rhan o fy arolygon gwirio o gydymffurfiaeth D â safonau'r Gymraeg. Ni wnaeth D roi gwybod i'r swyddog bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn unol â'r safon mewn unrhyw un o'r galwadau a wnaed.

4.37 Yn achos cwyn CS123(b), fe honnodd yr achwynydd na rhoddodd D wybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn ystod yr alwad a wnaeth i brif rif ffôn Ysbyty Glan Clwyd ar 21 Chwefror 2022. Ni wnaeth D ddiwallu gofyniad safon 9 o roi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn ymhob adeg o'r alwad yr oedd disgwyl iddo ei wneud. Ni rhoddodd D wybod i'r achwynydd ar gychwyn yr alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Dim ond wrth i'r achwynydd gyfleu i'r aelod staff a atebodd y ffôn yn nes

- iddi fethu â derbyn cyfarchiad Cymraeg gan yr aelod o staff a atebodd y ffôn;
- y gofynnodd am wasanaeth Cymraeg gan yr aelod o staff ac y derbyniodd yr ymateb “I'd rather speak in English”;
- y gofynnodd P i’r aelod staff am gael siarad â rhywun arall oedd yn medru’rGymraeg, a throsglwyddwyd yr alwad i aelod arall o staff. Dechreuodd P siarad â’r aelod staff arall yn Gymraeg a honnir iddo ef neu hi ymateb i P gan ddweud “I would rather speak to you in English”.

<u>Gwybodaeth am gydymffurfiaeth D â safonau’r Gymraeg</u>
Amlygodd canfyddiadau yr arolygon gwirio a gynhaliwyd yn 2019–20 a 2021–22 amheuon pellach o ddiffyg cydymffurfiaeth â safonau’r Gymraeg ar y rhifau ffôn isod:
- Ysbyty Glan Clwyd (01745 583910)
- Ysbyty Llandudno (03000 850 013).

ymlaen yn yr alwad ei anfodlonrwydd o fethu â derbyn gwasanaeth ffôn yn Gymraeg, a gwneud cais am wasanaeth Cymraeg, y bu D roi gwybod i’r achwynydd bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael (a cheisio cyfeirio’r achwynydd i siaradwr Cymraeg). Ar 01 Tachwedd 2021, fe wnaeth un o fy swyddogion galwad i brif rif ffôn Ysbyty Llandudno fel rhan o fy arolygon gwirio. Ar ôl i’r swyddog ddewis yr opsiwn Gymraeg ar y ffôn, fe wnaeth system ffôn awtomataidd cyfeirio’r alwad i aelod staff nad oedd yn gallu delio â’r swyddog yn Gymraeg. Er gwaethaf i’r swyddog gael eu cyfeirio i rywun nad oedd yn gallu delio â’r alwad yn Gymraeg ar ôl dewis yr opsiwn Gymraeg, fe fethodd D â sicrhau bod yr aelod staff a drosglwyddwyd iddynt wedyn yn mynd ati i roi gwybod i’r swyddog bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn.

Safon 10: Pan fo person yn cysylltu â chorff ar ei brif rif ffôn (neu ar un o’i brif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i’r corff ddelio â’r alwad yn Gymraeg os yw’r person yn dymuno hynny—
(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo’r alwad i aelod o staff nad yw’n siarad Cymraeg sy’n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy’n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.
Ar 18 Gorffennaf 2019, 9 Medi 2019, 27 Ionawr 2020 a 1 Tachwedd 2021, fe wiriodd un o fy swyddogion y gwasanaeth ffôn ar brif rif ffôn Ysbyty Glan Clwyd (01745 583 910) fel rhan o fy arolygon gwirio o gydymffurfiaeth D â safonau’r Gymraeg. Fe wnaeth D fethu â delio â’r galwadau yn Gymraeg yn unol â gofynion y safon. Yn achos cwyn CS123(b), fe gysylltodd yr

achwynydd â rhif ffôn Ysbyty Glan Clwyd ar 21 Chwefror 2022. Fe honwyd y gwnaeth yr aelod o staff a atebodd y ffôn ddelio â'r achwynydd yn Saesneg yn unig, ac fe drosglwyddodd yr aelod o staff yr alwad i aelodau staff nad oeddynt yn gallu delio â'r alwad yn Gymraeg. Ar sail y diffyg tystiolaeth a fyddai wedi gwrthbrofi honiad yr achwynydd, ac ar sail bod fy arolygon gwirio wedi canfod achosion eraill o fethiant gan D i ddelio â galwadau ar y rhif ffôn hwn yn Gymraeg, ystyriaf ar sail tebygolrwydd ei fod yn fwy tebygol na pheidio bod yr atebydd wedi methu â delio â galwad yr achwynydd yn Gymraeg yn yr achos hwn. Ceir tystiolaeth bod yr aelod staff a atebodd yr alwad wedi trosglwyddo'r alwad i rywun arall er mwyn ymateb i gais yr achwynydd i dderbyn gwasanaeth ffôn yn Gymraeg. Ond, roedd y safon yn gofyn bod yr aelod staff a atebodd yr alwad yn delio gydag (o leiaf rhan gyntaf) yr alwad yn Gymraeg, heb orfod trosglwyddo'r alwad i unrhyw un arall. Dim ond os a phan yr oedd gofyn i ddelio â "phwnc penodol" yr alwad yr oedd caniatâd yn unol â'r safon i drosglwyddo'r alwad i unrhyw un arall. Nid oedd yr alwad yn gofyn i'r aelod staff ddelio â "phwnc penodol" ar y pwynt dan sylw, ond yn hytrach, yn gofyn i gael sgwrs gychwynnol gyda'r galwr a sefydlu beth oedd natur ei alwad. Roedd y weithred o drosglwyddo'r alwad yn gynamserol i rywun arall felly, ynddo'i hun, yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 10. Ar 1 Tachwedd 2021, fe wnaeth un o fy swyddogion galwad i brif rif ffôn Ysbyty Llandudno fel rhan o fy arolygon gwirio. Ni wnaeth D ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn unol â gofynion y safon. Yn achos cwyn CS106, bu'r achwynydd gysylltu â rhif ffôn yr Hwb Cyfeirio a Chanlyniadau ar 17 Rhagfyr 2021. Honnodd yr achwynydd, ar ôl dewis yr opsiwn Gymraeg, y

gwnaeth aelod o staff a atebodd y ffôn ddelio gyda'r achwynydd yn Saesneg yn unig, ac fe drosglwyddodd yr aelod o staff yr alwad i aelodau staff nad oeddynt yn gallu delio â'r alwad yn Gymraeg. Yn dilyn ystyriaeth o'r achos, ar ôl i'r achwynydd ddewis derbyn gwasanaeth Cymraeg drwy'r system ffôn awtomataidd, cyfeiriwyd yr alwad at aelod staff i ddelio â'r alwad. Ni wnaeth yr aelod staff gyfarch yr achwynydd yn Gymraeg ac ni wnaeth ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn unol â gofynion y safon. Fe wnaeth yr aelod staff drosglwyddo yr alwad at aelod o staff arall cyn bod yr alwad yn gofyn i ddelio â "phwnc penodol" yr alwad. Am nad oedd yr alwad yn gofyn i'r aelod staff ddelio â "phwnc penodol" ar y pwynt hwnnw, nid oedd y safon yn caniatáu i'r alwad gael ei throsglwyddo i unrhyw un arall. Roedd trosglwyddo'r alwad felly, ynddo ei hun, yn enghraifft o fethiant gan D i gydymffurfio â'r gofynion.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu cydymffurfio â safonau 8, 9 a 10.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu cydymffurfio â safonau 8, 9 a 10.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 8; 9 a 10: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (D) baratoi cynllun gweithredu.

Rwyf yn gwneud hyn at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau 8; 9 a 10 rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Disgwylir i'r cynllun gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau cyffredinol a gynhwysir yn "Dogfen Gyngor: Canllaw ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg."

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- disgrifiad o bob un o'r camau y bydd D yn eu cymryd i sicrhau, pan fydd person yn cysylltu â D ar ei rifau ffôn perthnasol:
- bod D yn cyfarch y person hwnnw yn Gymraeg, yn unol â gofynion safon 8;
- bod D yn rhoi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, yn unol â gofynion safon 9;
- bod D, yn unol â gofynion safon 10, yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—
(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.
- amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir), gyda phob un o'r camau i'w cyflawni mewn dim mwy na 6 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo'r cynllun;

- pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu pob un o'r camau a nodir yn y cynllun;
- pwy o'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd D yn erbyn y cynllun gweithredu;
- disgrifiad o'r drefn oruchwylio a fabwysiedir i sicrhau cyflawniad y cynllun;
- yr adnoddau (e.e. cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Safon 8
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod D yn codi ymwybyddiaeth yr holl staff sy'n gyfrifol am ateb galwadau ar ei rifau ffôn perthnasol o'r ddyletswydd i gyfarch personau yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 8 ac o sut a phryd y mae'n rhaid cyfarch personau yn Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon.

Disgwylir i D sicrhau'r uchod drwy wneud y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i wneud y canlynol):
- darparu sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith (y mae D wedi'i
drefnu fel y prif ffordd o sicrhau bod staff yn ymwybodol o ofynion safon 8) i bob rheolwr ac aelod staff sy'n gyfrifol am sicrhau bod D yn cyfarch personau yn Gymraeg ar ei rifau ffôn perthnasol;
- sicrhau bod cardiau 'Sut i ateb y ffôn' (ac unrhyw gweithdrefnau a chanllawiau eraill perthnasol) wedi eu dosbarthu i, ac yn cael eu defnyddio gan, bob rheolwr ac aelod o staff sydd yn gyfrifol am sicrhau bod D yn cyfarch personau yn Gymraeg ar ei rifau ffôn perthnasol.

Safon 9
Disgwylir i’r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- bod holl rifau ffôn perthnasol D yn rhoi gwybod i bersonau sy’n galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, ymhob adeg o’r alwad y disgwylir ei wneud yn unol â safon 9.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod D yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn:
- ar ddechrau unrhyw alwad (e.e. gan roi gwybod drwy system ffôn awtomataidd ac/neu drwy’r aelod staff a atebir yr alwad yn rhoi gwybod ac/neu drwy’r aelod staff yn dechrau’r sgwrs yn Gymraeg yn syth), ac
- pan fo aelod staff yn trosglwyddo’r alwad i aelod staff arall (sy’n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).
- os nad yw D yn cydymffurfio â safon 9 mewn unrhyw fodd arall, bod D yn sefydlu system ffôn awtomataidd ar y rhif ffôn sy’n rhoi gwybod i bob galwr ar ddechrau’r alwad bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn, drwy roi dewis iddynt dderbyn gwasanaeth Cymraeg (neu Saesneg) gan bwyso rhif penodol ar y ffôn.
- bod pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 9 yn egluro’r camau y mae’n rhaid i staff eu cymrydmewn galwad ffôn er mwyn diwallu dyletswyddau safon 9 yn llawn.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob canllaw yn cyfleu’r canlynol:
- sut a phryd y mae’n rhaid i staff, sy’n ateb galwadau ar rifau ffôn lle atebir yr alwad yn syth gan aelod staff (ac nid

gan system ffôn awtomataidd), roi gwybod i bersonau bod yna wasanaeth Cymraeg ar gael ar y ffôn (os nad yw hynny eisoes yn glir i'r person oherwydd bod yr aelod staff wedi dechrau'r sgwrs gyda'r person yn Gymraeg yn syth),
- sut a phryd y mae'n rhaid i staff roi gwybod y bydd gwasanaeth Cymraeg yn parhau ar gael ar y ffôn wrth i'r aelod staff drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall (sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol yr alwad yn Gymraeg).

Safon 10
Disgwylir i'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—
- os yw person yn cysylltu ag un o rifau ffôn perthnasol D, bod D yn delio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—
(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol os yw'r person yn dymuno i D ddelio â'r alwad dan sylw yn Gymraeg:
- (yn dilyn gwneud y cyfarchiad cyntaf i'r person yn Gymraeg yn unol â safon 8), bod unrhyw gyfarchiadau eraill y mae D yn eu gwneud i'r person hwnnw yn ystod yr alwad yn cael eu gwneud yn Gymraeg;
- bod yr aelod staff sy'n ateb yr alwad yn gallu sefydlu natur yr alwad, cynnal sgwrs gychwynnol a delio ag unrhyw ymholiad nad yw'n ymwneud â "phwnc penodol" (e.e. ymholiad cyffredinol), yn Gymraeg;

- sicrhau nad yw’r alwad yn cael ei throsglwyddo gan yr aelod staff sy’n ateb y ffôn i aelod staff arall er mwyn delio â hi yn Gymraeg, cyn bod yr alwad yn gofyn i ddelio â “phwnc penodol” (e.e. mater arbenigol);
- unwaith y mae’r alwad yn gofyn i ddelio â “phwnc penodol”, ac nad yw’r aelod staff sy’n ateb yr alwad yn gallu delio â’r pwnc penodolyn Gymraeg ei hun, bod D yn gwirio a oes aelod o staff ar gael sy’n gallu delio â phwnc penodol yr alwad yn Gymraeg, ac os oes un ar gael, bod yr atebydd yn trosglwyddo’r alwad i’r aelod staff hwnnw i ddelio â’r pwnc penodol yn Gymraeg.
- bod D yn ddiwygio ei holl weithdrefnau, polisïau a chanllawiau (a dogfennau perthnasol eraill) sy’n berthnasol i gydymffurfio â safon 10 i sicrhau bod holl ofynion safon 10 yn cael eu hadlewyrchu yn glir ac yn gywir.

Mae hyn yn cynnwys diwygio, ond nid yw’n gyfyngedig i ddiwygio, pob canllaw a roddir i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion safon 10.

Amserlen:
Rhaid i D lunio drafft cyntaf o’r cynllun gweithredu a rhoi’r drafft hwnnw i’r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Erbyn 4 wythnos o ddyddiad cyflawni y cam gweithredu olaf a gynhwysir yn y cynllun gweithredu, rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni pob un o’r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu (erbyn y dyddiad cyflawni perthnasol ar gyfer cyflawni pob cam unigol).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 11/04/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1068** Ar 13/10/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd ar ôl derbyn ymateb gyda'r Saesneg yn gyntaf ar ôl iddo gyflwyno cwyn yn Gymraeg i Drafnidiaeth Cymru. Fe wnaeth yr achwynydd esbonio bod rhaid iddo ddarllen drwy'r Saesneg cyn gweld bod testun Cymraeg hefyd. | 06/04/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i sefydliadau sy'n anfon yr un ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, i beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Derbyniodd yr achwynydd e-bost awtomataidd gan Weinidogion Cymru mewn ymateb i gŵyn yr anfonodd at Drafnidiaeth Cymru. Roedd y testun Saesneg yn ymddangos gyntaf ac nid oedd modd i'r achwynydd weld bod testun Cymraeg hyd nes ar ôl iddo ddarllen y fersiwn Saesneg. Er mwyn cydymffurfio gyda safon 6 roedd angen i Weinidogion Cymru sicrhau bod modd i'r derbynnydd weld y testun Cymraeg heb orfod cymryd camau ychwanegol. Gan nad oedd modd i'r achwynydd weld y fersiwn Gymraeg o'r e-bost wrth ei agor, nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio gyda safon 6 yn yr achos yma.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 6.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ar y sail bod Gweinidogion Cymru wedi cymryd camau i gywiro'r methiant i gydymffurfio rwyf wedi penderfynu peidio â gweithredu ymhellach yn yr achos hwn yn unol ag adran 78 Mesur y Gymraeg.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 06/04/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bro Morgannwg | **CS1036** Ar 08/08/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniais gŵyn am ddiffyg darpariaeth honedig o dystysgrif geni dwyieithog i unigolion oedd yn dymuno cyfweliad cofrestru Saesneg gyda'r Cyngor. Gwnaeth yr achwynydd a'i bartner, sy'n ddysgwyr Cymraeg, wneud cais am gyfweliad cofrestru genedigaeth gyda'r Cyngor. Nid oedd yr achwynydd na'i bartner yn hyderus i wneud y cyfweliad yma yn Gymraeg ac felly, trefnwyd apwyntiad Saesneg i gofrestru'r enedigaeth. Yn ôl yr achwynydd, ni gynhigiwyd tystysgrif geni ddwyieithog iddynt gan fod y | 06/04/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 42: Mae safon 42 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw drwyddedau neu dystysgrifau a fydd yn eu llunio yn cael eu llunio yn Gymraeg. Oherwydd gofynion Deddf Genedigaethau a Marwolaethau 1953, nid oes modd i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystysgrif geni uniaith Gymraeg yn y sefyllfa yma. Medrir darparu tystysgrif ddwyieithog neu dystysgrif uniaith Saesneg yn unig. Tystysgrif uniaith Saesneg a roddwyd i'r achwynydd a'i bartner. Ni roddwyd dewis iddynt p'un ai tystysgrif ddwyieithog neu uniaith Saesneg oedd eu dymuniad. Mae hyn yn groes i ofynion safon 42 ac yn fethiant i gydymffurfio.<br><br>Safon 81: Mae safon 81 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff hybu a hysbysebu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a gwneud hynny yn Gymraeg. Mae 'hybu' a 'hysbysebu' yn cynnwys corff yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol drwy roi sylw i'r ffaith bod gwasanaeth |

| | |
|---|---|
| Cyngor yn tybio (yn anghywir) mai Saesneg oedd dewis iaith y ddau yn sgil y cais am gyfweliad cofrestru Saesneg. | Cymraeg ar gael ac yn annog defnydd o'r gwasanaeth hwnnw. Yn yr achos yma, ni fu unrhyw hybu na hyrwyddo rhagweithiol o wasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 81.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safonau 42 ac 81.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safonau 42 ac 81.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach**<br>Safon 42: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Rhaid i'r Cyngor ddiwygio'r weithdrefn ar gyfer trefnu apwyntiad i gofrestru genedigaeth er mwyn sicrhau ei fod yn rhagweithiol wrth gynnig darparu tystysgrif genedigaeth ddwyieithog i bawb.<br>2. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff y ganolfan gyswllt am y weithdrefn newydd sydd mewn lle wrth drefnu apwyntiad cofrestru, ac am yr angen i ofyn a ddymunir derbyn tystysgrif ddwyieithog ai peidio.<br>3. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.<br><br>Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 06/04/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1044 a CS1064** Ar 30/08/2022 a 4/10/2022 derbyniais gwynion gan ddau aelod o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yma yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys. Roedd y ddau aelod o'r cyhoedd yn anfodlon bod y cyhoeddiadau ar orsaf trenau Bangor yn Saesneg yn unig. | 06/04/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 87: Mae safon 87 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyhoeddiadau dros systemau annerch cyhoeddus yn cael eu gwneud yn Gymraeg a bod y Gymraeg i'w chlywed gyntaf. Cysylltodd dau achwynydd gyda mi i ar ôl clywed cyhoeddiadau sain Saesneg yn unig yng ngorsaf Bangor. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru nad oedd y cyhoeddiadau sain ar yr orsaf yn cael eu gwneud yn Gymraeg. Gan nad oedd y cyhoeddiadau sain a wnaed dros y systemau annerch cyhoeddus yng ngorsaf Bangor yn cael eu gwneud yn Gymraeg, rwyf yn dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 87 yn yr achos yma.<br><br>**Dyfarniad y Comisiynydd**<br>O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 87.<br><br>**Datganiad gweithredu pellach**<br>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 87.<br><br>**Datganiad ar y gweithredu pellach** |

Safon 87: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau fod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 87 wrth wneud cyhoeddiadau sain mewn gorsafoedd sydd o dan eu cyfrifoldeb.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:
• Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru y neu cymryd i sicrhau bod cyhoeddiadau sain mewn gorsafoedd yn cydymffurfio â safon 87
• Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
• Yr adnoddau (eg cyllid / staff / hyfforddiant) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys camau i sicrhau—
• bod Gweinidogion Cymru yn cynnal awdit o'r holl systemau sain ar orsafoedd i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 87,
• bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 87 wrth wneud cyhoeddiadau sain ar orsafoedd sydd o dan eu cyfrifoldeb o fewn 9 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Amserlen:
Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 06/04/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Sir y Fflint | **CS1055** Ym mis Tachwedd 2021, cyflwynodd y Comisiynydd Adroddiad Terfynol ymchwiliad CSG803 i Gyngor Sir y Fflint (Cyngor) oedd yn dyfarnu eu bod wedi methu â chydymffurfio â Safon 19. Roedd yr Hysbysiad Penderfynu yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau penodol i atal y methiant rhag parhau neu rhag cael ei ailadrodd. Roedd rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cwblhau'r cam gorfodi o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. Ar gais y Cyngor, rhoddwyd 6 mis ychwanegol hyd 01/09/22 i'r Cyngor gwblhau rhan benodol o Gam Gorfodi 1. Wedi'r cyfnod estynedig yma, cafwyd cais pellach gan y Cyngor am 5 mis ychwanegol i gyflawni'r Cam Gorfodi yn llawn. Cododd hyn amheuaeth nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion rhan benodol o'r Cam Gorfodi hysbysiad | 27/03/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Dyma'r cam gorfodi a roddwyd i'r Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG803: Safon 19<br>Cam gorfodi<br>1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint wneud y canlynol:<br>o Ail-ystyried gofynion Safon 19<br>o Adolygu ei ganllawiau i adlewyrchu gofynion y safon<br>o Newid ei drefniant delio â galwadau ffôn i gydymffurfio â gofynion Safon 19<br>o Hyfforddi staff perthnasol am ofynion y safon<br>2. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth i mi ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol<br><br>Ystyried cydymffurfiaeth â'r cam gorfodi<br>3.2 Wrth wneud cais am yr estyniad cyntaf i gwblhau'r cam penodol o Gam Gorfodi 1 yn Chwefror 2021, dywedodd y Cyngor: "Mae gan fwy na 2300 o weithwyr rifau ffôn uniongyrchol. Bydd angen i ni archwilio sgiliau, capasiti ac adnoddau presennol er mwyn sicrhau bod datrysiadau effeithiol ar waith ar gyfer y gweithwyr hyn. Bydd angen i ni adolygu gallu ein technoleg bresennol hefyd a gweithredu datrysiadau teleffoni newydd os oes angen. Hoffem estyniad ar gyfer newid ein trefniadau delio gyda galwadau |

| | | |
|---|---|---|
| | cydymffurfio CSG803 o fewn yr amserlen na'r estyniad a roddwyd iddynt. | er mwyn rhoi amser i'n gwasanaethau roi datrysiadau teleffoni amgen ar waith, fel caniatáu i gwsmeriaid ddewis iaith, a gwneud trefniadau amgen o fewn gwasanaethau eraill. Hoffem ofyn am estyniad o 6 mis i sicrhau bod pob gwasanaeth a gweithiwr sy'n darparu rhifau deialu uniongyrchol yn gallu bodloni'r gofynion yn llawn."<br>3.3 Yn yr ail gais am estyniad gwnaethpwyd ar 31/08/22, dywedodd y Cyngor:<br>"[…] Rydym wedi cyflogi trydydd parti sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth ateb galwadau dwyieithog y tu allan i oriau ar gyfer y Cyngor. Mae'r darparwr wedi cytuno, mewn egwyddor, i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer galwadau deialu uniongyrchol i'r Cyngor lle nad yw swyddog yn siarad Cymraeg.<br><br>Rydym yn gweithio gyda'r darparwr i weld sut y bydd yr agweddau technegol yn gweithio e.e. llwybro galwadau ac unrhyw drefniadau ychwanegol y bydd angen iddynt eu rhoi ar waith i ddarparu'r gwasanaeth. Bydd angen i ni gyfleu newidiadau pwysig i'n gweithlu hefyd. Rydym yn cwrdd â'r darparwr ym mis Medi i fynd rhagddi gyda'n cynlluniau a chadarnhau costau. Unwaith y cytunir arnynt, bydd angen cyflwyno'r cynigion i'r Tîm Prif Swyddogion i'w cymeradwyo. Mae hyn yn golygu na fydd ein cynnig ar gyfer ymateb i alwadau Cymraeg drwy rifau deialu uniongyrchol, yn anffodus, ar waith erbyn 1 Medi, 2022. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Tîm Prif Swyddogion, bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer rhoi'r cynnig ar waith. Caiff copi o'r cynllun gweithredu hwn ei anfon atoch cyn gynted â phosibl." |

3.4 Yn eu tystiolaeth i'r ymchwiliad yma, mae'n ymddangos bod y gwaith o drafod gyda'r trydydd parti wedi cychwyn ym mis Mehefin 2022. Mae'n ymddangos, o gais y Cyngor am estyniad ym mis Chwefror 2022, eu bod dal i geisio canfod datrysiad mewnol fuasai yn eu galluogi i gydymffurfio gyda'r Safon hon.

3.5 Fodd bynnag, mae Mehefin 2022 dros 6 mis ar ôl i'r Adroddiad Terfynol gael ei gyhoeddi. Er fy mod yn derbyn bod gwaith mewnol ac ystyriaethau cyn bod modd cychwyn trafod gyda thrydydd parti, mae'n destun pryder i mi, os oedd yn dod yn amlwg i'r Cyngor eu bod yn mynd i orfod dibynnu ar wasanaeth allanol i allu cydymffurfio, nad oedd y trafodaethau hynny wedi cychwyn yn gynharach. Dylai sefydliad ystyried, wrth dderbyn Adroddiad Arfaethedig ac felly cyn derbyn Adroddiad Terfynol, sut y byddent yn mynd ati i gydymffurfio gydag unrhyw gamau gorfodi yn ystod yr amser sydd wedi ei bennu i'w cwblhau. Dylai ystyriaeth gydwybodol gael ei roi i amserlen unrhyw Gamau Gorfodi sydd yn cael eu gosod yn yr Adroddiad Arfaethedig. Dylai'r Cyngor fod wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd fel rhan o'u sylwadau yn ymateb i'r Adroddiad Arfaethedig os oedd rheswm penodol nad oedd y Cyngor am allu cydymffurfio gyda'r Camau Gorfodi arfaethedig o fewn yr amser oedd wedi ei bennu i'w cwblhau. Nid ydi disgwyl hyd bron i'r diwrnod olaf mae'r Camau Gorfodi i fod wedi eu cwblhau i ofyn am estyniad yn dderbyniol.

3.6 Fodd bynnag, o dystiolaeth y Cyngor, mae'n ymddangos i mi eu bod nawr wedi buddsoddi mewn gwasanaeth sydd wedi eu galluogi i gydymffurfio gyda'r Hysbysiad Penderfynu. Mae'r gwasanaeth yma nawr yn fyw ac felly bod y Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth i ddefnyddwyr sydd yn cydymffurfio gyda Safon 19 yn llawn.

3.7 Rwyf hefyd yn falch i ddarllen am y system monitro siopwr dirgel mae'r Cyngor wedi ei roi mewn lle er mwyn gwerthuso eu gwasanaeth a bod trafodaethau cyson am barhau gyda'r trydydd parti. Mae'r gwaith mae'r Cyngor wedi ei ddatblygu gyda Choleg Cambria hefyd yn galonogol ac anogaf y Cyngor i barhau gyda'r bartneriaeth yna i geisio cynyddu sgiliau Cymraeg ei staff.
3.8 Hoffwn fodd bynnag ei wneud yn glir fod y Cyngor yn eu tystiolaeth wedi cyfeirio at rifau ffôn uniongyrchol 'cyhoeddedig' ar eu gwefan mewn un rhan o'u hymateb. Hoffwn atgoffa'r Cyngor bod Safon 19 yn cynnwys unrhyw rif ffôn uniongyrchol sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Gall hynny gynnwys rhifau wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ond hefyd rhifau sydd wedi eu nodi mewn pennyn llythyr i'r cyhoedd neu fel rhan o fanylion cyswllt mewn llofnod e-bost sydd yn cael ei yrru yn allanol. Hyderaf fod y Cyngor wedi gwneud trefniadau pwrpasol gyda'r trydydd parti sydd yn cwmpasu'r holl oblygiadau hynny.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â Hysbysiad Penderfynu Ymchwiliad CSG803
3.9 Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda'r Hysbysiad Penderfynu o fewn yr amser estynedig rhoddwyd iddynt gwblhau Cam Gorfodi 1 yn llawn.
3.10 Rhaid nodi fodd bynnag fod tystiolaeth y Cyngor yn dangos eu bod bellach wedi sicrhau trefniant sydd yn golygu eu bod yn gallu cydymffurfio gyda Safon 19 a Hysbysiad Penderfynu ymchwiliad CSG803. Fodd bynnag gofynnaf i'r Cyngor barhau i werthuso ei wasanaeth yn rheolaidd ac i sicrhau fod y trefniant gyda'r trydydd parti yn bwrpasol i gwmpasu holl oblygiadau safon 19.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu cydymffurfio â Hysbysiad Penderfynu Ymchwiliad CSG803.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu cydymffurfio â Hysbysiad Penderfynu Ymchwiliad CSG803.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i'r Cyngor gael gweithdrefn ble os oes ymchwiliad yn cael ei gynnal gan Gomisiynydd y Gymraeg, bod ystyriaeth gydwybodol yn cael ei roi i amserlen unrhyw Gamau Gorfodi sydd yn cael eu gosod gan y Comisiynydd yn yr Adroddiad Arfaethedig. Dylai'r Cyngor ystyried yr amserlen yn ofalus, gan roi gwybod i'r Comisiynydd fel rhan o'u sylwadau yn ymateb i'r Adroddiad Arfaethedig os oes rheswm penodol na all y Cyngor gydymffurfio gyda Chamau Gorfodi arfaethedig o fewn yr amser sydd wedi ei bennu i'w cwblhau.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw ar gyfer staff perthnasol ble os oes Camau Gorfodi yn cael eu gosod gan y Comisiynydd, bod gweithdrefn mewn lle i sicrhau fod y Camau yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 2.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br>Argymhellion yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>1. Atgoffaf y Cyngor bod Safon 19 yn cynnwys unrhyw rif ffôn uniongyrchol sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Gall hynny gynnwys rhifau wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ond hefyd rhifau sydd wedi eu nodi mewn pennyn llythyr i'r cyhoedd neu fel rhan o fanylion cyswllt mewn llofnod e-bost sydd yn cael ei yrru yn allanol. Gofynnaf i'r Cyngor sicrhau eu bod wedi gwneud trefniadau pwrpasol gyda'r trydydd parti sydd yn cwmpasu holl ofynion y Safon.<br>2. Dylai'r Cyngor barhau gyda'u gwaith monitro o'r gwasanaeth yn unol â Safon 19 i sicrhau safon.<br>3. Dylai'r Cyngor barhau gyda'u ymdrechion i gynyddu capasiti sgiliau Cymraeg y gweithlu.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 27/03/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1033** Ar 29/07/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn am y ffaith bod 'togl' dewis iaith ar borth ar y wefan | 14/03/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 6: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 6 pan mae Gweinidogion Cymru yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid iddo beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma cafodd safon 6 ei gynnwys yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad gan bod amheuaeth bod gohebiaeth Gymraeg yn cynnwys dolen i ochr Saesneg |

‘GwerthwchiGymru’ yn ddiffygiol, ac yn achosi iddo orfod cychwyn o’r newydd gyda’r broses ar y fersiwn Gymraeg yn hytrach na throsglwyddo i’r un dudalen ag oedd ar y fersiwn Saesneg. Cyfeiriodd yr achwynydd hefyd at ddolen o neges e-bost a oedd yn ei gyfeirio at y wefan Saesneg.

porth GwerthwchiGymru. Ar ôl derbyn tystiolaeth gan Weinidogion Cymru fe ddaeth i’r amlwg bod yr ohebiaeth anfonwyd at yr achwynydd yn Saesneg. Gan bod yr ohebiaeth anfonwyd at yr achwynydd yn Saesneg nid yw’r ffaith bod y ddolen yn yr ohebiaeth yn arwain at ochr Saesneg y porth GwerthwchiGymru yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 6.

Safon 55: Os oes gan sefydliad dudalen Gymraeg ar eu gwefan sydd yn cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid i’r corff nodi’n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg. Yn yr achos yma, fe gysylltodd achwynydd gyda’r Comisiynydd i esbonio nad oedd modd newid o un iaith i’r llall ar y porth GwerthwchiGymru er bod dolen ar dudalennau Saesneg y porth. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru nad oedd y ddolen yn arwain yr achwynydd at dudalen Gymraeg cyfatebol ond yn hytrach ar dudalen flaen y porth. Gan nad oedd y ddolen ar dudalennau Saesneg y porth yn arwain yr achwynydd at dudalen Gymraeg cyfatebol ond yn hytrach ar dudalen flaen y porth, nid wyf o’r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio gyda safon 55 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 6 ond bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 55.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 55.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 55: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safon 55 mewn perthynas â'r porth GwerthwchiGymru.

Rhaid i'r cynllun gweithredu drafft gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o bob un o'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda safon 55 mewn perthynas â'r porth GwerthwchiGymru er mwyn sicrhau bod pob tudalen Saesneg yn cynnwys dolen sy'n arwain yn uniongyrchol i dudalen gyfatebol Gymraeg yn hytrach nag i'r hafan.
- Pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)
- Yr adnoddau (eg cyllid / staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 55 mewn perthynas â'r porth GwerthwchiGymru erbyn mis Gorffennaf 2024.

Amserlen: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safon 2: Argymhelliad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg<br>Rwy’n argymell bod Gweinidogion Cymru yn cymryd camau i sicrhau ei bod yn cadarnhau dewis iaith unigolion sy’n cofrestru ar gyfer gwasanaethau GwerthwchiGymru er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safon 2 wrth anfon gohebiaeth atynt.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 14/03/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **CS1020** Ar 09/06/2022, derbyniais gŵyn gan aelod o’r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly’n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag ymweliad aelod o’r cyhoedd (P) a’i blentyn ag Ysbyty Glan Clwyd ar 30 Mehefin 2022. Enw Cymraeg sydd ar blentyn P. Fe honnodd P bod meddyg wedi dod i helpu ei blentyn ar ôl iddi lewygu o flaen prif ddrws yr ysbyty ac y bu’r meddyg ofyn i’r plentyn, ar ôl clywed ei henw, “Have you got a nickname? There's no way I can pronounce that name”. Teimlodd P yr oedd | 10/03/2023 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Safon 102: Er mwyn cydymffurfio â safon 102, mae'n ofynnol i D ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i’w gyflogeion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o’r Gymraeg, eu dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg a’u dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Mae safon 102 yn gosod dyletswydd ar D i ddarparu cyrsiau’r hyn i bob un o’i gyflogeion presennol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod D wedi sicrhau bod pob un o’i gyflogeion wedi bod ar gyrsiau hyfforddi yn unol â safon 102. Mae tystiolaeth bod D wedi darparu cyrsiau hyfforddi i gyfran o’i gyflogeion yn unig.<br><br>Safon 103: Mae safon 103 yn ei gwneud yn ofynnol i D sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth i’w holl gyflogeion |

geiriau honedig y meddyg yn dangos diffyg parch tuag at ei blentyn.

newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae D yn trefnu i'r wybodaeth hon gael ei darparu fel rhan o sesiynau anwytho i staff newydd ar ddechrau eu cyfnod gyda'r sefydliad. Nid oes tystiolaeth bod D wedi sicrhau bod ei holl gyflogeion newydd wedi derbyn gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg drwy'r sesiynau anwytho dan sylw, gan nad yw D yn casglu nac yn cofnodi'r data hwn. Ystyriaf felly bod D wedi darparu gwybodaeth i gyfran o'i gyflogeion newydd yn unig.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 102 ac 103.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safonau 102 ac 103.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safonau 102 a 103: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Yn unol â safon 102, rhaid i D ddarparu cyrsiau hyfforddi i bob un o'i gyflogeion presennol er mwyn iddynt ddatblygu–
- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
- dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; ac

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | - dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br>2. Yn unol â safon 103, rhaid i D ddarparu gwybodaeth i bob un o'i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg (drwy sicrhau bod pob cyflogai newydd wedi bod ar gwrs ymwybyddiaeth iaith Gymraeg sy'n cynnwys yr wybodaeth hon).<br>3. Rhaid i D gadw cofnod o'r nifer a'r canran:<br>- o'i holl gyflogeion sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 102; ac<br>- o'i holl gyflogeion newydd sydd wedi bod ar gwrs hyfforddi a ddarperir i gydymffurfio â safon 103.<br>4. Rhaid i D ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.<br><br>Amserlen: O fewn 9 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**<br>Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 10/03/2023.<br><br>**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**<br>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | **CS1023** Ar 23/06/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Dyma gŵyn am | 09/03/2023 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Safon 2: Mae safon 2 yn berthnasol i ohebiaeth sy'n cael ei anfon yn benodol at unigolyn. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr ohebiaeth dan sylw'r gŵyn wedi ei anfon at nifer o bobl, sydd felly yn dod o dan ofynion safon 4. O ganlyniad, nid yw safon 2 yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| lythyrau Saesneg yn unig gafodd eu hanfon at y cleient (y person mae'r achwynydd yn cynrychioli). Mae'r llythyrau yn ymwneud â thenantiaeth y cleient gyda'r Cyngor. | i'r achos yma, ac felly nid oes methiant i gydymffurfio gyda'r safon.<br><br>Safon 4: Mae safon 4 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma, anfonwyd pedwar llythyr yn uniaith Saesneg at y cleient. Roedd rhain yn lythyrau oedd yn mynd at nifer o bersonau. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 4.<br><br>Safon 132: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cyrsiau hyfforddi i'w staff ddatblygu: ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Cafodd y safon yma ei hychwanegu oherwydd amheuaeth nad oedd yr aelod staff newydd yn ymwybodol o'r ddyletswydd i gydymffurfio gyda'r safonau. Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei dystiolaeth bod y cyrsiau y mae'n ei ddarparu yn ddigonol i gydymffurfio, ac nid oes tystiolaeth ei fod wedi methu cydymffurfio yma. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 132.<br><br>Safon 133: Mae safon 133 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi dangos tystiolaeth ei fod yn darparu gwybodaeth am y Gymraeg i bob aelod staff newydd mewn modiwl e-ddysgu. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod methiant wedi bod i gydymffurfio gyda safon 133, ac mae'n debygol mai camgymeriad gan yr unigolyn oedd yma yn hytrach na |

diffyg ym mhrosesau hyfforddi’r Cyngor. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 133.

**Dyfarniad y Comisiynydd**
O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 2, 132 ac 133, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

**Datganiad gweithredu pellach**
Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**
Safon 4: Gofyniad i gymryd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod staff yr adran berthnasol i’r gŵyn hon yn ymwybodol o ofynion safon 4 yn llawn. Rhaid sicrhau hyn drwy gynnal hyfforddiant penodol am ofynion y safon, wnaiff eu hatgoffa bod rhaid i bob gohebiaeth sy’n mynd at nifer o bersonau gael ei anfon yn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg.
2. Rhaid hefyd tynnu sylw staff yr adran berthnasol at y ffaith nad yw unrhyw ddewis iaith flaenorol sydd ar gofnod yn berthnasol wrth gydymffurfio â safon 4. Hynny yw, hyd yn oed os mai Saesneg yw dewis iaith y cwsmer, pan mae’r ohebiaeth yn fath sy’n mynd at nifer o bersonau, rhaid i’r ohebiaeth hwnnw gael ei anfon yn Gymraeg

hefyd. Rhaid i’r Cyngor ychwanegu brawddeg i gyfleu hyn at y cymal ar safon 4 yn ei fodiwl e-ddysgu ‘Welsh Language Standards’.
3. Rhaid i’r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol, sef erbyn 30/06/2023.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 09/03/2023.

**Apelau a wnaed i’r tribiwnlys**
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.